

# Y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd

Hydref 2017

Cyflwyniad .....	1
Adran 1: Darparu sicrwydd a gwelliant .....	5
Adran 2: Pwyntiau cyfeirio allanol a chwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd .....	8
Adran 3: Gosod y cyd-destun mewn Adolygiad Gwella Ansawdd a chytuno ar feysydd i ganolbwyntio arnynt a dulliau sydd wedi'u teilwra .....	10
Adran 4: Y dull o wneud Adolygiad Gwella Ansawdd.....	17
Adran 5: Adolygiad Gwella Ansawdd: beirniadaethau a chanfyddiadau.....	26
Adran 6: Cynhyrchu adroddiadau.....	28
Adran 7: Y tîm adolygu.....	31
Adran 8: Monitro a gwerthuso .....	34
Atodiad 1: Diffiniadau o dermau allweddol .....	35
Atodiad 2: Meini prawf beirniadaeth .....	37
Atodiad 3: Yr Iaith Gymraeg .....	46
Atodiad 4: Rôl yr Hwylusydd .....	47
Atodiad 5: Cyfranogaeth y myfyrwyr.....	49
Atodiad 6: Cynnwys y Dadansoddiad Hunanwerthuso .....	52
Atodiad 7: Cynnwys yr Adroddiad Technegol .....	55
Atodiad 8: Penodi, hyfforddi a rheoli adolygwyr.....	57
Atodiad 9: Rhoi ystyriaeth i gefndir y darparwr .....	60
Atodiad 10: Y broses adolygu rannol.....	63
Atodiad 11: Crynodeb o'r camau gweithredu yn dilyn yr adolygiad .....	65
Atodiad 12: Camau dilynol beirniadaethau'r adolygiad.....	68

Cyhoeddir y Llawlyfr yma yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cyflwyniad

1 Dyma'r argraffiad cyntaf o'r Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd. Mae'n nodi'r dull adolygu a fydd yn cael ei ddefnyddio gyda darparwyr addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru o 2017 ymlaen ac mae'n olynu Adolygiad Addysg Uwch: Cymru.

2 Mae Adolygiad Gwella Ansawdd yn ddull nodedig o adolygu sefydliadau, a ddatblygwyd i ymdrin â chyd-destun arbennig y sector addysg uwch yng Nghymru. Mae'n tynnu ar y profiad o wneud adolygiadau allanol yng Nghymru ac ar brofiad ASA o ddulliau a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt. Mae'n cefnogi'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yn ei gwaith ar ran addysg uwch y DU i ddiogelu enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd.

3 Datblygwyd y broses o lunio Adolygiad Gwella Ansawdd gan ASA mewn ymgynghoriad â darparwyr yng Nghymru, Prifysgolion Cymru a Colegau Cymru. Cafodd y cynigion cynnar eu trafod wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr y darparwyr; yna lluniodd ASA y Llawlyfr yn derfynol yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol. Mae ASA yn ddiolchgar i'r unigolion a'r grwpiau yma i gyd am eu hamser a'u hymgysylltiad adeiladol.

## Adolygiad Gwella Ansawdd a'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

4 Mae'r broses Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yn galluogi cyrff llywodraethu'r darparwyr i'w sicrhau eu hunain am yr ansawdd a'r safonau, a darparu sicrwydd i eraill am hynny, yn rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC) a ddatblygwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Yn bwysig iawn, amcanion Adolygiad GA yw sicrhau ansawdd a chefnogi gwelliant mewn ansawdd.

5 Mae Adolygiad GA yn alinio gydag egwyddorion y FfAAC<sup>1</sup> drwy:

- gydnabod hunanreolaeth y darparwyr addysg uwch ac amrywiaeth eu cenadaethau drwy ddull ymatebol
- ddefnyddio adolygiad gan gymheiriaid sy'n seiliedig ar risg a thystiolaeth fel sail ar gyfer adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol
- gydnabod rôl y myfyrwyr fel partneriaid wrth weithredu'r dull ac wrth ddefnyddio adolygwyr sy'n fyfyrwyr
- ddarparu dull sy'n dryloyw, yn hyblyg, yn gymesur ac yn rhoi 'gwerth am arian'
- sicrhau bod y darparwyr yn cael eu cefnogi i arbrofi ac arloesi
- gydnabod cyd-destun datganoledig y darparwyr addysg uwch gan hefyd weithredu safonau cydnabyddedig y Deyrnas Unedig.

6 Er mwyn derbyn cymeradwyaeth i'w Cynlluniau Mynediad a Ffioedd gan CCAUC, gofynnir i ddarparwyr sicrhau adolygiad yn gyfnodol gan gorff sy'n gofrestredig gyda'r Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd (EQAR). Yn unol â dull seiliedig ar risg, bydd CCAUC yn penderfynu a ddylai unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r darparwr alw am adolygiad llawn neu rannol yn gynharach. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CCAUC.<sup>2</sup> Mae rhagor o wybodaeth am y cyfnodau o ysbaid rhwng adolygiadau yn Adran 6 y ddogfen yma.

---

<sup>1</sup> Nodweddion Allweddol ac Egwyddorion y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru, sydd ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/documents/policy\\_areas/learning\\_and\\_teaching/Key%20features%20and%20principles%20of%20the%20Quality%20Assessment%20Framework%20for%20Wales%20WELSH.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/Key%20features%20and%20principles%20of%20the%20Quality%20Assessment%20Framework%20for%20Wales%20WELSH.pdf) (PDF, 100KB).

<sup>2</sup> Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol (CCAUC), sydd ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/documents/policy\\_areas/learning\\_and\\_teaching/Adolygiad%20sicrwydd%20ansawdd%20allanol.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/Adolygiad%20sicrwydd%20ansawdd%20allanol.pdf) (PDF, 301KB).

7 Mae Adolygiad GA yn asesu darparwyr addysg uwch yn erbyn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (2015) (ESG)<sup>3</sup> a gofynion sylfaenol y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn galluogi i ddarparwyr gael adolygiad gan ASA, sef corff sydd ar yr EQAR, sy'n deall cyd-destun addysg uwch yng Nghymru ac sy'n cynnal gallu priodol yn y Gymraeg ac ymrwymiad priodol i'r iaith Gymraeg.<sup>4</sup>

8 Bydd CCAUC yn rhoi'r FfAAC ar waith gyda blwyddyn ddatblygiadol yn 2017-18. Gallai manylion y dull adolygu newid ar gefndir y profiadau yn ystod y flwyddyn ddatblygiadol hon.<sup>5</sup> Bydd unrhyw newidiadau i'r dull yn dod yn weithredol o'r drydedd flwyddyn o weithredu'r dull, heblaw bod y darparwyr sy'n cymryd rhan yn ystod yr ail flwyddyn yn cytuno i'r newid gael ei weithredu.

## Nodau ac amcanion Adolygiad Gwella Ansawdd

9 Nod cyffredinol Adolygiad GA yw hysbysu corff llywodraethu'r darparwr, myfyrwyr a'r cyhoedd ehangach a yw'r darparwr yn bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y FfAAC, ac annog gwelliant; mae gan Adolygiad GA ddwy swyddogaeth, o ran sicrhau a gwella ansawdd.

10 Mae gan Adolygiad GA ystod o amcanion. Yn nhermau sicrwydd, mae Adolygiad GA yn:

- rhoi datganiad clir i ddweud a yw'r darparwr yn bodloni Rhan 1 yr ESG o ran sicrhau ansawdd mewnol, a'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol
- rhoi cyfres o ddatganiadau sicrwydd, canmoliaethau gwahaniaethol ac argymhellion i gyrrff llywodraethu
- sicrhau bod y broses yn gweithredu fel sail ar gyfer gwneud yn siŵr y cymerir camau i wella os canfyddir bod gwendidau sylweddol yn y ffordd y rheolir safonau academiaidd neu yn ansawdd y ddarpariaeth.

Fel dull wedi'i deilwra, mae Adolygiad GA yn:

- rhoi adolygiad sydd wedi'i strwythuro o amgylch blaenoriaethau strategol y darparwr a natur ei gorff myfyrwyr - a sut mae'r ddau'n berthnasol i'w gilydd i ddiffinio blaenoriaethau'r darparwr o ran gwella profiad dysgu'r myfyrwyr
- rhoi datganiad clir am ddull strategol y darparwr o wella profiad dysgu'r myfyrwyr effeithlon, yn gost-effeithiol ac yn hyblyg, gan sicrhau'r manteision mwyaf o'r ymgysylltiad adeiladol yn ystod y broses adolygu, a lleihau'r baich ar ddarparwyr addysg uwch.

I gefnogi nodau gwella ansawdd ac ymgysylltu â'r myfyrwyr, mae Adolygiad GA yn:

- hyrwyddo hunanwerthusiad cyfannol sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth gan ddarparwyr a'r cyfle i ymgysylltu mewn trafodaeth ar ganlyniadau'r hunanwerthusiad hwnnw gyda thîm o gymheiriaid
- rhoi ffocws cryfach ar y bartneriaeth rhwng myfyrwyr a darparwyr
- galluogi gweithrediad y gwaith o ddatblygu a gwella drwy'r sector cyfan drwy ddefnyddio gwybodaeth am gryfderau a heriau sy'n codi o'r adolygiad.

---

<sup>3</sup> Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, sydd ar gael (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: [www.enqa.eu/wp-content/uploads/2015/11/ESG\\_2015.pdf](http://www.enqa.eu/wp-content/uploads/2015/11/ESG_2015.pdf) (PDF, 622KB).

<sup>4</sup> Mae ASA wedi'i rhestru ar y gofrestr EQAR ers 2013.

<sup>5</sup> Bydd ASA yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau sylweddol.

## Beirniadaethau a phwyntiau cyfeirio

- 11 Yn null Adolygiad GA, bydd y tîm adolygu'n rhoi dwy feirniadaeth ar wahân sy'n barnu a yw:
- gofynion Rhan 1 yr ESG ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol yn cael eu bodloni
  - gofynion rheoleiddiol sylfaenol y FfAAC yn cael eu bodloni.

Mae'r ESG a'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol yn ffurfio'r pwyntiau cyfeirio allweddol y cytunwyd arnynt ar gyfer yr adolygiadau, gan adlewyrchu disgwyliadau Ardal Addysg Uwch Ewrop a'r DU fel y bo'n berthnasol, ac felly maent yn helpu i sicrhau bod canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu cydnabod yn y DU a thu hwnt. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion rheoleiddiol sylfaenol yn Adran 2. Mae rhagor o wybodaeth am y beirniadaethau yn Adran 5.

- 12 Bydd y beirniadaethau'n cael eu mynegi fel un o'r dilynol:
- yn bodloni'r gofynion
  - yn bodloni'r gofynion gydag amodau
  - ddim yn bodloni'r gofynion.

## Y datblygiadau allweddol ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd

13 Mae'r dull newydd yn dod â newid sylweddol a newid diwylliant mewn nifer o agweddau. I grynhoi, dyma'r pedwar prif faes lle cafwyd newidiadau: mae'r dull adolygu wedi'i seilio ar anghenion y sector addysg uwch yng Nghymru; mae'n ceisio cadarnhau yn hytrach nag ail brofi gofynion sylfaenol; mae'n rhoi mwy o bwyslais ar welliant ac effaith y mentrau sydd ar waith i fyfyrwyr; ac mae ganddo elfennau sydd wedi'u negodi'n well i gwrdd ag anghenion arbennig y darparwyr unigol.

14 Y man cychwyn oedd cyd-destun polisiau Cymru ac anghenion y sector addysg uwch a'r myfyrwyr yng Nghymru. Lle mae gan ddarparwr hanes ddangosadwy<sup>6</sup> o fodloni gofynion Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) mae'r prif ffocws ar welliant, gyda'r dull wedi'i lunio i gadarnhau yn hytrach nag ail brofi gofynion a disgwyliadau sylfaenol. Bydd y darparwr yn crynhoi'r hyn sydd wedi newid ers ei adolygiad blaenorol ac yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd y newidiadau (mewn 'Adroddiad Newidiadau'). Law yn llaw â hyn dylid cael tystiolaeth o'r sail resymegol sy'n sail i'r newidiadau a sut mae'r darparwr wedi gwerthuso, neu'n bwriadu gwerthuso, effeithiolrwydd newidiadau diweddar.

15 Mae Adolygiad GA yn canolbwyntio ar natur pob darparwr: ei faint a'i raddfa, natur ac ystod ei ddarpariaeth, natur poblogaeth ei fyfyrwyr, ei gyfeiriad strategol, a'i asesiad beirniadol ei hun o'i gryfderau a'i feysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r agwedd yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar adolygu gan gymheiriad drwy alluogi deialog adeiladol rhwng y tîm adolygu a'r darparwr yn ystod yr adolygiad. Mae'r agwedd yma'n golygu bod modd defnyddio Adolygiad GA i brofi ac i archwilio sut mae darparwr yn ymateb i'r gyfwrdd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi darparwyr i sicrhau bod y sefydliad a'r sector yn cael y budd mwyaf o'r ymarfer, gan gydnabod ac adeiladu ar y pwysigrwydd a roddir i hunanwerthusiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

16 Yn unol â'r FfAAC, lluniwyd y dull i fod yn hyblyg fel bod cyrff llywodraethu'n gallu gosod gofynion ychwanegol ar y broses yng nghyd-destun cenhadaeth a strategaeth y darparwr, os dymunant.<sup>7</sup> Lluniwyd y dull i fodloni anghenion am adolygiad y darparwyr sefydledig hynny sydd â hanes o adolygiadau, a'r rheiny sy'n dal i ddatblygu eu hanes o adolygiadau; cafodd ei lunio i fod yn hyblyg fel ei fod yn addas i brifysgolion mawr yn ogystal â darparwyr addysg bellach sy'n darparu addysg uwch fel elfen fechan o'u portffolio yn unig.

---

<sup>6</sup> Diffinnir hyn fel dau adolygiad ASA llwyddiannus, megis adolygiadau yn erbyn y disgwyliadau ar gyfer darpariaeth addysg uwch y DU.

<sup>7</sup> Gallai elfennau a negodwyd neu elfennau ychwanegol yr adolygiad beri costau ychwanegol.

17 Mae Adolygiad GA yn cyflwyno nifer o newidiadau i'r broses adolygu allanol yng Nghymru, y mae llawer ohonynt yn ymwneud â galluogi darparwyr i deilwra'r adolygiad neu addasu cyd-destun yr adolygiad i gyfateb â'u hanghenion. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r dull, dywedodd y darparwyr yr hoffent i'r dull roi mwy o ffocws ar welliant. Lluniwyd y dull yma i gryfhau'r ffocws ar welliant drwy annog darparwyr i'w gwerthuso eu hunain yn feiriadol, a thrwy annog trafodaeth am y ffordd y maent yn defnyddio gwybodaeth ac adborth i siapio eu cynlluniau strategol eu hunain ar gyfer gwella profiad dysgu'r myfyrwyr. Mae'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ddeialog adeiladol gydag adolygwyr sy'n gymheiriaid am feysydd o gryfder a meysydd o her. Bydd y dull yn parhau i hyrwyddo ymgysylltiad y myfyrwyr ar bob cam. Bydd timau adolygu'n archwilio rôl y myfyrwyr a barn y myfyrwyr wrth lunio'r blaenoriaethau a'r cynlluniau ar gyfer gwelliant o fewn y darparwr, yn ychwanegol at eu cyfranogaeth yn y gwaith o baratoi'r Dadansoddiad Hunanwerthuso ar gyfer yr adolygiad.

18 Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- Dadansoddiad Hunanwerthuso ac Adroddiad Newidiadau fel yr unig ddogfennau sydd i gael eu paratoi gan ddarparwyr sefydledig
- adolygu yn erbyn ystod ehangach o ofynion fel y maent wedi'u rhagnodi gan CCAUC (gwelwch Adran 2)
- trafodaethau am gwmpas a ffocws yr adolygiad ar gam cynnar gyda'r Swyddog ASA sy'n gyfrifol am yr adolygiad
- mwy o ffocws ar y dyfodol ac ar welliant (gwelwch Adran 1)
- Ymweliad Cyntaf gan y Tîm sy'n para diwrnod (yn hytrach na diwrnod a hanner)
- symud tuag at Adroddiad Canlyniadau ar wahân i gynulleidfa gyffredinol, ynghyd ag Adroddiad Technegol mwy manwl wedi'i anelu at y darparwr.

19 Bydd yr adolygiadau'n fwy hyblyg mewn nifer o ffyrdd:

- gellir amrywio maint a chyfansoddiad tîm yr Adolygiad GA i gyfateb â'r cyd-destun sefydliadol, gyda 3-5 o adolygwyr
- gellir addasu hyd a chwmpas yr Ymweliad Adolygu
- yn ogystal â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso, bydd y darparwyr sydd â hanes priodol o adolygiadau yn paratoi a chyflwyno Adroddiad Newidiadau (gwelwch Adran 3), tra bydd angen i'r rheiny sydd heb hanes priodol o adolygiadau gynhyrchu dogfen sy'n mapio polisïau ac arferion y darparwr yn llawn yn erbyn Rhan 1 yr ESG a'r gofynion sylfaenol eraill yng Nghymru
- Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw sy'n darparu tystiolaeth allweddol i'r adolygwyr cyfle i gytuno ar y ffordd y bydd y tîm adolygu'n cynnwys y myfyrwyr yn y broses adolygu (gwelwch Adran 3)
- nid oes gofyn am astudiaethau achos, er y gall y darparwyr eu cyflwyno os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

# Adran 1: Darparu sicrwydd a gwelliant

## Diffinio gwelliant

20 Mae ASA yn diffinio gwelliant fel y broses o ddefnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau pwrpasol i wella profiad dysgu'r myfyrwyr. Daw'r gwelliant mewn ystod o ffyrdd ac ar wahanol lefelau o fewn sefydliad y darparwr. Gallai gwelliant gynnwys datblygiad parhaus a/neu newidiadau mwy sylweddol i bolisiâu ac arferion i wella profiad dysgu'r myfyrwyr. Gallai gynnwys newidiadau ar draws y darparwr cyfan, neu ar lefel y rhaglenni neu'r adrannau unigol.

21 Mae Adolygiad GA yn canolbwyntio ar y ffordd y mae darparwyr addysg uwch yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt i siapio eu dulliau strategol o sicrhau gwelliant. Mae gan Adolygiad GA ddiddordeb arbennig ym mwriadau strategol y darparwr a'i gynlluniau yng nghyd-destun ei broffil myfyrwyr ar y pryd a'i broffil yn y dyfodol (gan ystyried amrywiaeth llawn poblogaeth y myfyrwyr, a'r lleoliadau, dulliau a lefelau astudio). Mae Adolygiad GA yn archwilio effaith dull strategol y darparwr o wella ansawdd, gan gynnwys sut y gallai unrhyw newidiadau ym mhoblogaeth y myfyrwyr effeithio arno. Er enghraifft, os yw'r darparwr yn bwriadu ehangu poblogaeth ei fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, bydd Adolygiad GA yn archwilio'r camau y mae'r darparwr wedi'u cymryd i roi ei strategaethau gwella ar waith yn y maes o ddarpariaeth hwn sydd wedi'i ehangu. Hefyd, bydd y timau adolygu'n edrych i weld sut mae poblogaeth ei fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu.

22 Dylai'r hunanwerthusiad adlewyrchu'r ffocws hwn ar welliant, yn enwedig yn y prif adrannau ar wella profiad dysgu'r myfyrwyr ac ar gefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu (gwelwch Atodiadau 6 a 7).

## Dull hunan-werthusol

23 Mae gwelliant yn cynnwys bwriad strategol a gwerthusiad. Felly, disgwylir i'r darparwr gael gweledigaeth strategol glir, a chymryd yr awenau, ar gyfer gwelliant a'r newidiadau y mae'n ceisio eu sicrhau. Disgwylir i hyn gael ei hysbysu gan ddiwylliant sy'n hybu arfer gwerthusol mewn prosesau sicrhau ansawdd, a gan werthusiad y darparwr o ba mor effeithiol ydoedd wrth weithredu ei gynlluniau cynharach, ei gryfderau presennol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. I wneud hynny, gallai'r darparwr ddefnyddio fframwaith o gwestiynau:

- Lle ydym ni nawr?
- Lle hoffem ni fod yn y dyfodol?
- Sut ydyn ni'n mynd i gyrraedd y pwynt hwnnw?
- Sut fyddwn ni'n gwybod pan gyrhaeddwn y pwynt hwnnw?

24 Bydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun yn feirniadol yn ffocws arwyddocaol yn null Adolygiad GA, am mai dyma sut y gall y darparwr ddangos bod ganddo ddiwylliant o fyfyrion ar ansawdd i werthuso cryfderau, ac i ganfod ac ymdrin â risgiau posibl i ansawdd neu safonau academaidd. Wrth ganolbwyntio ar welliant mae darparwyr yn canfod ffyrdd o wella profiad dysgu'r myfyrwyr, p'un a yw'r safonau neu ansawdd mewn perygl ai peidio, gan ymdrechu'n bwrpasol i sicrhau rhagoriaeth, i hwyluso arloesi ac i ymateb yn effeithiol er mwyn datblygu diwylliant o wella ansawdd.

25 Mae dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar welliant yn cydnabod bod angen addasu a newid wrth i gyd-destun cymdeithasol, economaidd, technolegol a pholisi newid, ac wrth i amrywiaeth a natur poblogaeth y myfyrwyr newid. Weithiau mae'r angen am newid yn codi pan bennir manau o wendid neu gyfleoedd ar gyfer datblygiad, ond mae'n hanfodol pwysleisio'r ffaith fod 'gwella' yng nghyd-destun gwelliant wedi'i briodoli ar y dybiaeth fod rhagoriaeth yng nghyd-destun dynamig addysg uwch yn datblygu'n barhaus a bod gwelliant yn rhan o ddiwylliant o fyfyrion, arloesi a newid.

26 Yn null Adolygiad GA, bydd y darparwr yn paratoi Dadansoddiad Hunanwerthuso penodol sy'n crynhoi ei ddulliau a'i gynlluniau ar gyfer gwelliant i'r tîm adolygu. Disgwylir y bydd y Dadansoddiad Hunanwerthuso'n gwyno ac yn cynnwys tystiolaeth (mae mwy o fanylion am hyn yn Adran 3). Mae ASA yn disgwyl i ddarparwyr wneud gwerthusiadau'n barhaol ac yn rheolaidd fel na fydd cyflwyno tystiolaeth ochr yn ochr â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso'n cynnwys datblygu dogfennau cefnogol newydd. Bydd Adolygiad GA yn archwilio ystod ac effeithiolrwydd cyffredinol y gwerthusiadau parhaus a rheolaidd hynny.

## **Gwelliant, tystiolaeth, datblygiad newydd a risg**

27 Yn sylfaenol berthnasol i welliant mae rheoli newid. Mae gwelliant yn cynnwys defnyddio tystiolaeth i wneud penderfyniadau am newidiadau arfaethedig, a defnyddio tystiolaeth i werthuso pa mor effeithiol yw'r mentrau. Mae'n golygu gwneud pethau newydd neu wneud pethau sefydledig mewn ffyrdd newydd. Un elfen allweddol i ddarparwyr fydd y gallu i bennu a rhannu'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid. Mae Adolygiad GA yn cefnogi darparwyr i fabwysiadu agwedd uchelgeisiol tuag at eu gweithgareddau gwella. Mae'n annog arloesi ac yn hybu gweithredoedd sy'n golygu cymryd risg o dan reolaeth. Bydd gan yr adolygwyr ddiddordeb yn y ffordd y mae'r myfyrwyr wedi bod yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwelliant, ac yn y broses o gyflwyno a gwerthuso newidiadau.

## **Ymgysylltiad y myfyrwyr mewn gwelliant**

28 Mae partneriaeth â'r myfyrwyr yn un o egwyddorion y FfAAC, ac mae ffocws arwyddocaol yn null Adolygiad GA ar effeithiolrwydd y bartneriaeth hon yn y gwaith o sicrhau ansawdd a gwella safonau. Mae partneriaeth yn awgrymu perthynas gyfartal, wedi'i seilio ar barch cyfartal, rhwng y myfyriwr a'r darparwr sy'n gweithio tuag at brofiad cyffredin ac sy'n parchu'r gwahanol sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd a gallu y mae myfyrwyr a'r darparwr yn eu cynnig. Y maes gwelliant ansawdd, mae wedi dod yn arfer sefydledig bod myfyrwyr yn bartneriaid yn y broses o ffurfio, cyflwyno, gweithredu a gwerthuso agwedd y darparwr. Mae'r agwedd yma tuag at bartneriaeth wedi'i hadlewyrchu yn y datganiad gan Fenter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (MYMC), a elwir hefyd yn Wise Cymru, ar Bartneriaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â'r sector addysg uwch yng Nghymru ac a gymeradwywyd gan Colegau Cymru a Phrifysgolion Cymru ar ran y darparwyr addysg uwch.<sup>8</sup>

29 Mae ASA yn disgwyl i'r myfyrwyr gael cyfle i weithio'n weithredol mewn partneriaeth â'u darparwr addysg uwch i siapio a chyd-gynhyrchu eu darpariaeth ddysgu ac addysgu, yn hytrach na dim ond ei derbyn yn oddefol. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnwys yr ymdrech y mae myfyrwyr yn ei wneud wrth ddysgu, yn ogystal â'u gwaith fel aelodau o gyrff gwneud penderfyniadau ac mewn strwythurau ymgynghorol ar lefelau cyrsiol, adrannol a sefydliadol.

30 Bydd Adolygiad GA yn archwilio i ba raddau mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â'i fyfyrwyr, a pha mor effeithiol yw'r gweithio hwnnw. Bydd gan dimau adolygu hefyd ddiddordeb yn yr agwedd y mae darparwyr yn ei gymryd tuag at gynnwys y myfyrwyr yn eu dysgu eu hunain.

## **Blaenoriaethau cenedlaethol**

31 Mae gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ffocws cryf o hyd ar flaenoriaethau cenedlaethol. Cytunir yn fuan yn y broses i ba raddau y bydd tîm adolygu'n archwilio agwedd y darparwr tuag at flaenoriaethau cenedlaethol ym mhroses Adolygiad GA. Gallai hyn gynnwys archwilio ymatebion i anghenion economaidd y wlad, y rhanbarth neu'r gymuned, neu i'r Strategaeth Addysg Uwch ar gyfer Cymru gan CCAUC, ac hefyd i weithredu polisïau mewn

---

<sup>8</sup> Partneriaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru (Wise Cymru), sydd ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/documents/policy\\_areas/learning\\_and\\_teaching/Wise\\_Welsh2.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/Wise_Welsh2.pdf) (PDF, 124KB).

meysydd megis creu system addysg drydyddol, neu gynaliadwyedd a lles. Yn ogystal, bydd timau adolygu'n cynnwys adolygwr sy'n gweithio, neu sydd wedi ennill profiad diweddar, yn y sector addysg uwch yng Nghymru.

## **Cymharu'r Adolygiad Gwella Ansawdd gyda gweddill y DU a thramor**

32 Er bod dull Adolygiad GA yn un unigryw i'r sector yng Nghymru, mae'n darparu cyfleoedd i gymharu dulliau a darparwyr. Gwneir cymariaethau gyda gweddill y DU drwy ystod o fecanweithiau, sy'n cynnwys:

- defnyddio pwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt drwy'r DU gyfan
- tynnu adolygwyr o bob rhan o'r DU
- canlyniadau sy'n gymharol gyffredinol â'r rhai yn nulliau adolygu ASA mewn rhannau eraill o'r DU.

33 Gwneir cymariaethau rhyngwladol drwy:

- Le ASA ar y gofrestr EQAR ac fel aelod llawn o Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA)<sup>9</sup>
- ddefnydd y darparwyr o bwyntiau cyfeirio rhyngwladol, gan gynnwys yr ESG, wrth lunio a gwerthuso strategaethau ac arferion
- ymgysylltiad Swyddogion ASA gyda rhwydweithiau ac asiantaethau sy'n gweithio mewn gwledydd eraill.

---

<sup>9</sup> Mae hyn yn cadarnhau bod ASA yn bodloni Rhan 3 yr ESG, a bod ei dulliau'n alinio â Rhan 2, ac yn profi a yw darparwyr yn alinio â Rhan 1.

## Adran 2: Pwyntiau cyfeirio allanol a chwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd

### Pwyntiau cyfeirio allanol

34 Yn rhan o'i waith o bennu ei ddull strategol o sicrhau gwelliant, a gwerthuso ei bolisiau a'i arferion cyfredol, disgwylir i'r darparwr ddefnyddio amrywiaeth o bwyntiau cyfeirio allanol. Bydd rhai o'r pwyntiau cyfeirio hyn yn gyffredin i'r holl ddarparwyr yng Nghymru, megis Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a gofynion yr iaith Gymraeg. Bydd rhai o'r pwyntiau cyfeirio'n rhai i'r DU gyfan<sup>10</sup>, megis y Cod Ansawdd, a bydd eraill yn rhyngwladol, megis yr ESG.

35 Er bod gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i bennu'r gyfres lawn o bwyntiau cyfeirio sy'n berthnasol i'w gweledigaeth strategol, eu cyd-destun a'u poblogaeth myfyrwyr, mae nifer o bwyntiau cyfeirio allweddol penodol y disgwylir i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ymdrin â nhw. Dyma ofynion rheoleiddiol sylfaenol y FfAAC.

36 Ar hyn o bryd, mae gofynion rheoleiddiol sylfaenol y FfAAC yn cynnwys:

- y Cod Ansawdd, gan gynnwys y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)
- y Cod Llywodraethu Addysg Uwch, y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru neu godau llywodraethu cyfatebol eraill sydd wedi'u dynodi
- disgwyliadau'r ddeddfwriaeth gwarchod defnyddwyr sydd wedi'u nodi yng nghyfarwyddyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- fframwaith arfer da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau
- strategaeth y darparwr ar gyfer ei ddarpariaeth addysg uwch
- Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru
- gofynion yr iaith Gymraeg.

37 Mae ASA yn cydnabod bod darparwyr addysg uwch yn gweithredu mewn amgylchedd deinamig lle mae'r gyfres bosibl o bwyntiau cyfeirio allweddol yn datblygu. Bydd timau adolygu'n ystyried i ba raddau y mae gan y darparwr drefniadau systematig ar gyfer:

- canfod y pwyntiau cyfeirio sy'n fwyaf perthnasol i gyfeiriad strategol a phoblogaeth myfyrwyr y darparwr
- canfod newidiadau yn y pwyntiau cyfeirio allweddol, a diweddarau polisïau ac arferion sefydliadol i gyd-fynd â'r rheiny
- defnyddio'r pwyntiau cyfeirio hyn wrth osod, rheoli a gwerthuso strategaethau, polisïau ac arferion sefydliadol.

---

<sup>10</sup> Mae'r Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU gyfan, a sefydlwyd yn 2016, yn goruchwyllo'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol ledled y DU. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/documents/policy\\_areas/learning\\_and\\_teaching/BRR%20publication%20for%20web%20final%20WELSH.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/BRR%20publication%20for%20web%20final%20WELSH.pdf) (PDF, 327KB).

## Cwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd

38 Mae cwmpas dull Adolygiad GA yn cynnwys holl ddarpariaeth addysg uwch y darparwr, hynny yw, rhaglenni astudio sy'n arwain yn y pen draw at ddyfarniadau neu gredydau ar lefelau 4 i 8 yn y FHEQ. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni blwyddyn sylfaen integredig sydd wedi'u llunio i alluogi mynediad i raglen(ni) gradd benodol<sup>11</sup> a phrentisiaethau lefel uwch sy'n arwain at ddyfarniadau yn y FHEQ.

39 Mae Adolygiad GA yn ymwneud â phrofiad dysgu'r myfyrwyr addysg uwch i gyd, beth bynnag fo lefel, dull neu leoliad eu hastudio. Bydd hyn yn cynnwys myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig; myfyrwyr a addysgir a myfyrwyr ymchwil; myfyrwyr llawn amser a rhan amser, gan gynnwys y rheiny sy'n cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus â chredydau; myfyrwyr sy'n dysgu o bell neu ar y campws; a myfyrwyr ar raglenni dysgu seiliedig ar waith. Bydd hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n cael lle gyda'r darparwr drwy'r ystod lawn o lwybrau. Bydd yn cynnwys myfyrwyr cartref, Ewropeaidd a rhyngwladol, sut bynnag y maent wedi'u hariannu.

40 Mae Adolygiad GA hefyd yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol lle bynnag a sut bynnag y mae'n cael ei darparu, megis gan goleg addysg bellach, campws cangen, neu sefydliad cyflogwr. Mae'r cyfrifoldeb am safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir drwy drefniadau o'r fath yn parhau, yn ddiamwys, gyda'r corff dyfarnu neu'r sefydliad dyfarnu. Lle darperir y ddarpariaeth mewn cydweithrediad â phartner tramor, bydd yr Adolygiad GA yn cyfeirio at y trefniadau sydd gan y darparwr yng Nghymru yn eu lle ar gyfer rheoli ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr a rheoli safonau academiaidd y dyfarniadau. Bydd darparwyr yng Nghymru'n parhau i gymryd rhan mewn adolygiadau o'u darpariaeth addysg draws-wladol (TNE) a'r gweithgareddau cysylltiedig y bydd ASA yn eu trefnu o bryd i'w gilydd, os bydd yn berthnasol i'w darpariaeth. Bydd canlyniadau'r gwaith hwnnw'n hysbysu Adolygiadau GA.

41 Mae Adolygiad GA yn canolbwyntio ar brofiad dysgu'r myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys dau brif faes:

- y cyfleoedd dysgu y mae'r darparwr yn eu cynnig i'w fyfyrwyr ynghyd â'r cymorth y mae'n ei roi iddynt i'w galluogi i fanteisio orau ar y cyfleoedd dysgu hynny
- i ba raddau y mae'r darparwr yn cynnwys myfyrwyr yn y broses o reoli a gwella ansawdd, ac felly'n eu galluogi i gymryd rhan yn y gwaith o reoli profiad dysgu'r myfyrwyr yn effeithiol.

42 Mae Adolygiad GA yn ystyried pa mor effeithiol yw ymateb y darparwr i natur ei boblogaeth myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer adnabod ac ymateb i amrywiaeth y myfyrwyr a'u hanghenion, a sut mae hyn yn berthnasol i'w cenhadaeth a'u hamcanion strategol.

---

<sup>11</sup> Efallai y bydd yn rhaid defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol eraill, yn ychwanegol at y Cod Ansawdd, i osod safonau academiaidd ar gyfer yr elfen blwyddyn sylfaen. Os yw'r elfen blwyddyn sylfaen yn sefyll ar ei phen ei hun ac nad oes ganddi berthynas uniongyrchol â rhaglen addysg uwch benodol, nid yw'n atebol i'r Cod Ansawdd, ond gallai fod yn atebol i ofynion rheoliadol eraill.

### Adran 3: Gosod y cyd-destun mewn Adolygiad Gwella Ansawdd a chytuno ar feysydd i ganolbwyntio arnynt a dulliau sydd wedi'u teilwra

43 Mae Adolygiad GA yn gyfle i adolygiad roi'r ffocws mwyaf ar y meysydd o bwysigrwydd strategol ac o'r budd mwyaf. Dylai'r darparwr gychwyn ei waith paratoi drwy wneud gwerthusiad cyfannol o'i strategaethau, ei bolisiau a'i arferion sy'n ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd a symud ymlaen at bennu'r meysydd y dylai'r adolygiad ganolbwyntio arnynt.

Dylai fyfyrrio ar ei ymateb i'r adolygiad diwethaf gan ASA. Dylid seilio'r meysydd i ganolbwyntio arnynt ar dystiolaeth a strategaeth.

44 Bydd y darparwr yn trafod y meysydd y mae eisïau i'w adolygiad ganolbwyntio arnynt gyda'r Swyddog ASA sy'n rheoli'r adolygiad. Bydd y trafodaethau hyn yn cychwyn ar gam cynnar yng ngwaith paratoi'r darparwr fel bod y meysydd i ganolbwyntio arnynt yn gallu hysbysu cyfansoddiad y tîm adolygu ac yn galluogi ASA i deilwra'r adolygiad i anghenion a blaenoriaethau penodol y darparwr.

45 Bydd y darparwr yn gosod a gwerthuso'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso y bydd yn ei gyflwyno i'r tîm adolygu. Bydd yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm yn rhoi'r cyfle cyntaf i'r darparwr a'r tîm adolygu drafod y penderfyniadau hynny.

46 Lle mae rheswm da am hynny, gallai'r timau adolygu ofyn am ragor o wybodaeth am feysydd eraill (er enghraifft, tystiolaeth bellach i gefnogi beirniadaethau'r adolygiad).

47 Y bwriad yw bod y ffocws wedi'i deilwra'n sicrhau bod y darparwr yn cael y gwerth gorau o'i Adolygiad GA, a hynny yn ystod y gwerthusiad paratoadol ac yn ystod yr Ymweliadau Adolygu, am ei fod caniatáu i'r adolygiad ymateb i natur y darparwr, i gyfansoddiad ei boblogaeth myfyrwyr ac i'w flaenoriaethau strategol.

48 Mae'r tabl isod yn amlinellu sut mae prif gamau'r broses o baratoi ar gyfer yr adolygiad, a'r broses o deilwra, yn gweithredu yn null Adolygiad GA.

Y cam yn y broses	Yr wybodaeth	Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon
Cysylltiad cynnar gydag ASA / Cyfarfod Paratoadol	<p>Maint a graddfa'r darparwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>nifer y lleoliadau astudio/darparu</li> <li>graddfa'r gweithgareddau cydweithredol (os oes rhai)</li> <li>ystod a chymhlethdod y ddarpariaeth (er enghraifft, dysgu seiliedig ar waith).</li> </ul> <p>Barn y darparwr am gyfansoddiad a nodweddion y tîm adolygu</p> <p>Barn y darparwyr/myfyrwyr am y dull o ymgysylltu â myfyrwyr</p> <p>Natur canlyniadau'r adolygiad blaenorol a thystiolaeth o effeithiolrwydd yr ymatebion</p> <p>Unrhyw newidiadau arwyddocaol</p>	<p>Mae'n hysbysu cyfansoddiad y tîm adolygu (ei faint ac unrhyw nodweddion/ arbenigedd yr hoffai'r darparwr eu gweld wedi'u hadlewyrchu yn y tîm)</p> <p>Mae'n hysbysu'r camau cynnar o broses bennu'r meysydd i ganolbwyntio arnynt</p> <p>Mae'n helpu i sicrhau bod gwybodaeth angenrheidiol wedi'i darparu i alluogi'r tîm adolygu i ffurfio beirniadaethau cadarn</p>

	mewn strategaethau, ym mhoblogaeth y myfyrwyr neu mewn cyd-destun allweddol arall ers yr adolygiad blaenorol, neu unrhyw newidiadau arfaethedig	
Paratoi ar gyfer yr adolygiad: drafftio'r Dadansoddiad Hunanwerthuso terfynol a'r Adroddiad Newidiadau; casglu dogfennau cefnogol	<p>Canlyniadau'r adolygiad blaenorol: tystiolaeth o effeithiolrwydd yr ymateb</p> <p>Gwerthuso a myfyrio ar yr adroddiadau am ansawdd i CCAUC</p> <p>Gwerthuso adborth gan y myfyrwyr: canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC), arolygon mewnol, cyfranogaeth y myfyrwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau a phrosesau sefydliadol eraill</p> <p>Gwerthuso canlyniadau adroddiadau monitro ac adolygu'r rhaglenni, yn ogystal ag adroddiadau o weithgareddau achredu gan gyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrrff PSRB)</p> <p>Gwerthuso canlyniadau adroddiadau'r arholwyr allanol</p> <p>Dogfen fapio yn erbyn yr ESG sy'n amlygu arferion da a meysydd o her</p> <p>Gwerthuso gwybodaeth gan gynnwys yr AMC, cyfresi data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, a gwybodaeth ystadegol arall, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu</p>	<p>Mae'n hysbysu hunanwerthusiad y darparwr sy'n arwain at ei farn am ei flaenoriaethau o ran ansawdd a gwelliant, ac felly'r pwyntiau canolog allweddol ar gyfer yr adolygiad</p> <p>Bydd sefydliadau'n ei hystyried hi'n bwysig ymgysylltu gyda myfyrwyr ynghylch y pwyntiau canolog ar gyfer yr adolygiad</p> <p>Bydd gan yr adolygwyr ddi-ddordeb yn yr hyn y mae'r darparwr yn ei ddysgu o'i ddadansoddiad o'r ystod o wybodaeth sydd ar gael. Sut mae hyn wedi effeithio (neu sut y bydd yn effeithio) ar strategaethau, polisïau ac/neu arferion y darparwr?</p>
Yr Adroddiad Newidiadau a'r Dadansoddiad Hunanwerthuso terfynol	<p><b>Darparwyr sefydledig a'r rhai nad ydynt yn sefydledig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esbonio'r meysydd i ganolbwyntio arnynt a'r sail resymegol i'r tîm adolygu yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso</li> <li>• pennu'r meysydd o gryfder yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso</li> <li>• yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso, pennu heriau a meysydd sydd angen eu datblygu a disgrifio'r hyn sydd wedi'i gynllunio a beth sydd wedi cychwyn yn barod, gan ddangos ar ba lefel y maent o ran blaenoriaeth/yr amserlen ar gyfer gweithredu</li> <li>• darparu'r holl ddogfennau cefnogol</li> </ul>	<p>Mae'r tîm adolygu'n defnyddio'r wybodaeth hon i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried natur y darparwr a'i ddewis o ran y prif bwyntiau canolog ar gyfer yr adolygiad</li> <li>• drafod y pwyntiau hyn yn ystod yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm</li> </ul>

	<p>yn y Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw</p> <p><b>Darparwyr sefydledig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyno Adroddiad Newidiadau</li> </ul> <p><b>Darparwyr nad ydynt yn sefydledig:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dadansoddi a disgrifio eu hymgysylltiad gyda'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol a'r ESG.</li> </ul>	
Yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm	I helpu'r tîm adolygu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r darparwr.	<p>Mae'n galluogi'r tîm adolygu i bennu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y pwyntiau canolog ar gyfer yr adolygiad</li> <li>• unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth benodol ychwanegol y mae eu hangen i sicrhau ei fod yn gallu ffurfio beirniadaethau cadarn</li> </ul>

## Y Dadansoddiad Hunanwerthuso, yr Adroddiad Newidiadau a'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw

### Y Dadansoddiad Hunanwerthuso

49 Dylai'r Dadansoddiad Hunanwerthuso adlewyrchu penawdau'r Adroddiad Technegol, gan roi pwyslais cryfach ar y meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt y mae'r darparwr wedi dewis eu pwysleisio. Dylai'r Dadansoddiad Hunanwerthuso ddangos gallu'r darparwr i'w ystyried a'i werthuso ei hun yn feirniadol, gan fyfyrrio ar ei ymateb i'w adolygiad diwethaf gan ASA. Dylid seilio'r Dadansoddiad Hunanwerthuso ar dystiolaeth, a dylai gynnwys y dystiolaeth, neu gyfeirio at y dystiolaeth y bydd y darparwr yn seilio ei ddadansoddiad arni. Mae ASA yn disgwyl i ddarparwyr gynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o baratoi'r Dadansoddiad Hunanwerthuso, a phennu natur ac effaith y gyfranogaeth honno yn nhestun y Dadansoddiad Hunanwerthuso.

50 Mae ASA yn gofyn i ddarparwyr grynhoi'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso. Mae'r pynciau hyn yn debygol o gynnwys mentrau strategol cyfredol, meysydd o her a meysydd o arfer da. Ymhob achos, dylai'r darparwr nodi'r dystiolaeth gefnogol yn glir. Am fod y pwyslais ar y meysydd i ganolbwyntio arnynt, dylai'r tîm allu mabwysiadu detholiad y darparwr o bynciau, ar yr amod bod digon o wybodaeth i gefnogi'r meysydd beirniadaeth a bod dystiolaeth ddigonol o'r penderfyniadau sy'n gefn i'r meysydd i ganolbwyntio arnynt.

51 Nid yw astudiaethau achos yn rhan orfodol o'r dull adolygu ond caiff darparwyr gyflwyno gwybodaeth ar ffurf astudiaeth achos os ydynt yn dewis gwneud hynny.

52 Mae rhagor o wybodaeth am gynnwys y Dadansoddiad Hunanwerthuso yn Atodiad 6.

## Ymgysylltiad â'r myfyrwyr

53 Mae barn y myfyrwyr yn hanfodol bwysig i'r adolygiadau, am eu bod yn darparu gwybodaeth i'r timau ynglŷn â pha mor effeithiol mae'r darparwyr yn rheoli eu darpariaeth addysg uwch. Nid yw cyfranogaeth y myfyrwyr yn orfodol ond mae'n hynod arwyddocaol. Os bydd y darparwr yn methu cynnwys y myfyrwyr yn y broses adolygu, bydd rhaid iddo allu dangos ei ymdrechion sylweddol i'w cynnwys. Beth bynnag, dylai'r darparwyr ddarparu gwybodaeth am y ffordd y maent yn casglu ac yn defnyddio barn y myfyrwyr, er enghraifft, drwy'r AMC neu brosesau mewnol, ac am y ffordd y maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr i ymateb iddynt.

54 O dan Adolygiad GA, gellir addasu natur cyfranogaeth y myfyrwyr yn y broses i gyfateb â natur y darparwr a'i fyfyrwyr. Mae ASA yn cydnabod nad oes gan bob darparwr undeb myfyrwyr ffurfiol ac mae'n disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu â'u corff myfyrwyr ym mha bynnag ffurf y gwnânt hynny.

55 Mae ASA yn disgwyl i ddarparwyr weithio mewn partneriaeth gyda'u myfyrwyr yn eu gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad. Felly, bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan gyflawn fel arfer yn y gwaith o baratoi'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau, a byddent yn cynnwys y staff yn y gwaith o baratoi unrhyw gyfraniad(au) gan y myfyrwyr. Dim ond y myfyrwyr sy'n gallu dewis sut y byddant yn cyfrannu at yr adolygiad. Mae pedair ffordd y gallent wneud hyn yn ystod gamau paratoadol Adolygiad GA:

- datblygu a chyflwyno cyflwyniad myfyrwyr ar wahân ar sail yr un meysydd a phenawdau eang â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso ac o fewn yr un amserlen
- darparu cyfres o sylwadau neu bortreadau bychain yn rhan o'r Dadansoddiad Hunanwerthuso
- datblygu dull hollol integredig o wneud y Dadansoddiad Hunanwerthuso - bydd angen i Ddadsoddiad Hunanwerthuso a wnaed ar y cyd gael ei lofnodi gan gynrychiolydd o'r corff myfyrwyr i gynrychioli'r cyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud
- cytuno ar un neu fwy o astudiaethau achos dan arweiniad myfyrwyr sy'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso.

56 Gall y myfyrwyr ddefnyddio cyfuniad o'r dulliau hyn i gyfrannu at yr adolygiad. Nid oes rhaid i gyflwyniadau gan fyfyrwyr fod yn ysgrifenedig - gallent fod ar ffurf sain neu fideo hefyd.<sup>12</sup> Pa bynnag ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfrannu at y camau paratoadol hyn, mae Adolygiad GA yn seiliedig ar y dybiaeth fod darparwyr yn cynnwys myfyrwyr fel partneriaid yn y broses. Nid yw ASA yn dehongli nac yn beirniadu ansawdd partneriaeth y darparwr gyda'i fyfyrwyr ar sail y ffordd mae'r myfyrwyr yn dewis cyfranogi yn y broses adolygu. Mae ASA yn disgwyl cwrdd â'r myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr yn ystod y Cyfarfod Paratoadol i ddeall sut mae'r darparwr a'r myfyrwyr yn bwriadu cydweithio i baratoi ar gyfer yr adolygiad, ac i gytuno ar natur cyfraniad y myfyrwyr i'r sail tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr adolygiad. Dylai'r darparwr hefyd gytuno ar y meysydd i ganolbwyntio arnynt ar gyfer yr adolygiad mewn partneriaeth â'r myfyrwyr.

## Yr Adroddiad Newidiadau

57 Bydd gofyn i ddarparwyr sydd â hanes o ddau neu fwy o adolygiadau ASA llwyddiannus gynhyrchu Adroddiad Newidiadau. Bydd hyn yn galluogi'r darparwr i amlinellu newidiadau i'r ffordd y mae'n bodloni gofynion rheoleiddiol sylfaenol a phwyntiau cyfeirio allanol eraill, neu'n ymateb iddynt (yn fwyaf arwyddocaol, yr ESG), yn enwedig y rheiny sydd wedi newid ers eu hadolygiad diwethaf.

---

<sup>12</sup> Mae systemau electronig diogel ASA sy'n cynnal dogfennau ar gyfer adolygiadau'n cyfyngu ar faint rhai ffeiliau sain a fideo. Gallai hyn olygu bod yn rhaid rhannu cyflwyniadau sain a fideo'n ffeiliau llai cyn eu cyflwyno. Bydd ASA yn rhoi cyfarwyddyd ar y meintiau a'r ffurfiau sy'n briodol i ffeiliau sain a fideo yn ystod y Cyfarfod Paratoadol.

Dylent:

- ddangos sut mae gofynion sylfaenol a phwyntiau cyfeirio allanol eraill nad ydynt wedi derbyn sylw mewn adolygiadau ASA blaenorol yn cael eu bodloni
- ddisgrifio ymateb y darparwr i newidiadau mewn gofynion sylfaenol a phwyntiau cyfeirio allanol eraill oedd yn bodoli'n barod
- ddisgrifio unrhyw newidiadau ers yr adolygiad diwethaf i'r ffordd y mae'r darparwr yn bodloni gofynion sylfaenol a phwyntiau cyfeirio allanol eraill oedd yn bodoli'n barod (fel arfer, gan gynnwys ymateb y darparwr i'r adolygiad diwethaf gan ASA)
- ddisgrifio effeithiau'r newidiadau hyn ar arferion y darparwr.

58 Mae'r Adroddiad Newidiadau'n defnyddio'r adolygiad blaenorol fel man cychwyn i grynhoi'r newidiadau y mae'r darparwr wedi'u gwneud yn y ffordd mae'n bodloni gofynion sylfaenol a phwyntiau cyfeirio allanol eraill, yn arbennig mewn perthynas â'r ESG. Dylid darparu tystiolaeth i ddangos sut mae newidiadau'n gweithio wrth gael eu gweithredu. Er enghraifft, os bydd darparwr wedi newid y ffordd mae'n gwneud adolygiadau cyfnodol o raglenni, byddai'n amlinellu'r newid a'i sail resymegol, ac yn myfyrio ar effeithiolrwydd y newid. Lle mae Disgwyliad y Cod Ansawdd wedi'i ddiwygio, byddai'n dangos sut y mae'n ymateb i'r Disgwyliad diwygiedig. Mae'n debyg y byddai'r datganiadau sicrwydd gan gyrff llywodraethu'n ffurfio rhan o'r sail tystiolaeth sy'n cefnogi'r Adroddiad Newidiadau, ynghyd â dogfennau sy'n bodoli'n barod ar wneud penderfyniadau ac adroddiadau sy'n berthnasol i'r newid.

59 Dylai Adroddiadau Newidiadau fod yn hunanwerthusol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Dylai'r Adroddiadau Newidiadau gynnwys adran sy'n mapio polisiau ac arferion y darparwr ar sail tystiolaeth yn erbyn gofynion sylfaenol newydd neu ddiwygiedig. Os bydd raid, efallai y bydd timau adolygu'n gofyn i'r darparwr am wybodaeth ychwanegol er mwyn hysbysu beirniadaethau.

60 Mae'r tîm adolygu'n defnyddio'r Adroddiad Newidiadau drwy gydol y broses adolygu fel man cychwyn i ddeall sut mae'r darparwr yn ymateb i'r ESG a'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol. Bydd y tîm adolygu'n craffu ar yr Adroddiad Newidiadau i gadarnhau bod arferion y darparwr yn parhau'n gadarn a bydd yn codi unrhyw bwyntiau sydd angen eglurhad am y newidiadau yn ystod yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm.

61 Yng Nghymru, mae gofyn i ddarparwyr newydd neu lai sefydledig ddarparu hunanasesiad manylach yn erbyn yr ESG a'r gofynion sylfaenol. Rydym ni'n diffinio darparwyr newydd neu lai sefydledig fel y rheiny sydd wedi cael llai na dau adolygiad ASA llwyddiannus blaenorol, neu adolygiadau cyfatebol yn erbyn y Cod Ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn yn Atodiad 9.

62 Dim ond lle nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod safonau academiaidd dan risg neu fod ansawdd academiaidd yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol, y bydd gofyn iddynt wneud hynny. Gallai'r ffynonellau tystiolaeth sy'n awgrymu bod safonau neu ansawdd dan risg ddod gan CCAUC neu godi o brosesau adolygu eraill. Mae risg yn y cyd-destun yma'n cynnwys y risgiau sy'n codi oherwydd newidiadau arwyddocaol (megis uno, ehangu sylweddol neu newidiadau strategol mawr eraill) ac nid yw o anghenraid yn awgrymu nac yn arwyddo bob problem.

## **Y Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw**

63 Mae'r darparwr yn cyflwyno Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw sy'n darparu'r dystiolaeth gefnogol ar gyfer y Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau, 12 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu. Mae hwn yn caniatáu i'r tîm adolygu gael gafael yn uniongyrchol ar wybodaeth am brosesau allweddol y darparwr i sicrhau ansawdd a safonau academiaidd ar gam cynnar yr adolygiad. Mae'n galluogi'r tîm adolygu i weld sut mae prosesau allweddol y darparwr yn gweithio'n ymarferol ac yn cefnogi gallu'r tîm i ffurfio'r beirniadaethau trothwy.

O dderbyn yr wybodaeth hon ar gam cynnar mae mwy o amser yn ystod yr Ymweliadau Adolygu ar gyfer trafodaethau sy'n ymwneud â gwella ansawdd.

64 Mae'n rhaid i'r Dadansoddiad Hunanwerthuso terfynol a'r Adroddiad Newidiadau bennu tystiolaeth i esbonio neu i gefnogi'r disgrifiad naratif - nid cyfrifoldeb y tîm adolygu yw hi i chwilio am y dystiolaeth hon. Byddwch yn ddetholgar os gwelwch yn dda a chynnwys tystiolaeth sy'n amlwg berthnasol yn unig.

65 Bydd union gyfres yr wybodaeth sydd i gael ei chynnwys yn y Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw yn adlewyrchu cynnwys y Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau. Gan alinio'r wybodaeth yn briodol gyda sylwadau yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso a/neu'r Adroddiad Newidiadau, bydd y Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw'n darparu dogfennau sy'n bodoli'n barod i'r tîm adolygu, sy'n cynnwys:

- dogfen sy'n mapio polisïau ac arferion y darparwr yn erbyn yr ESG
- cenhadaeth a chynllun strategol y darparwr
- datganiadau sicrwydd blynyddol CCAUC ar gyfer y cyfnod ers yr adolygiad blaenorol<sup>13</sup>
- enghreifftiau o drefnau sicrhau ansawdd ar waith, gan gynnwys adroddiadau cymeradwyo rhaglenni, adroddiadau monitro blynyddol ac adroddiadau adolygu rhaglenni cyfnodol o'r 12 mis blaenorol
- ystyriaeth ar lefel y sefydliad o adroddiadau gan yr arholwyr allanol
- ystyriaeth ar lefel y sefydliad o adborth gan y myfyrwyr a'u barn
- strategaethau allweddol eraill sy'n ymwneud â phrofiad dysgu'r myfyrwyr, a diweddariadau am gynnydd y strategaethau
- gwybodaeth am berthynas y darparwr gyda'i gorff myfyrwyr, megis siarteri myfyrwyr, cytundebau cydberthynas/partneriaeth, a datganiadau myfyrwyr blynyddol (lle maent ar gael)
- dogfennau sy'n dangos sut mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr sy'n anodd eu cyrraedd
- cytundebau gyda chyrrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu, lle bo'n berthnasol
- polisïau, gweithdrefnau a chyfarwyddyd ar sicrhau a gwella ansawdd (gallai hwn fod yn rheoliadau neu lawlyfr academaidd, neu'n god ymarfer)
- diagram yn dangos trefn y strwythur cydgyngorol a'r strwythur rheoli i ddangos sut mae cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd a safonau'n cael eu trefnu - dylai hwn ddangos cyrrff canolog a lleol (hynny yw, ar lefel ysgol/cyfadran neu debyg)
- diweddariad i'r ddarpariaeth gydweithredol, gan gynnwys cofrestr gyfredol o ddarpariaeth gydweithredol
- rhestr o raglenni a achredir gan gorff PSRB, y corff PSRB perthnasol, dyddiad yr ymweliad diwethaf, a'r statws achredu
- rhestr o'r Safonau Iaith Gymraeg sy'n berthnasol i'r darparwr.

66 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r eitemau sy'n ofynnol erbyn 12 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu.

---

<sup>13</sup> Bydd ASA yn canfod pa ddogfennau CCAUC y gallai gael drwy gytundeb rhannu gwybodaeth ar ôl y flwyddyn ddatblygiadol.

<b>I ddarparwyr sydd â hanes priodol o adolygiadau</b>	Adroddiad Newidiadau fel y mae wedi'i ddisgrifio ym mharagraffau 57 i 62
<b>I ddarparwyr sydd heb hanes priodol o adolygiadau</b>	Dogfen sy'n mapio polisïau ac arferion y darparwr yn llawn yn erbyn Rhan 1 yr ESG a'r gofynion sylfaenol yng Nghymru, fel sydd wedi'i disgrifio ym mharagraffau 58 a 61 (gwelwch hefyd Atodiad 9)
<b>I'r ddau fath o ddarparwr</b>	<p>Dadansoddiad Hunanwerthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sy'n rhoi sylwadau gwerthusol am y meysydd y dylai'r adolygiad ganolbwyntio arnynt, y cytunwyd arnynt rhwng ASA a'r darparwr</li> <li>• sy'n amlinellu dulliau a chynlluniau'r darparwr ar gyfer gwelliant</li> </ul> <p>Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw - tystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad Newidiadau a'r Dadansoddiad Hunanwerthuso</p> <p>Cyfraniad y myfyrwyr</p>

## Gofyn am ddogfennau ychwanegol

67 Efallai y bydd y tîm adolygu angen dogfennaeth ychwanegol yn ystod yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm neu'r Ymweliad Adolygu. Bydd natur hwn yn dibynnu i ryw raddau ar yr wybodaeth gyd-destunol a ddarperir gan y darparwr, ac ar archwiliadau'r tîm, ond dylai fod yn benodol ac yn rhesymol.

## Adran 4: Y dull o wneud Adolygiad Gwella Ansawdd

### Adran 4a: Y cyfranogwyr allweddol

#### Rôl y myfyrwyr

68 Mae'r myfyrwyr ymysg y prif rai sy'n elwa o Adolygiad GA ac maent yn ganolog i'r broses adolygu. Mae'r adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn aelodau llawn a chyfartal o'r timau adolygu. Bydd rôl allweddol gan gorff cynrychiolwyr y myfyrwyr drwy gefnogi'r myfyrwyr i gymryd rhan yn yr adolygiad ac fe'u gwahoddir i enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

69 Gallai'r myfyrwyr gyfrannu i'r broses hefyd drwy:

- gwrdd â Swyddogion ASA yn ystod y Cyfarfod Paratoadol
- enwebu Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, sy'n cyfranogi drwy gydol y broses
- baratoi cyfraniad y myfyrwyr i'r adolygiad
- gyfrannu eu barn yn uniongyrchol
- gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn ystod yr Ymweliad Adolygu
- helpu i ddatblygu a gweithredu'r cynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad.

#### Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

70 Dangosodd Adolygiad Addysg Uwch (Cymru) bod rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn ychwanegiad gwerthfawr i'r broses adolygu allanol. Mae Adolygiad GA yn annog myfyrwyr i enwebu Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr lle bo'n bosibl; dylai corff cynrychiolwyr y myfyrwyr enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Mae'n bosibl rhannu rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr rhwng dau gynrychiolydd myfyrwyr ac i ddarparwyr roi gwybod i'r Swyddog ASA os mai dyma sy'n digwydd. Mae rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn wirfoddol.

71 Rydym yn cydnabod nad yw hi'n bosibl efallai i gadw'r un Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr drwy gydol y broses adolygu gyfan. Gofynnwn fod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r darparwr yn cydweithio i sicrhau fod unrhyw drosglwyddiad rhwng cynrychiolwyr y myfyrwyr yn digwydd mor fuan yn y broses ag sy'n bosibl a bod y Swyddog ASA yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Lle mae staff undebau myfyrwyr yn cyfranogi yn y broses adolygu er mwyn cefnogi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, gallent sicrhau parhad y gweithredu, a'i drosglwyddiad, i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr newydd.

72 Fel arfer, bydd y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn:

- cysylltu gyda'r Hwylusydd i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr
- dosbarthu gwybodaeth i'r corff myfyrwyr am yr adolygiad
- trefnu neu oruchwylio'r dasg o ysgrifennu unrhyw gyflwyniad neu gyfraniad y myfyrwyr
- helpu i ddethol myfyrwyr i gwrdd â'r tîm adolygu
- cyfarfod â'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliadau
- sicrhau parhad y gweithredu drwy gydol y broses adolygu
- cydlynu sylwadau gan y corff myfyrwyr am adroddiad drafft yr adolygiad
- gweithio gyda'r darparwr i ddatblygu cynllun gweithredu o ganlyniad i'r adolygiad a'i ganfyddiadau.

73 Os nad yw'n bosibl i fyfyrwyr bennu Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, neu os yw'r Prif Gynrychiolydd yn absennol, mae ASA yn disgwyl cyfarfod myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr ar bob cam allweddol o'r broses adolygu.

74 Mae ASA yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn ystod y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr a'r Cyfarfod Paratoadol cyn yr adolygiad, a fydd yn cynnwys cyngor am y broses adolygu a'r cyd-destun cenedlaethol y mae'r broses yn gweithredu oddi mewn iddo. Hefyd, mae ASA yn disgwyl i'r darparwyr addysg uwch gefnogi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr drwy ei helpu i ddeall pwysigrwydd ei rôl a'r ffordd y mae cyfraniad y myfyrwyr yn ychwanegu gwerth at y broses adolygu. Byddwn yn disgwyl i'r darparwyr addysg uwch gefnogi gwaith y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr gyda chymorth gweinyddol a logistaidd, fel y bo'n briodol. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y myfyrwyr ar gael yn Atodiad 5.

## **Yr Hwylusydd**

75 Gwahoddir darparwyr i enwebu un aelod o'u staff i hwyluso'r gwaith adolygu drwy gysylltu'n agos â'r Swyddog ASA i sicrhau bod y broses adolygu'n drefnus ac yn rhedeg yn esmwyth, ac i weithio'n agos ac yn gefnogol gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Yn ystod Ymweliadau Adolygu, disgwylir i'r Hwylusydd:

- roi cyngor a chyfarwyddyd i'r tîm adolygu am strwythurau, polisiau, blaenoriaethau a threfnau'r darparwr
- gwrdd â'r Swyddog ASA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac efallai hefyd aelodau'r tîm adolygu, y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol i ddarparu neu geisio rhagor o eglurhad am faterion neu gwestiynau penodol
- helpu i gyfeirio'r adolygwyr at wybodaeth neu ganfod yr wybodaeth y maent yn chwilio amdani er mwyn helpu i wneud y broses mor effeithiol o ran amser ag sy'n bosibl.

76 Mae'r Hwylusydd yn helpu i ddarparu rhyngweithio adeiladol rhwng holl gyfranogwyr y broses adolygu. Mae hyn yn hybu perthynas waith effeithiol ac yn helpu i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ar y naill ochr a'r llall, ac unrhyw wastraffu amser ac ymdrech, drwy gyfeirio'r adolygwyr at wybodaeth neu drwy gael gafael ar wybodaeth mor gyflym ag sy'n bosibl. Mae ASA yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r Hwyluswyr yn ystod y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr a'r Cyfarfod Paratoadol cyn yr adolygiad. Mae gwybodaeth fanylach i'w chael am rôl yr Hwylusydd yn Atodiad 4.

## **Adolygiadau o ddarparwyr heb bwerau dyfarnu graddau**

77 Efallai y bydd darparwyr heb bwerau dyfarnu graddau sy'n cael eu hadolygu yn eu rhinwedd eu hunain eisiau i'w cyrff dyfarnu neu sefydliadau dyfarnu eraill gyfranogi yn y broses adolygu. Er enghraifft, efallai y byddent yn helpu i baratoi dogfennau mapio neu'r Dadansoddiad Hunanwerthuso, neu'n helpu'r Hwylusydd neu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, neu'n mynd i Ymweliadau Adolygu. Dylid penderfynu ar faint o gyfranogi y mae partneriaid dyfarnu yn ei wneud mewn trafodaethau gyda'r tîm adolygu. Lle nad oes gan ddarparwr bwerau dyfarnu graddau, bydd Adolygiad GA yn canolbwyntio ar y cyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo i'r darparwr dan sylw o dan ei drefniadau gyda'r partneriaid dyfarnu, ac ar y ffordd y mae'r darparwr yn rheoli ei berthynas gyda chyrff dyfarnu.

78 Mae'n bleser gan dimau adolygu gyfarfod cynrychiolwyr partneriaid dyfarnu yn ystod Ymweliadau Adolygu. Yn achlysurol, efallai y bydd timau adolygu'n eu hannog i fynd i gyfarfodydd penodol, os byddent yn teimlo y byddai hynny'n debygol o'u helpu i ddeall cyfrifoldebau'r darparwr. Mae mynychu fel hyn yn opsiynol, am fod y broses adolygu'n canolbwyntio ar gyfrifoldebau'r darparwr sy'n cael ei adolygu.

79 Cyfrifoldeb y darparwyr sy'n cael adolygiad yw rhoi gwybod i'w partneriaid dyfarnu am gynnydd a gwneud unrhyw geisiadau am gefnogaeth. Yr unig ohebiaeth y bydd ASA yn ei chopio i bartneriaid dyfarnu yw honno sy'n gysylltiedig â'r adroddiadau drafft a'r adroddiadau terfynol.

80 Mewn adolygiadau, mae'r ASA yn defnyddio gwybodaeth o unrhyw un o'i phrosesau adolygu, a gwybodaeth arall sydd ar gael o wneud ei hadolygiadau. Gallai canlyniad adolygiad un partner mewn partneriaeth fod yn rhan o'r sail gwybodaeth ar gyfer adolygu'r partner arall. Er enghraifft, os gwelir unrhyw arferion da mewn Adolygiad GA a wneir mewn coleg sy'n darparu addysg uwch mewn addysg bellach, gall tîm adolygu, trwy weithio mewn partneriaeth gyda phrifysgol, edrych i weld sut mae'r sefydliad addysg uwch wedi ceisio dysgu o'r arferion da.

### **Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill**

81 Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar bob darparwr a reoleiddir i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth sy'n cael ei darparu yn ei enw. Mae *Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill* y Cod Ansawdd yn berthnasol i unrhyw fath o gydweithrediad rhwng darparwyr addysg uwch.<sup>14</sup>

82 Mae Adolygiad GA yn ystyried pob darpariaeth mewn un broses unigol. Gallai hyn gynnwys trefn lle mae timau adolygu'n cwrdd, yn bersonol, neu drwy fideo neu delegynhadledd, â staff a myfyrwyr o bartneriaid, sefydliadau darparu neu ddarparwyr cymorth, i archwilio a yw'r holl ddarpariaeth yn bodloni'r ESG a'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, a sut y mae'n gwneud hynny. Gallai hyn gynnwys partneriaid sydd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau eraill ASA, am fod y gofynion sylfaenol yng Nghymru'n wahanol i'r rheiny a ddefnyddir ym mhrosesau adolygu eraill ASA.

83 Lle mae partner yn cael ei adolygu gan ASA yn ei rinwedd ei hun hefyd, bydd Adolygiad GA yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau'r darparwr sy'n cael ei adolygu.

### **Gweinyddu'r broses**

84 Mae ASA yn penodi Swyddog i gydlynu a rheoli pob adolygiad. Mae'r Swyddog yn gyfrifol am sefydlu perthynas waith agos ac adeiladol gyda darparwyr.

85 Bydd y Swyddog ASA yn bresennol drwy gydol ymweliadau Adolygiad GA, ond ni fydd yn cyfarwyddo ystyriaethau'r tîm, nac yn dylanwadu ar ei gasgliadau a'i ganfyddiadau. Prif rôl y Swyddog ASA yw sicrhau bod y broses adolygu'n cael ei gweithredu yn ôl y llawlyfr dull yma. Dyma ei rolau eraill:

- hwyluso cyfathrebu rhwng yr Hwylusydd, y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r tîm adolygu
- rheoli trefniadau logistaidd
- cadeirio cyfarfodydd y tîm adolygu
- golygu'r adroddiad adolygu a chydlynu ei gynhyrchiad
- cysylltu gyda'r darparwr mewn perthynas ag unrhyw gamau dilyniant (gwelwch Atodiad 12).

### **Y ddarpariaeth iaith Gymraeg**

86 Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am adolygiadau yng Nghymru, mae ASA wedi'i hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac i roi ystyriaeth i ofynion a disgwyliadau'r Safonau Iaith Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch Atodiad 3.

### **Adran 4b: Proses y dull**

87 Mae cysylltiad cyntaf y darparwr gydag ASA ynghylch ei adolygiad yn digwydd 18 mis fel arfer cyn dechrau'r Ymweliad Adolygu. Bydd ASA yn gofyn i'r darparwr am wybodaeth i'w helpu i amserlennu'r adolygiad, gan gynnwys dyddiadau'r flwyddyn academaidd, dyddiadau cyfnodau arholiadau mawr, a'i gofrestr o drefniadau cydweithredol (os oes rhai). Bydd hyn yn galluogi ASA i ysgrifennu'n ôl a chadarnhau'r dyddiadau a'r amserlen ar gyfer y gweithgareddau adolygu.

---

<sup>14</sup> Y Cod Ansawdd, *Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill*, sydd ar gael ar: [www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code/quality-code-part-b](http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code/quality-code-part-b).

88 Mae Adolygiad GA yn cynnwys nifer o elfennau sy'n perthyn i'w gilydd:

- Digwyddiad Briffio i'r Darparwr
- Cyfarfod Paratoadol, a phennu themâu cynnar ar gyfer yr adolygiad
- paratoi'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau
- cynhyrchu'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw
- Ymweliad Cyntaf gan y Tîm
- Ymweliad Adolygu
- cyhoeddi adroddiadau.

89 Yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd a'r Ymweliadau, mae'r Swyddog ASA ar gael i gynnig cyngor a chyfarwyddyd os gofynnir amdanynt.

### **Y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr**

90 Bydd y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr yn digwydd blwyddyn cyn yr Ymweliad Adolygu, ac mae'n galluogi ASA i roi trosolwg lefel uchel o'r dull. Bydd y Digwyddiad Briffio ar ffurf gweminar sy'n deillio o un o swyddfeydd ASA. Gall cynrychiolwyr deithio i un o swyddfeydd ASA, os ydynt yn dewis hynny.

91 Yn bennaf, mae'n galluogi'r darparwr i archwilio ar y cyd gydag ASA sut y byddai'n rhoi'r adolygiad yn ei gyd-destun ac yn teilwra'r adolygiad. Bydd angen i sefydliadau fod wedi trafod y gofynion o ran teilwra gyda'u cyrff llywodraethu cyn y cyfarfod yma. Gwelwch Adran 3 ynglŷn â rhoi'r adolygiad yn ei gyd-destun.

92 Y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr yw'r cyfle cyntaf hefyd i'r Swyddog ASA gwrdd â'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Bydd ASA yn gwahodd y darparwr i ddweud ar y cam yma a ydynt eisiau i unrhyw elfennau o'r adolygiad gael eu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Y Cyfarfod Paratoadol**

93 Fel arfer, bydd y Cyfarfod Paratoadol yn digwydd chwe mis cyn yr Ymweliad Adolygu, ac mae'n galluogi ASA i drafod y dull adolygu a'r gofynion logistaidd cysylltiedig yn fanwl gyda'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, a gyda gweinyddwyr sy'n eu cefnogi yn eu rolau. Bydd y Swyddog ASA yn mynychu'r cyfarfod, a fydd yn cael ei gynnal ar safle'r darparwr, i egluro ei gwmpas, ateb cwestiynau am y fethodoleg, a chadarnhau pa wybodaeth y mae angen sicrhau ei bod ar gael.

94 Bydd y cyfarfod yn ymdrin â'r gwaith o baratoi'r Dadansoddiad Hunanwerthuso, y dylid ei gefnogi gyda thystiolaeth ddogfennol sy'n bodoli'n barod ar gyfer rheoli ansawdd yn fewnol, yn hytrach na deunydd a baratowyd yn benodol ar gyfer yr adolygiad. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r tîm adolygu ddeall systemau'r darparwr a chasglu gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol. Mae rhagor o fanylion am y Dadansoddiad Hunanwerthuso i'w gweld isod ac yn Atodiad 6.

95 Bydd y cyfarfod yn cynnwys trafodaeth gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr ynglŷn â sut y maent yn bwriadu cyfrannu at yr adolygiad. Dylai cyflwyniad y myfyrwyr, os ydynt eisiau rhoi un, ddisgrifio'r profiad o fod yn fyfyrwr gyda'r darparwr sy'n cael ei adolygu, a sut mae myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosesau sicrhau ansawdd a gwneud penderfyniadau'r darparwr. Rydym yn annog y myfyrwyr sy'n cyfrannu at yr adolygiad i ddefnyddio cyfresi data cenedlaethol perthnasol, megis y rheiny sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan Unistats, a data eraill sydd ar gael gan y darparwr.<sup>15</sup>

---

<sup>15</sup> Gwefan Unistats: [www.unistats.com](http://www.unistats.com).

96 Ar ôl y Cyfarfod Paratoadol, bydd gan y darparwr 14 wythnos ar y mwyaf i lwytho ei Ddadansoddiad Hunanwerthuso, ei Adroddiad Newidiadau, Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw a chyfraniad y myfyrwyr i ffolder electronig ddiogel ASA. Bydd ASA yn esbonio sut i wneud hyn yn ystod y Cyfarfod Paratoadol.

## **Y dogfennau sydd i'w rhannu gydag ASA**

97 Yn gyntaf, bydd y darparwr yn dechrau rhannu ei sail dogfennau a thystiolaeth ar gyfer yr adolygiad 12 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu. Bydd y darparwr yn llwytho'r Dadansoddiad Hunanwerthuso, yr Adroddiad Newidiadau a'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw i wefan electronig ddiogel ASA, ynghyd â chyfraniad y myfyrwyr i'r adolygiad. Mae hyn yn galluogi adolygwyr i gychwyn eu gwaith o ddadansoddi a pharatoi ar gyfer yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm.

## **Yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm**

98 Bydd yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm yn cynnwys y tîm adolygu cyfan, a bydd y Swyddog ASA yn ymweld â safle'r darparwr am ddiwrnod i gwrdd â grwpiau y cytunwyd arnynt o'r staff a chynrychiolwyr y myfyrwyr. Fel arfer, bydd y tîm adolygu'n cyrraedd ei lety ar y diwrnod cyn i'r adolygiad gychwyn. Felly, bydd yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm yn cychwyn ben bore ar y diwrnod.

99 Prif ffocws yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm fydd archwilio cwmpas yr adolygiad, yn benodol i ganfod a yw'r adolygwyr yn teimlo bod raid ystyried unrhyw faterion nad oedd y darparwr wedi'u cynnwys yn ei Ddadansoddiad Hunanwerthuso cyd-destunol neu yn y Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r tîm ganfod unrhyw ddogfennaeth ychwanegol sydd ei hangen, a llunio rhaglen ar gyfer yr Ymweliad Adolygu.

100 Bydd yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm yn digwydd bedair wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu ac mae'n debygol y bydd hwn yn cynnwys tri chyfarfod gyda chydweithwyr o sefydliad y darparwr. Bydd cyfarfod gwaith gyda phrif gyswllt y darparwr, a Hwylusydd y darparwr fydd hwnnw/honno mae'n debyg. Bydd y tîm adolygu'n cwrdd â grŵp o gynrychiolwyr y myfyrwyr, sy'n debygol o gynnwys y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Un o nodau allweddol y cyfarfod yma fydd canfod barn y myfyrwyr am y pwyntiau canolog ar gyfer y prif Ymweliad Adolygu. Bydd cyfarfod pellach gyda grŵp o'r staff sy'n cyfranogi ar lefel y ddisgyblaeth.

101 Yn gyffredinol, nid ydym yn disgwyl i'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn bresennol yng nghyfarfodydd preifat y tîm, ond rydym yn disgwyl i'r tîm gadw cysylltiad rheolaidd â nhw yn ystod yr Ymweliad Adolygu. Gall yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr hefyd awgrymu cyfarfodydd anffurfiol i dynnu sylw'r tîm at wybodaeth y mae efallai wedi'i cholli. Mae ASA yn disgwyl gweld cydberthynas gynhyrchiol, gan helpu'r tîm adolygu i gael gafael yn gyflym ar yr wybodaeth fydd yn ei alluogi i gael canfyddiadau cadarn a chlir.

## **Yr Ymweliad Adolygu**

### **Cadarnhau amserlen yr Ymweliad Adolygu**

102 Heb fod yn hwyrach na dau ddiwrnod gwaith ar ôl yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm, bydd y Swyddog ASA yn rhoi amserlen yr Ymweliad Adolygu i'r darparwr, ynghyd â nodyn am y themâu sydd i gael eu harchwilio yn ystod y prif Ymweliad Adolygu, a rhestr o unrhyw ddogfennaeth bellach yr hoffai'r tîm ei gweld. Byddwn yn gofyn i'r Hwylusydd drefnu cyfarfodydd gyda'r rheiny y mae'r tîm adolygu eisiau eu cyfarfod. Bydd y Swyddog ASA yn cysylltu gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau y bydd y grwpiau myfyrwyr y mae'r tîm eisiau eu cyfarfod ar gael.

### **Yr Ymweliad Adolygu**

103 Bydd y tîm adolygu'n cyrraedd ei lety ar y noson cyn y bydd yr adolygiad yn cychwyn fel arfer. Felly, bydd eu gwaith yn cychwyn ben bore ar ddiwrnod cyntaf yr adolygiad.

104 Bydd y prif Ymweliad Adolygu'n para rhwng tri a phum niwrnod, yn dibynnu ar y themâu sy'n dod i'r amlwg o'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Ymweliad Cyntaf gan y Tîm. Yn ystod yr Ymweliad Adolygu, bydd y tîm adolygu'n ystyried amrediad o ddogfennau'r darparwr ac yn cynnal cyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr a/neu gynrychiolwyr y corff myfyrwyr amrywiol, gan gynnwys ystyried barn myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr Ymweliad Adolygu'n ymdrin â'r materion sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth gyd-destunol, a bydd yr amrediad o gyfarfodydd yn dibynnu ar flaenoriaethau strategol y darparwr a'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn yr adolygiad; felly, ni fydd yr Ymweliad Adolygu yr un fath ar gyfer pob adolygiad.

105 Yn debyg i ddulliau adolygu blaenorol, bydd y tîm adolygu'n cadw cysylltiad rheolaidd â'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn ystod pob diwrnod o'r ymweliad i'w galluogi i egluro tystiolaeth a themâu neu i roi gwybodaeth. Gall yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr awgrymu cyfarfodydd anffurfiol hefyd os byddent eisiau tynnu sylw'r tîm at wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol.

106 Bydd o leiaf dau aelod o'r tîm adolygu'n gwneud gweithgareddau ar safle'r darparwr, ond rhagwelir y bydd y mwyafrif o'r gweithgareddau'n cynnwys y tîm cyfan. Pan fydd y tîm yn gwahanu ar gyfer gweithgaredd bydd amser i drafod wedyn fel bod holl aelodau'r tîm yn cytuno ar yr hyn a ganfuwyd.

107 Bydd yr amserlen yn cynnwys cyfarfod terfynol rhwng y tîm a staff uwch y darparwr, yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Bydd yn gyfle i'r tîm grynhoi'r prif themâu a materion y mae wedi bod yn ymdrin â nhw (ac efallai'n dal i wneud hynny). Y bwriad fydd rhoi cyfle terfynol i'r darparwr gynnig eglurhad a/neu gyflwyno tystiolaeth a fydd yn helpu'r tîm i ffurfio ei feirniadaethau a'i ganfyddiadau.

108 Mae ASA yn disgwyl i'r adolygwyr lunio nodiadau strwythuredig gan ddefnyddio templed ar gyfer yr Adroddiad Technegol wrth i'r prif Ymweliad Adolygu fynd yn ei flaen. Bydd yr adolygwyr yn rhannu'r nodiadau hyn gyda'r Swyddog ASA ar ddiwedd yr ymweliad er mwyn tanategu trafodaethau ar y diwrnod olaf.

109 Ar ddiwrnod olaf yr ymweliad adolygu, bydd y tîm adolygu'n cwrdd â'r Swyddog ASA er mwyn cytuno:

- ar y beirniadaethau
- ar amlinelliad y sylwadau am bob adran o'r adroddiad
- ar y gweithgaredd sy'n haeddu canmoliaeth
- ar argymhellion i'w gweithredu gan y darparwr
- i gadarnhau'r dulliau gweithredu y mae'r darparwr wedi'u pennu.

Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 2 am y meini prawf a ddefnyddir gan y timau i wneud beirniadaethau.

110 Ar ddiwedd y diwrnod olaf, bydd y Swyddog ASA yn rhoi adborth nad yw'n rwymedigol i'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, a hynny ar lafar.

111 Wythnos ar ôl yr ymweliad, bydd y Swyddog ASA yn darparu fersiwn drafft cynnar o'r Adroddiad Canlyniadau.

112 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg cryno o'r broses adolygu a'r amseriadau ar gyfer Adolygiad GA, gan gynnwys darparu adroddiadau.

Amseriad	Gweithgareddau	Sylwadau
18 mis fel arfer cyn cychwyn yr adolygiad	<p>ASA yn gofyn i'r darparwr am ei ddewis ddyddiadau ar gyfer yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm a'r Ymweliad Adolygu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y darparwr yn cwblhau pro fforma am drefniadau cydweithredol</li> <li>• ASA yn cadarnhau dyddiadau'r Cyfarfod Paratoadol, llwytho'r dogfennau, yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm a'r Ymweliad Adolygu</li> <li>• ASA yn dewis y Swyddog ASA</li> </ul>	
Oddeutu 12 mis cyn yr ymweliad: Digwyddiad Briffio i'r Darparwr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Brîff cychwynnol i'r darparwr a'r adolygwyr</li> <li>• Y darparwr yn enwebu ei Hwylusydd a'i Brif Gynrychiolydd Myfyrwyr</li> </ul>	Gallai'r Briffiau i'r Darparwr gyfuno nifer o ddarparwyr mewn un cyfarfod neu weminar
Oddeutu 36 wythnos cyn cychwyn yr adolygiad	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ASA yn cadarnhau aelodau'r tîm adolygu</li> <li>• ASA yn cadarnhau dyddiad y Cyfarfod Paratoadol i'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr</li> </ul>	Bydd ASA yn gofyn i'r darparwr bennu unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â darpar aelodau'r tîm cyn cadarnhau'r tîm
Oddeutu 26 wythnos cyn cychwyn yr adolygiad: Cyfarfod Paratoadol	<p>Cyfarfod ar gyfer y Swyddog ASA, yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr</p> <p>Y Swyddog ASA yn trafod themâu eang gyda'r darparwr, gan gynnwys cyfranogaeth y myfyrwyr a barn ASA am gyfansoddiad a maint y tîm adolygu</p> <p>Y darparwr yn adrodd am unrhyw newidiadau mawr i drefniadau cydweithredol</p>	<p>Darparu brîff manwl am y dull a'r ymweliad</p> <p>Gallai themâu cynnar ar gyfer yr adolygiad ddod o:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ganlyniadau'r adolygiadau blaenorol</li> <li>• strategaeth y sefydliad (e.e., newidiadau arwyddocaol ym mhoblogaeth y myfyrwyr neu'r dull o ddarparu)</li> <li>• ddadansoddiad y sefydliad o'i ddata (gan gynnwys yr hyn y mae'n ei ddysgu gan yr AMC, y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu)</li> <li>• farn/llais y myfyrwyr, e.e. pynciau yn y cytundeb partneriaeth neu gyfatebol</li> </ul>
12 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu	<p>Y darparwr yn cyflwyno Dadansoddiad Hunanwerthuso cyd-destunol (ar sail y themâu cynnar a bennwyd ar gyfer yr adolygiad), yr Adroddiad Newidiadau a'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n ymdrin â chwmpas ehangach y dull adolygu</p> <p>Y myfyrwyr yn cyflwyno eu cyfraniad i'r adolygiad</p>	<p>Mae'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw yn cynnwys dogfen sy'n mapio yn erbyn yr ESG</p> <p>Mae'r Dadansoddiad Hunanwerthuso yn cynnwys rhesymwaith ar gyfer y meysydd i ganolbwyntio arnynt</p>

<p>9 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu a 5 wythnos cyn yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm</p>	<p>Y Swyddog ASA yn darparu amserlen ddrafft ar gyfer yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm sydd i gael ei chytuno gyda'r darparwr</p> <p>Y Swyddog ASA yn darparu rhestr o unrhyw ddogfennau pellach y gofynnwyd amdanynt gan y tîm adolygu</p>	
<p>6 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu a 2 wythnos cyn yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm: llwytho'r dogfennau</p>	<p>Y darparwr yn llwytho'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt gan y tîm adolygu i wefan electronig ddiogel ASA</p>	
<p>4 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu: Ymweliad Cyntaf gan y Tîm</p>	<p>Yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm - sef un diwrnod ar safle'r darparwr sy'n cynnwys cyfarfodydd gyda chyfres o gydweithwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr a ddewiswyd o flaen llaw</p>	<p>Pwrpas yr ymweliad yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried cwmpas yr adolygiad, ac yn benodol i benderfynu a yw'r adolygwyr yn teimlo bod angen archwilio unrhyw faterion nad yw'r darparwr wedi'u cynnwys yn y meysydd i ganolbwyntio arnynt y mae'r darparwr wedi'u pennu yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso neu'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw</li> </ul> <p>Mae'r cyfnod gwag rhwng yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm a'r Ymweliad Adolygu'n rhoi cyfle i'r darparwr gyflwyno gwybodaeth ychwanegol am y nifer fechan o bynciau y gallai'r tîm eu codi</p> <p>Dyma fydd canlyniadau'r ymweliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cytuno ar hyd yr Ymweliad Adolygu</li> <li>• llunio rhaglen ar gyfer yr ymweliad yma</li> <li>• nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffai'r tîm ei derbyn cyn yr Ymweliad Adolygu</li> </ul> <p>Bydd ASA yn rhoi canlyniadau'r ymweliad i'r darparwr o fewn 1-2 diwrnod gwaith ar ôl yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm yn hytrach nag ar ddiwedd yr Ymweliad ei hun</p>

2-3 wythnos cyn y prif Ymweliad Adolygu	Y darparwr yn cyflwyno unrhyw ddeunyddiau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt yn ystod yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm	
Yr Ymweliad Adolygu	Hyd at bum niwrnod ar safle'r darparwr	Bydd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r staff, y myfyrwyr, ac o bosib gyda phartneriaid dyfarnu, cyflogwyr, arholwyr allanol neu randdeiliaid sefydliadol allweddol eraill  Bydd cyfarfod adborth i rannu beirniadaethau dros dro'r tîm adolygu gyda'r darparwr cyn i'r tîm ymadael
1 wythnos ar ôl yr Ymweliad Adolygu	ASA yn hysbysu'r darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr am y beirniadaethau a'r canfyddiadau dros dro sydd yn yr Adroddiad Canlyniadau drafft	
4 wythnos ar ôl yr Ymweliad Adolygu	ASA yn anfon yr Adroddiad Canlyniadau a'r Adroddiad Technegol at y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i dderbyn sylwadau	
7 wythnos ar ôl yr Ymweliad Adolygu	Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol sydd yn yr adroddiad  ASA yn cwblhau'r adroddiad	
10 wythnos ar ôl yr Ymweliad Adolygu	ASA yn cyfieithu ac yn cyhoeddi'r adroddiad  ASA yn anfon gwybodaeth am ddefnyddio ei Marc Ansawdd at ddarparwyr cymwys	
18 wythnos ar ôl yr Ymweliad Adolygu	Y darparwr yn cyhoeddi cynllun gweithredu  Gall darparwyr gyhoeddi eu cynlluniau gweithredu'n gynharach nag 18 wythnos, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'i gorff myfyrwyr</li> <li>• Dylid cytuno gydag ASA ar gynlluniau gweithredu cyn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â beirniadaethau 'anfodddhaol'</li> </ul>

## Adran 5: Adolygiad Gwella Ansawdd: beirniadaethau a chanfyddiadau

113 Mae Adolygiad GA yn cynnwys portffolio o ganlyniadau i ddarparwyr unigol a'r sector addysg uwch cyfan yng Nghymru, fel a ganlyn.

- Beirniadaeth glir yn nodi a yw'r darparwr yn bodloni gofynion yr ESG, a'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.
- Datganiad clir ar ddull strategol y darparwr o wella profiad dysgu'r myfyrwyr.
- Cyfle i bob darparwr wneud gwerthusiad cyfannol o'i bolisiâu a'i arferion, ynghyd â chyfle i gael adolygiad o'r hunanwerthusiad hwnnw gan gymheiriaid, ac i dderbyn adborth sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth am ddulliau'r darparwr o sicrhau safonau academiaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.
- Sail gwybodaeth i adeiladu rhaglen o weithgareddau datblygu a gwella arni ar draws y sector addysg uwch.

114 Mae beirniadaethau'r adolygiad yn cael eu ffurfio ar sail y camau gweithredu canlynol gan y tîm adolygu:

- darllen ac ystyried Dadansoddiad Hunanwerthuso'r darparwr, y Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, cyfraniad y myfyrwyr, ac unrhyw ddeunyddiau cysylltiedig
- trafod pynciau gyda'r staff a'r myfyrwyr yn ystod yr Ymweliadau Adolygu
- dadansoddi, a myfyrio ar, y dogfennau a'r trafodaethau hynny.

115 Mae'r beirniadaethau wedi'u seilio ar gydbwysedd tebygolrwydd, wedi'i gefnogi gan y sampl o wybodaeth sydd ar gael i'r tîm adolygu ar amser yr adolygiad. Mae timau adolygu'n gwneud penderfyniadau yn unol â'r fframwaith sydd yn Atodiad 2.

116 Fel arfer, mae colegau â darpariaeth addysg uwch sy'n darparu rhaglenni mewn cydweithrediad â chyrrff dyfarnu a sefydliadau dyfarnu'n gyfrifol am osod safonau academiaidd yn unig, yn hytrach nag am osod a chynnal safonau academiaidd. Bydd ASA yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth roi beirniadaethau, a bydd felly'n asesu'r darparwr yn erbyn y gofynion perthnasol yn unig. Gall y Swyddog ASA nodi beth yw'r gofynion sy'n berthnasol yn ystod y Cyfarfod Paratoadol.

### Y beirniadaethau mewn Adolygiad Gwella Ansawdd

117 Yn null Adolygiad GA bydd y tîm adolygu'n rhoi dwy feirniadaeth ar wahân, i farnu a yw:

- gofynion Rhan 1 yr ESG ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol yn cael eu bodloni
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol y FfAAC yn cael eu bodloni.

118 Ar ôl blwyddyn ddatblygiadol y FfAAC yn 2017-18, bydd y CCAU yn ystyried a ddylent gyflwyno beirniadaeth am y gwelliant.

119 Bydd y beirniadaethau'n cael eu mynegi fel un o'r dilynol:

- yn bodloni'r gofynion
- yn bodloni'r gofynion gydag amodau
- ddim yn bodloni'r gofynion.

120 Os bydd darparwr yn derbyn y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', bydd rhaid i'r amodau sydd wedi'u hatodi wrth y feirniadaeth esbonio'r materion cysylltiedig.

121 Mae'r beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' a 'ddim yn bodloni'r gofynion' yn gofyn am gamau dilyniant i gwblhau'r adolygiad.

## Canlyniadau gwahaniaethol

122 Gall beirniadaethau'r adolygiad fod yn wahaniaethol. Mae hyn yn golygu y gallai gwahanol feirniadaethau fod yn berthnasol, er enghraifft, i ddarpariaeth a ddarperir yn gyfan gwbl gan y darparwr ac am honno a gynigir drwy drefniadau gyda sefydliadau darparu eraill; neu ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig, neu am ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gwahanol gyrff dyfarnu graddau neu sefydliadau dyfarnu eraill.

## Canfyddiadau

123 Bydd y tîm adolygu'n pennu nodweddion o arfer da drwy roi **canmoliaeth**. Cyflwynir pob canmoliaeth yn awtomatig i raglen astudiaethau achos ASA o arferion da (neu gynllun cyfatebol yn y dyfodol) i'w arddangos.

124 Bydd y tîm adolygu'n **cadarnhau** datblygiadau sydd ar waith yn barod.

125 Bydd timau adolygu'n gwneud **argymhellion** ar gyfer gweithredu. Mae argymhellion yn dangos pa mor gyflym y dylai'r darparwr ymdrin â'r mater ym marn y tîm. Gall natur yr argymhelliad effeithio ar y feirniadaeth, fel y mae wedi'i amlinellu yn Atodiad 2. Er enghraifft, efallai y bydd y tîm yn nodi bod angen i'r darparwr ymdrin ag argymhelliad o fewn tri mis, neu cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, neu cyn i unrhyw fyfyrwyr eraill gael eu cofrestru ar raglen, ac yn y blaen. Mae ASA yn disgwyl i ddarparwyr ystyried y dyddiadau cwblhau yma pan fyddent yn llunio eu cynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad (gwelwch baragraff 135).

126 Gallwch weld diffiniadau o'r canfyddiadau hyn yn Atodiad 1.

## Adran 6: Cynhyrchu adroddiadau

127 Ar ôl ystyried yr adborth gan ddarparwyr, bydd ASA yn ysgrifennu adroddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd llewg ac ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes sicrhau ansawdd. Bydd dau fath o adroddiad yn codi o'r Adolygiad GA: Adroddiad Canlyniadau ac Adroddiad Technegol. Bydd ASA yn cyhoeddi'r ddau adroddiad ar ei gwefan.

128 Mae'r Swyddog ASA yn sicrhau bod y tîm adolygu'n cefnogi ei feirniadaethau a'i ganfyddiadau gyda thystiolaeth ddigonol ac adnabyddadwy, a bod yr adroddiad adolygu'n darparu gwybodaeth mewn ffurf gryno a hawdd ei chyrraedd. Mae ASA yn cadw'r cyfrifoldeb golygyddol am destun terfynol yr adroddiad. Bydd ASA yn parhau i safoni adroddiadau i sicrhau bod timau adolygu'n gyson wrth weithredu'r arweiniad am ddatblygu beirniadaethau.

129 Bedair wythnos ar ôl yr Ymweliad Adolygu, bydd ASA yn rhannu'r ddau adroddiad drafft gyda'r darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Bydd ASA yn gofyn i'r ddwy ochr roi gwybod o fewn tair wythnos am unrhyw gamgymeriadau ffeithiol neu gamddehongli; ond ni ofynnir iddynt ymateb i gynnwys yr adroddiad neu'r sail tystiolaeth.

### Adroddiadau Canlyniadau

130 Yr Adroddiadau Canlyniadau yw'r prif adroddiadau yn null Adolygiad GA. Dylent fod yn gryno a dylent gael eu targedu at gynulleidfa lewg wybodus megis myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Maent yn rhoi crynodeb gweithredol o'r Adroddiad Technegol. Mae'r Adroddiadau Canlyniadau:

- yn nodi beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad
- yn cynnwys datganiad am dull y darparwr o wella profiad dysgu'r myfyrwyr
- yn rhoi gwybodaeth sy'n amlinellu natur y darparwr.

### Adroddiadau Technegol

131 Bydd Adroddiad Technegol yn nodi'r dystiolaeth sy'n tanategu'r Adroddiad Canlyniadau. Bydd y Swyddog ASA yn sicrhau bod yr holl ganfyddiadau wedi'u cefnogi gan dystiolaeth ddigonol. Ysgrifennir Adroddiadau Technegol yn bennaf i'r darparwyr sydd wedi cael eu hadolygu, ac efallai y byddent o ddiddordeb hefyd i gysylltiadau sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewn darparwyr eraill, ac i asiantaethau allweddol yn y sector.

132 Mae'r Adroddiadau Technegol:

- yn cael eu strwythuro o amgylch y prif feysydd i'w harchwilio o fewn yr Adolygiad GA
- yn datgan barn y tîm adolygu am bob maes, gan nodi'r brif dystiolaeth sy'n tanategu eu barn
- yn amlygu'r arferion da a'r meysydd lle gofynnir i'r darparwr weithredu
- yn nodi'r sail ar gyfer beirniadaethau'r adolygiad.

133 Mae Atodiad 7 yn rhestru'r penawdau sydd i dderbyn sylw mewn Adroddiadau Technegol. Bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau ar ôl derbyn y cywiriadau. Ar ôl tair wythnos arall, bydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan ASA.

### Darparu adroddiadau ehangach

134 Mae ASA yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ganmoliaeth a roddwyd mewn astudiaethau achos o arferion da ond nid yw hyn yn rhan ffurfiol o'r gwaith o gynhyrchu adroddiadau am yr adolygiad hwn. Bydd ASA yn gwneud dadansoddiadau thematig i dynnu gwybodaeth gyfarwyddiadol allan o gyfres o adolygiadau. Bydd hyn yn hysbysu sesiynau ar y thema gwelliant a gweithgareddau i'r sector addysg uwch cyfan yng Nghymru.

## Cynllunio camau gweithredu, llofnodi a chamau dilyniant

135 Tua wyth wythnos ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, mae'r darparwr yn cyhoeddi cynllun gweithredu, sydd wedi'i lofnodi gan bennaeth y darparwr, yn ymdrin ag argymhellion a chadarnhadau ASA, ac yn esbonio sut y bydd yn manteisio ar y canmoliaethau. Mae ASA yn disgwyl i ddarparwyr ddatblygu'r cynllun gweithredu ar y cyd gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei roi ar wefan gyhoeddus y darparwr, gyda dolenni at y dudalen am ei adroddiad ar wefan ASA. Rhaid i'r cynlluniau gweithredu sydd wedi'u datblygu mewn ymateb i'r beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'ddim yn bodloni'r gofynion' gael eu cytuno gydag ASA cyn eu cyflwyno.

136 Yn unol â'r dull seiliedig ar risg sydd yn y FfAAC, bydd natur y broses o gynllunio camau gweithredu, y llofnodi a'r camau dilyniant yn dibynnu ar y canlyniadau sydd wedi'u diffinio yn y tabl isod.

		<b>Y beirniadaethau sydd angen camau dilyniant</b>		
<b>Y beirniadaethau</b>	Y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion' ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth	Y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' mewn unrhyw faes	Y feirniadaeth 'ddim yn bodloni'r gofynion' mewn unrhyw faes	
<b>Y camau dilyniant</b>	<p>Y darparwr yn cyhoeddi cynllun gweithredu, yr adolygiad yn cael ei lofnodi i ddangos ei fod yn gyflawn.</p> <p>Y darparwr yn ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad mewn cydweithrediad â'r myfyrwyr, yn adrodd i'w gorff llywodraethu, yn diweddarau'r cynllun gweithredu bob blwyddyn nes bydd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, ac yn rhoi'r cynllun diweddaraf ar ei wefan.</p>	<p>Y darparwr yn atebol i 'Brosesau Ansawdd Annigonol cyn Ymyrryd' CCAUC<sup>16</sup></p> <p>Y darparwr yn cytuno ar gynllun gweithredu gydag ASA a gyda'i fyfyrwyr cyn ei gyhoeddi - bydd ASA yn ystyried drwy gamau dilyniant a weithredwyd y cynllun gweithredu o fewn 12 mis i gyhoeddi canlyniad yr adolygiad</p> <p>Os yw'r cynllun gweithredu wedi'i weithredu'n llwyddiannus, bydd ASA yn uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i hyn: 'yn bodloni'r gofynion' ac yn cyhoeddi diwygiad i'r adroddiad gwreiddiol sy'n rhoi manylion y camau dilyniant</p> <p>Os nad yw'r cynllun gweithredu wedi'i weithredu'n llwyddiannus, bydd ASA yn cefnogi'r feirniadaeth wreiddiol/beirniadaethau gwreiddiol ac yn cyhoeddi diwygiad i'r adroddiad gwreiddiol sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Yna bydd y darparwr yn atebol i 'Ddatganiad o Ymyriad' CCAUC<sup>17</sup></p> <p>Llofnodir yr adolygiad i ddangos ei fod yn gyflawn pan fydd y darparwr wedi cwblhau'r camau dilyniant beth bynnag fo'r canlyniad</p>		

<sup>16</sup> Prosesau Ansawdd Annigonol cyn Ymyrryd (Cylchlythyr CCAUC W16/05HE, Atodiad C), sydd ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars\\_2016/W16%2005HE%20Annex%20C%20Inadequate%20Quality%20Processes%20Prior%20to%20Intervention.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2016/W16%2005HE%20Annex%20C%20Inadequate%20Quality%20Processes%20Prior%20to%20Intervention.pdf) (PDF, 96KB).

<sup>17</sup> Datganiad o Ymyriad (CCAUC), sydd ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/working\\_with\\_he\\_providers/he\\_wales\\_act\\_2015/statement\\_of\\_intervention.cy.aspx](http://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/he_wales_act_2015/statement_of_intervention.cy.aspx).

<b>Y cyfnod o ysbaid cyn y daw'r adolygiad nesaf yn ofynnol</b> <sup>18</sup>	Gofyniad am adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach bob chwe blynedd o leiaf	Gofyniad am adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach o fewn pedair blynedd, hyd yn oed os yw'r feirniadaeth wedi cael ei huwchraddio drwy gamau dilyniant	Gofyniad am adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach o fewn dwy flynedd, hyd yn oed os yw'r feirniadaeth wedi cael ei huwchraddio drwy gamau dilyniant
---	---	---	--

Mae gwefan CCAUC yn rhoi gwybodaeth gefndir i'r tabl yma.<sup>19</sup>

137 Dim ond darparwyr sydd wedi derbyn y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth sy'n gymwys i ddefnyddio Marc Ansawdd ASA; mae hyn yn cynnwys darparwyr yr uwchraddiwyd eu beirniadaeth(au). Gallai'r darparwr roi'r Marc Ansawdd ar dudalen hafan ei wefan, ac ar ddogfennau eraill, fel datganiad cyhoeddus am ganlyniad ei adolygiad. Bydd ASA yn anfon copi cymeradwy o'r Marc Ansawdd, ynghyd â'r amodau a thelerau.

### Dilyniant llawn

138 Pan fydd tîm adolygu'n rhoi unrhyw feirniadaeth(au) 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'ddim yn bodloni'r gofynion', bydd rhaglen o gamau dilyniant i'w cymryd, yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a'r cynllun gweithredu. Pwrpas hwn yw ymdrin â'r meysydd sydd wedi derbyn y naill feirniadaeth neu'r llall. Gallwch weld siartiau llif yn Atodiad 11 sy'n crynhoi'r camau gweithredu yn dilyn yr adolygiad, a disgrifiad o'r broses yn Atodiad 12.

### Cwynion ac apeliadau

139 Mae gan ASA broses ar gyfer ystyried cwynion am ei gweithrediad a'i gwasanaethau ei hun. Mae ganddi hefyd broses ar gyfer ystyried apeliadau yn erbyn beirniadaethau. Gallwch weld manylion ar wefan ASA.<sup>20</sup>

<sup>18</sup> Gall cyrff llywodraethu gomisiynu adolygiadau'n amlach os dewisent.

<sup>19</sup> Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol (CCAUC), sydd ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/documents/policy\\_areas/learning\\_and\\_teaching/Adolygiad%20sicrwydd%20ansawdd%20allanol.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/Adolygiad%20sicrwydd%20ansawdd%20allanol.pdf) (PDF, 301KB).

<sup>20</sup> Mae gwybodaeth ynglŷn â sut i gwyno am ASA neu apelio ar gael ar: [www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/complaints-about-qa-and-appeals-against-decisions.aspx](http://www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/complaints-about-qa-and-appeals-against-decisions.aspx).

## Adran 7: Y tîm adolygu

### Dyrannu adolygwyr i dimau

140 Mae union aelodaeth y tîm adolygu ar gyfer Adolygiad GA yn hyblyg a dylai ymdrin â natur y darparwr a chwmpas yr adolygiad, gan ystyried y cyd-destun perthnasol (gwelwch Adran 3).

141 Mae gan adolygwyr ASA arbenigedd a phrofiad cyfredol neu ddiweddar o reoli ar lefel uwch ac/neu o ddarparu darpariaeth addysg uwch, a allai gynnwys rheoli a/neu weinyddu prosesau sicrhau ansawdd. Penodir adolygwyr sy'n fyfyrwyr o blith myfyrwyr neu swyddogion sabothol sydd â phrofiad o gyfrannu, fel cynrychiolwyr buddiannau myfyrwyr, at reoli ansawdd a safonau academiaidd. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 8 am adolygwyr ac aelodau timau adolygu.

142 Fel arfer, mae pedwar adolygwr ar gyfer Adolygiad GA, neu dri adolygwr lle mae'r ddarpariaeth yn fach. Pan fydd gan y darparwr nifer sylweddol o drefniadau cydweithredol ar gyfer ei ddarpariaeth addysg, gellir cynyddu maint y tîm i bum aelod. Mae o leiaf un o'r adolygwyr yn aelod, neu wedi bod yn aelod, o staff academiaidd mewn darparwr arall yn y DU, bydd gan un wybodaeth a phrofiad o'r sector addysg uwch yng Nghymru, a bydd o leiaf un yn fyfyrwr cyfredol neu ddiweddar. Bydd o leiaf un ohonynt wedi gweithio fel academydd ac efallai y bydd adolygwr sydd â chefnidir mewn gwasanaethau cymorth addysg uwch proffesiynol. Lle bo'r gofyn, bydd o leiaf un o'r adolygwyr yn gallu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer adolygiadau o ddarpariaeth addysg uwch mewn colegau addysg bellach, bydd gan o leiaf un o'r adolygwyr brofiad o weithio yn y sector addysg uwch mewn addysg bellach.

143 Gall adolygwr rhyngwladol ychwanegu safbwynt allanol i ystyriaeth y tîm adolygu o'r ffordd y mae'r darparwr yn sicrhau ansawdd ac yn gwella profiad dysgu'r myfyrwyr. Disgwylir i adolygwyr rhyngwladol fod ag ystod o wybodaeth a phrofiad a fydd o fudd i'r darparwr, y broses, a'r sector addysg uwch, gan gynnwys gwybodaeth a phrofiad rhyngwladol cymharol. Mae adolygwyr rhyngwladol yn gymheiriaid uwch, sydd wedi'u dethol o blith darparwyr addysg uwch priodol neu asiantaethau cysylltiedig. Cânt eu dethol yn aelodau o dîm adolygu ar sail eu harbenigedd a'u profiad, gyda'r nod o gael aelodau sy'n cyfateb â dull strategol y darparwr a'i flaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

144 Uchafswm aelodaeth y tîm yw chwech. Yn dilyn trafodaeth gydag ASA, gall darparwyr ddewis gofyn am gael unrhyw rai o'r canlynol fel aelodau ychwanegol ar eu tîm adolygu:

- un adolygwr rhyngwladol neu un adolygwr sy'n fyfyrwr rhyngwladol (mae ffi ychwanegol)<sup>21</sup>
- un adolygwr ychwanegol sy'n fyfyrwr yn y DU
- adolygwyr sy'n academyddion yn y DU neu adolygwyr sy'n staff gwasanaethau cymorth proffesiynol.

145 Bydd Swyddog ASA yn cydlynu'r adolygiad, yn cefnogi'r tîm adolygu ac yn gweithredu fel y prif gyswllt gyda'r darparwr.

---

<sup>21</sup> Bydd ychwanegu adolygiad rhyngwladol yn peri cost ychwanegol i'r darparwr; nid yw'r ffi hon yn sefydlog ond mae'n gyfuniad o gostau hyfforddi, ffioedd am adolygwyr (lle mae aelod ychwanegol ar y tîm) a chostau teithio.

## Rôl yr adolygwyr

146 Mae'r adolygwyr yn gyfrifol am gasglu a dadansoddi gwybodaeth yn ystod yr Ymweliadau Adolygu ond mae'r casgliadau wedi'u seilio ar dystiolaeth ac maent yn cynrychioli barn y tîm adolygu cyfan.

147 Mae pob adolygwr yn gyfrifol am:

- ddarllen a dadansoddi'r Dadansoddiad Hunanwerthuso, yr Adroddiad Newidiadau a'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw
- gymryd rhan yn yr Ymweliadau Adolygu
- ddod i gasgliadau ar sail yr wybodaeth a gesglir yn ystod yr adolygiad
- gyfrannu at, a rhoi sylwadau am yr adroddiadau adolygu.

148 Mae adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn dod â safbwynt dysgwr i'r adolygiadau. Mae'n debyg y bydd eu cyfrifoldebau yn ystod yr adolygiadau'n canolbwyntio ar linellau ymholiad sy'n ymwneud â dull y darparwr o reoli profiad dysgu'r myfyrwyr, gan gynnwys taith y dysgwr, ac ymgysylltiad y myfyrwyr.

149 Mae gan y Swyddog ASA gyfrifoldeb am oruchwylio hynt yr adolygiad a'i ganlyniadau. Mae ganddynt gyfrifoldeb arbennig am reoli'r adolygiad a'r tîm adolygu'n rhagweithiol. Bydd hyn yn cynnwys:

- cysylltu ag ASA drwy gydol y broses adolygu, a gyda'r darparwr yn ystod yr Ymweliadau Adolygu
- hwyluso tasg y tîm adolygu o bennu a gwerthuso'r themâu allweddol sydd i gael eu harchwilio yn ystod yr adolygiad
- sicrhau aliniad rhwng y themâu allweddol a phenawdau'r Adroddiad Technegol (mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 7)
- sicrhau bod dogfennau priodol ar gael i'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliadau
- cadw cofnod o benderfyniadau'r tîm adolygu, ac o'i drafodaethau gyda'r staff a'r myfyrwyr
- helpu'r tîm adolygu i ganfod y dystiolaeth y bydd yn seilio ei farn a'i gasgliadau arni.

150 Mae'r adolygwyr yn gyfrifol am baratoi darnau ysgrifenedig drafft ar gyfer adrannau penodol o'r Adroddiad Technegol. Mae pob adolygwr yn gyfrifol am gefnogi'r Swyddog ASA yn y gwaith o olygu'r adroddiadau adolygu a darparu gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol fel y bo raid.

## Y meini prawf ar gyfer dethol adolygwyr

151 Mae ASA yn dethol pob aelod o dimau adolygu yn unol â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn Atodiad 8.

152 Mae ASA yn ceisio enwebiadau ar gyfer adolygwr sy'n fyfyrwr gan undebau myfyrwyr a darparwyr addysg uwch. Bydd adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn gymwys i wneud adolygiadau ar yr amod eu bod yn parhau i gyflawni'r meini prawf dethol, yn arbennig ar yr amod nad yw'n hirach na thair blynedd ers iddynt astudio gyda darparwr addysg uwch.

153 Tynnir adolygwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r DU. Gwahoddir darparwyr addysg uwch yng Nghymru i enwebu un neu fwy o adolygwyr rhyngwladol i'r gronfa adolygwyr. Hefyd, mae ASA yn ceisio enwebiadau drwy ei chysylltiadau gyda darparwyr a sefydliadau perthnasol mewn gwledydd eraill.

154 Bydd ASA yn ystyried enwebiadau gan holl ddarparwyr addysg uwch y DU ar gyfer adolygwyr ac adolygwyr sy'n fyfyrwyr. Anogir pob darparwr addysg uwch yng Nghymru i enwebu o leiaf un ymgeisydd i bob rôl.

## **Hyfforddi adolygwyr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd**

155 Mae gofyn i bob adolygwr ar gyfer Adolygiad GA, yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer dulliau adolygu eraill, dderbyn hyfforddiant mewn gwneud Adolygiad GA. Mae ASA yn disgwyl i'r adolygwyr gymryd rhan mewn datblygiad parhaus a digwyddiadau i adolygwyr fel y bo'n briodol. Gallai ASA dargedu hyfforddiant a datblygiad parhaus at grwpiau penodol o adolygwyr, megis adolygwyr sy'n fyfyrwyr neu adolygwyr rhyngwladol.

156 Cyn iddynt gymryd rhan yn yr Adolygiad GA, mae gofyn i'r adolygwyr fynd i'r Digwyddiad Briffio i'r Darparwr, sy'n ddigwyddiad undydd.

## Adran 8: Monitro a gwerthuso

### Pwrpas ac egwyddorion monitro a gwerthuso

157 Mae ASA yn monitro gweithrediad Adolygiad GA yn barhaus, ac yn gwerthuso'n rheolaidd pa mor effeithiol yw'r dull. Bwriad y gwaith yma yw:

- cefnogi ASA i weithredu'r dull yn effeithiol
- hysbysu datblygiad parhaus y dull yng nghyd-destun ehangach y FfAAC.

158 Dylai'r gwaith o fonitro a gwerthuso:

- fod yn effeithiol ac amserol
- sicrhau bod darparwyr addysg uwch ac adolygwyr yn gallu rhoi adborth strwythuredig gefnogi'r hyfforddiant a'r datblygiad parhaus i adolygwyr
- annog deialog ac arferion myfyriol gweithredol mewn perthynas â chynllun a datblygiad y dull i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'w bwrpas.

### Monitro a gwerthuso

159 Mae gweithgareddau monitro a gwerthuso'n cynnwys pob cam o'r broses adolygu:

- y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr
- y gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad
- yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm
- yr Ymweliadau Adolygu
- y trefniadau ar gyfer ffurfio'r beirniadaethau a llunio'r adroddiad
- adroddiadau dilyniant a gweithgareddau cysylltiedig (os yw hynny'n berthnasol).

160 Mae ASA yn gwahodd pawb sy'n ymgysylltiedig â'r Adolygiad GA i gyfranogi yn y broses fonitro: y darparwr, y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, yr adolygwyr, a'r Swyddog ASA sy'n gyfrifol am reoli'r adolygiad. Mae ASA yn casglu adborth drwy holiaduron monitro, y mae'n gofyn i'r holl gyfranogwyr yn yr Adolygiad GA eu cwblhau. Mae'r holiaduron yn gofyn am sylwadau ar agweddau ymarferol yr adolygiad yn ogystal â chwestiynau ehangach yn ymwneud ag effeithiolrwydd y dull. Mae'r wybodaeth a gesglir drwy'r holiaduron monitro'n cael ei dwyn ynghyd i hysbysu'r broses werthuso ehangach.

161 Trwy adeiladu ar y gwaith monitro yma, mae ASA yn gwerthuso pa mor effeithiol yw dull Adolygiad GA o ran cyflawni ei amcanion fel dull adolygu i sicrhau gwelliant yng nghyd-destun ehangach y FfAAC.

162 Mae canfyddiadau'r gwaith o fonitro a gwerthuso'n helpu i hysbysu'r hyfforddiant a'r datblygiad a ddarperir i adolygwyr er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi a'u cefnogi'n effeithiol i wneud eu rolau. Gallai hefyd hysbysu datblygiad y FfAAC yn y dyfodol.

## Atodiad 1: Diffiniadau o dermau allweddol

### Beth ydym yn ei olygu wrth sôn am safonau academaidd?

Mae *Rhan A: Gosod a Chynnal Safonau Academaidd* y Cod Ansawdd yn nodi diffiniadau ASA a'r Disgwyliadau ynghylch gosod a chynnal safonau academaidd trothwy y mae gofyn i bob darparwr addysg uwch eu cyflawni.

**Safonau academaidd** yw'r safonau a osodir gan gyrrff dyfarnu graddau ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau.

**Safonau academaidd trothwy** yw'r lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei ddangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol, y datganiadau nodweddion cymhwyster a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc.

Mae safonau academaidd trothwy'n wahanol i safonau perfformiad y byddai angen i fyfyrwr eu cyflawni er mwyn ennill dyfarniad o ddsbarth penodol. Nid yw safonau academaidd trothwy'n ymwneud ag unrhyw ddsbarthiad dyfarniad unigol mewn unrhyw bwnc penodol. Maent yn nodi pa safon sydd ei hangen i allu labelu dyfarniad yn radd sylfaen, er enghraifft, neu radd baglor neu radd meistr. Mae prif ffocws *Rhan A* y Cod Ansawdd ar y ffordd y mae safonau academaidd trothwy'n cael eu gosod a'u cynnal.

Mae cyrrff dyfarnu graddau unigol yn gyfrifol am sicrhau fod safonau academaidd trothwy'n cael eu bodloni yn eu dyfarniadau drwy alinio canlyniadau dysgu'r rhaglen gyda'r disgrifwyr cymhwyster perthnasol yn y FHEQ. Maent hefyd yn gyfrifol am osod y marciau pasio, yn ogystal â'r graddau, marciau neu ddsbarthiadau sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau cyflawniad y myfyrwr sy'n uwch na'r safonau academaidd trothwy.

Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn esbonio'n eglur beth yw natur a nodweddion y dyfarniadau mewn maes astudio penodol ac yn disgrifio galluedd a nodweddion y graddedigion yn y pwnc hwnnw. Maent yn disgrifio'r canlyniadau a'r nodweddion a ddisgwylir ar y safon trothwy ac, yn y mwyafrif o achosion, y lefel o gyflawniad 'nodweddiadol' neu foddol hefyd. Felly maent yn brif bwynt cyfeirio ar gyfer gosod safonau academaidd pan fydd rhaglenni newydd yn cael eu llunio a'u cymeradwyo. Maent hefyd yn brif bwynt cyfeirio ar gyfer monitro ac adolygu dilynol, am eu bod yn rhoi fframwaith manwl i staff academaidd ar gyfer pennu'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar y rhaglen.

Wrth benderfynu pa mor dda yw'r darparwyr am reoli safonau academaidd trothwy'r dyfarniadau, bydd timau adolygu'n disgwyl gweld dyfarniadau'n cael eu halinio â'r disgrifwyr cymhwyster sydd wedi'u nodi yn y fframweithiau cymwysterau, ac yn disgwyl iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw Ddatganiad(au) Meincnodi Pwnc neu ddatganiad(au) cymhwyster perthnasol.

### Beth ydym yn ei olygu wrth sôn am ansawdd academaidd?

Mae *Rhan B: Sicrhau a Gwella Ansawdd Academaidd* y Cod Ansawdd yn nodi'r Disgwyliadau ynghylch sicrhau a gwella ansawdd academaidd y mae gofyn i bob darparwr addysg uwch eu cyflawni.

Mae **ansawdd academaidd** wedi'i ddiffinio fel term cynhwysfawr sy'n cyfeirio at y ffordd mae darparwyr addysg uwch yn rheoli cyfleoedd dysgu ac addysgu, a pha mor dda maent yn eu rheoli, i helpu myfyrwr i symud ymlaen a llwyddo.

## **Beth yw canmoliaeth?**

Gallai'r tîm adolygu ganmol arfer y maent yn ei ystyried yn broses neu'n ffordd o weithio sy'n gwneud cyfraniad arbennig o bositif i brofiad dysgu'r myfyrwyr yng nghyd-destun y darparwr.

## **Beth yw cadarnhad?**

Cadarnhad yw cydnabyddiaeth o weithred, sy'n digwydd yn barod yn sefydliad y darparwr ar sail y defnydd effeithiol a wneir gan y darparwr o'i weithdrefnau ansawdd ei hun, i wella gwendid neu elfen annigonol sydd wedi'u canfod yn y meysydd beirniadaeth.

## **Beth yw argymhelliad?**

Mae timau adolygu'n gwneud argymhellion lle maent yn cytuno y dylai darparwr ystyried newid arfer, polisi neu broses er mwyn: diogelu safonau academiaidd; sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig i'r myfyrwyr, neu gymryd camau pwrpasol i'w gwella; neu sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei chynhyrchu i'w gynulleidfaoedd targed yn addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

## Atodiad 2: Meini prawf beirniadaeth

Mae'r meini prawf y mae'r timau adolygu'n eu defnyddio i wneud eu beirniadaethau i'w gweld isod. Maent yn gronnus, sy'n golygu y dylid bodloni'r rhan fwyaf o'r meini prawf o fewn adran benodol er mwyn cefnogi'r feirniadaeth berthnasol.

...yn bodloni'r gofynion	...yn bodloni'r gofynion gydag amodau	...ddim yn bodloni'r gofynion
Maent yn bodloni pob un o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol, neu bob un bron iawn.	Mae'r mwyafrif o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol wedi'u bodloni.	Mae wedi methu â bodloni nifer o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol, neu mae bylchau mawr mewn un neu fwy o'r disgwyliadau perthnasol.
<p>Nid yw'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni, yn unigol neu ar y cyd, yn cyflwyno unrhyw risgiau difrifol i'r rheolaeth ar y maes yma.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig, er enghraifft, â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hepgoriad neu amryfusedd bychan</li> <li>• yr angen i addasu neu ddiweddarau dulliau, lle na fydd yr addasiad yn creu newid strwythurol, gweithredol neu drefniadol mawr</li> <li>• chyflawni gweithgaredd sydd ar waith yn barod mewn nifer fechan o feysydd a fydd yn caniatáu i'r darparwr fodloni'r disgwyliadau'n llawnach</li> </ul>	<p>Nid yw'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni'n cyflwyno unrhyw risgiau difrifol.</p> <p>Efallai bod rhai risgiau canolig a allai, os na chânt sylw, arwain at broblemau difrifol dros amser wrth reoli'r maes yma.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwendid yn nulliau'r darparwr o gyflawni'r gofynion a/neu'r safonau</li> <li>• gwendid yn nulliau'r darparwr o sicrhau gwelliant</li> <li>• phwyslais neu flaenoriaeth annigonol ar sicrhau safonau neu ansawdd</li> <li>• threfnau sicrhau ansawdd sydd â rhai gwendidau, er eu bod yn ddigonol i raddau, yn nhermau pa mor fanwl gywir y cânt eu gweithredu</li> <li>• phroblemau sydd wedi'u cyfyngu i ran fechan o'r ddarpariaeth</li> </ul>	<p>Mae'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni'n cyflwyno risg(iau) difrifol, yn unigol neu ar y cyd, i'r rheolaeth ar y maes yma, ac mae rheoliadau cyfyngedig ar waith i leihau'r risg. Gallai peidio â gweithredu mewn rhai meysydd arwain at ganlyniadau difrifol.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dulliau aneffeithiol o gyflawni'r gofynion a/neu'r safonau</li> <li>• dulliau aneffeithiol o sicrhau gwelliant</li> <li>• bylchau sylweddol mewn polisi, strwythurau neu weithdrefnau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r darparwr yn sicrhau ansawdd a safonau</li> <li>• y darparwr yn torri ei drefnau sicrhau ansawdd ei hun</li> </ul>

...yn bodloni'r gofynion	...yn bodloni'r gofynion gydag amodau	...ddim yn bodloni'r gofynion
<p>Mae esiamplau o arfer da yn y maes yma.</p> <p>Mae ymgysylltiad y myfyrwyr â rheoli'r maes yma'n eang ac wedi'i gefnogi.</p> <p>Mae rheoli anghenion y myfyrwyr yn ffocws clir yn strategaethau a pholisïau'r darparwr yn y maes yma.</p> <p>Mae'r darparwr wedi cydnabod yr angen am weithredu yn ei ddogfennaeth adolygu neu yn ystod yr adolygiad, <b>ac</b> mae wedi darparu tystiolaeth glir o'r camau gweithredu priodol y mae'n eu cymryd o fewn amser rhesymol.</p> <p>Mae tystiolaeth i ddangos bod y darparwr yn hollol ymwybodol o'i gyfrifoldebau ynglŷn â sicrhau ansawdd a safonau ac ni ragwelir y bydd unrhyw broblemau difrifol yn datblygu.</p> <p>Mae ei ymatebion blaenorol i weithgareddau adolygu allanol yn rhoi'r hyder i'r beirniaid deimlo'n sicr y bydd mannau o wendid yn derbyn sylw'n brydlon ac yn broffesiynol.</p>	<p>Nid yw'r cynlluniau y mae'r darparwr yn eu cyflwyno ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd cyn neu yn ystod yr adolygiad, wedi'u datblygu'n ddigonol neu eu cynnwys yn gyflawn yng ngwaith cynllunio gweithredol y darparwr, a gallai hynny arwain at broblem ddifrifol dros amser, os na chânt sylw.</p> <p>Mae camau gweithredu diweddar a blaenoriaethau'r darparwr yn awgrymu nad yw darparwr yn gwbl ymwybodol efallai o arwyddocâd materion penodol. Ond, mae ymatebion blaenorol i weithgareddau adolygu allanol yn awgrymu y bydd yn cymryd y camau gweithredu sydd eu hangen ac yn darparu tystiolaeth eu bod wedi gwneud hynny, fel y bo'r gofyn.</p>	<p>Nid yw'r cynlluniau ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd y gall y darparwr eu cyflwyno cyn neu yn ystod yr adolygiad, yn ddigonol i gywiro'r problemau, neu does dim tystiolaeth o gynnydd, neu ychydig iawn o dystiolaeth o gynnydd sydd.</p> <p>Nid yw'r darparwr wedi cydnabod bod ganddo broblemau mawr, ac nid yw chwaith wedi cynllunio camau gweithredu sylweddol i ymdrin â phroblemau y mae wedi'u canfod.</p> <p>Mae dealltwriaeth y darparwr o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o feysydd allweddol y gofynion a/neu'r safonau'n gyfyngedig, neu efallai nad yw'n llawn reoli pob rhan o'r sefydliad.</p> <p>Mae'r darparwr wedi methu â gweithredu'n briodol dro ar ôl tro, neu'n barhaus, mewn ymateb i weithgareddau adolygu allanol.</p>

## Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG)

Cafodd y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) eu mabwysiadu gan y Gweinidogion oedd yn gyfrifol am addysg uwch yn 2005 yn dilyn cynnig a baratowyd gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA) mewn cydweithrediad ag Undeb Myfyrwyr Ewrop (ESU), Cymdeithas Sefydliadau mewn Addysg Uwch Ewrop (EURASHE) a Chymdeithas Prifysgolion Ewrop (EUA).

Ers 2005, cafwyd cynnydd sylweddol ym maes sicrhau ansawdd yn ogystal â llinellau gweithredu Bologna eraill megis fframweithiau cymwysterau, cydnabod a hybu'r defnydd o ganlyniadau dysgu, mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at symudiad mewn patrwm tuag at ddysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.

O ystyried y cyd-destun yma o newid, cychwynnodd proses o ddiweddarau'r canllawiau yn 2012 gyda'r bwriad o'u gwneud yn "fwy eglur, cymwys a defnyddiol, gan gynnwys eu cwmpas". Canlyniad hyn oedd cyfres ddiwygiedig o ganllawiau yn 2015. Mae'r fersiwn newydd hon yn adlewyrchu consensws ymysg yr holl gyrff perthnasol ynglŷn â sut i ddatblygu'r agenda sicrhau ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA).

Mae'r canllawiau llawn a gwybodaeth gysylltiedig ar gael ar [wefan ENQA](#).<sup>22</sup>

Mae tair rhan i'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop, ac mae Rhan 1 yn berthnasol i ddarparwyr:

- Rhan 1: Safonau a chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd Mewnol.

Mae'r testun a ganlyn yn ddyfyniad o argraffiad 2015 yr ESG, ac mae rhifau'r penawdau yr un fath â'r rhifo yn y ddogfen wreiddiol.

---

<sup>22</sup> Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG), sydd ar gael ar: [www.enqa.eu/index.php/home/esg/](http://www.enqa.eu/index.php/home/esg/).

# 1 Safonau a chanllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol

## 1.1 Polisi ar gyfer sicrhau ansawdd

### Y safon:

Dylai sefydliadau fod â pholisi ar gyfer sicrhau ansawdd sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n ffurfio rhan o'u rheolaeth strategol. Dylai rhanddeiliaid mewnol ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn drwy drefnau a phrosesau priodol, gan gynnwys rhanddeiliaid allanol yn y gwaith hefyd.

### Y canllawiau:

Y polisiâu a'r prosesau yw prif gynhalwyr system sicrhau ansawdd sefydliadol cydlynol sy'n ffurfio cylch o wella parhaol ac sy'n cyfrannu at atebolrwydd y sefydliad. Mae'n cefnogi datblygiad diwylliant o wella ansawdd lle mae'r holl rhanddeiliaid mewnol yn gyfrifol am ansawdd ac yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau ansawdd ar bob lefel yn y sefydliad. I hwyluso hyn, mae gan y polisi statws ffurfiol ac mae ar gael i'r cyhoedd.

Mae polisiâu sicrhau ansawdd ar eu mwyaf effeithiol pan maent yn adlewyrchu'r berthynas rhwng gwaith ymchwil a dysgu ac addysgu ac yn rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun cenedlaethol y mae'r sefydliad yn gweithredu oddi mewn iddo, ac i gyd-destun y sefydliad a'i ddull strategol. Mae polisi o'r fath yn cefnogi:

- trefniant y system sicrhau ansawdd
- adrannau, ysgolion, cyfadranau ac unedau cyfundrefnol eraill yn ogystal â rhai'r arweinydd sefydliadol, aelodau unigol o'r staff a'r myfyrwyr i ysgwyddo eu cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd
- cywirdeb academaidd a rhyddid ac yn cadw llygad craff am dwyll academaidd
- ddiogelu yn erbyn unrhyw fath o anoddefgarwch neu wahaniaeth yn erbyn y myfyrwyr neu'r staff
- cyfranogaeth rhanddeiliaid allanol yn y gwaith o sicrhau ansawdd.

Mae'r polisi'n trosi'n arferion drwy amrywiaeth o brosesau sicrhau ansawdd mewnol sy'n caniatáu cyfranogaeth ar draws y sefydliad. Lle'r sefydliad yw penderfynu sut mae'r polisi'n cael ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu.

Mae'r polisi sicrhau ansawdd yn ymwneud hefyd ag unrhyw elfennau o weithgareddau'r sefydliad sy'n cael eu his-gontractio i bartïon eraill neu'n cael eu gweithredu gan bartïon eraill.

## 1.2 Cynllunio a chymeradwyo rhaglenni

### Y safon:

Dylai sefydliadau fod â phrosesau ar gyfer cynllunio a chymeradwyo eu rhaglenni. Dylid llunio'r rhaglenni fel eu bod yn cyflawni'r amcanion a osodir iddynt, yn cynnwys y canlyniadau dysgu a fwriedir. Dylai bennu a chyfathrebu'n glir pa gymhwyster fydd yn codi o raglen, a dylai gyfeirio at y lefel gywir ar y fframwaith cymwysterau cenedlaethol ar gyfer addysg uwch ac, o ganlyniad, at y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

### Y canllawiau:

Mae rhaglenni astudio wrth graidd cenhadaeth addysgu'r sefydliadau addysg uwch. Maent yn rhoi gwybodaeth academaidd a sgiliau academaidd i fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai sy'n drosglwyddadwy, a allai ddylanwadu ar eu datblygiad personol ac y gellir eu defnyddio yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r rhaglenni:

- wedi'u llunio gydag amcanion cyffredinol sy'n cyfateb â strategaeth y sefydliad ac sydd â chanlyniadau dysgu a fwriedir clir
- wedi'u llunio gan gynnwys myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith
- yn elwa o arbenigedd allanol a phwyntiau cyfeirio allanol
- yn adlewyrchu pedwar pwrpas addysg uwch fel y maent wedi'u diffinio gan Gyngor Ewrop (cyfeiriwch at Gwmpas a Chysyniadau)
- wedi'u llunio fel eu bod yn galluogi i'r myfyriwr symud ymlaen yn esmwyth
- yn diffinio llwyth gwaith disgwylidig y myfyriwr e.e. yn y System Casglu a Throsglwyddo Credydau Ewropeaidd (ECTS)
- yn cynnwys cyfleoedd lleoliad gwaith wedi'u strwythuro'n dda, lle bo'n briodol<sup>23</sup>
- yn atebol i broses gymeradwyo ffurfiol sefydliadol.

### 1.3 Dysgu, addysgu ac asesu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr

#### Y safon:

Dylai sefydliadau sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n annog myfyriwr i gymryd rôl weithredol yn y gwaith o greu'r broses ddysgu, a bod asesiad y myfyrwyr yn adlewyrchu'r dull yma.

#### Y canllawiau:

Mae dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr yn chwarae rôl bwysig mewn ysgogi cymhelliant, hunanystyriaeth ac ymgysylltiad myfyrwyr yn y broses ddysgu. Mae hyn yn golygu rhoi ystyriaeth ofalus i gynllun a darpariaeth rhaglenni astudio ac asesu canlyniadau.

- Mae gweithrediad dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr
- yn parchu ac yn rhoi sylw i amrywiaeth y myfyrwyr a'u hanghenion, gan alluogi llwybrau dysgu hyblyg
- yn ystyried ac yn defnyddio dulliau gwahanol o ddarparu, lle bo'n briodol
- yn defnyddio amrywiaeth o dulliau addysgol yn hyblyg
- yn gwerthuso ac yn addasu'r dulliau o ddarparu a'r dulliau addysgol yn rheolaidd
- yn annog naws o hunanreolaeth o fewn y dysgwr, gan sicrhau arweiniad a chefnogaeth ddigonol gan yr athro/athrawes
- yn hybu parch cyfartal o fewn y berthynas rhwng dysgwyr ac athrawon
- yn cynnwys gweithdrefnau priodol ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr.

Wrth ystyried pwysigrwydd asesu ar gyfer cynnydd y myfyrwyr a'u gyrfaeoddd yn y dyfodol, mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer asesu'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- Mae aseswyr yn gyfarwydd â'r dulliau profi ac arholi presennol ac yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau eu hunain yn y maes yma
- Mae'r meini prawf asesu a'r dull asesu, yn ogystal â'r meini prawf marcio, yn cael eu cyhoeddi o flaen llaw
- Mae'r asesiad yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos i ba raddau y mae'r canlyniadau dysgu a fwriedir wedi'u cyflawni; mae'r myfyrwyr yn derbyn adborth sydd, os oes raid, yn cael ei gysylltu â chyngor am y broses ddysgu
- Lle bo'n bosibl, mae mwy nag un arholwr yn gwneud yr asesiad
- Mae'r rheoliadau ar gyfer asesu'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lliniarol
- Mae'r asesiad yn gyson, yn cael ei weithredu'n deg i bob myfyriwr ac yn cadw at y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi
- Mae gweithdrefnau ffurfiol ar waith ar gyfer apeliadau myfyrwyr.

---

<sup>23</sup> Mae lleoliadau gwaith yn cynnwys hyfforddeiaethau, interniaethau a chyfnodau eraill o'r rhaglen nad ydynt yn cael eu treulio o fewn y sefydliad ond sy'n caniatáu i'r myfyriwr gael profiad mewn maes sy'n berthnasol i'w hastudiaethau.

## 1.4 Derbyniad, cynnydd, cydnabyddiaeth ac ardystiad myfyrwyr

### Y safon:

Dylai sefydliadau ddefnyddio'n gyson y rheoliadau sydd wedi'u diffinio'n barod a'u cyhoeddi sy'n ymwneud â phob cam o 'gylch bywyd' y myfyriwr, e.e. derbyniad, cynnydd, cydnabyddiaeth ac ardystiad y myfyriwr.

### Y canllawiau:

Mae darparu'r amodau a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol er mwyn i'r myfyrwyr symud ymlaen yn eu gyrfaeodd academiaidd o fudd i'r myfyrwyr, rhaglenni, sefydliadau a systemau unigol. Mae'n hanfodol cael gweithdrefnau derbyn, cydnabod a chwblhau sy'n addas i'r pwrpas, yn arbennig pan fo myfyrwyr yn symudol o fewn ac ar draws systemau addysg uwch.

Mae'n bwysig bod polisiâu mynediad, a phrosesau a meini prawf derbyn yn cael eu gweithredu'n gyson ac mewn ffordd agored a gonest. Darperir cyflwyniad ymsefydlu i'r sefydliad a'r rhaglen.

Mae angen i sefydliadau roi prosesau ac offer yn eu lle i gasglu, monitro, ac i weithredu ar, wybodaeth am gynnydd myfyrwyr.

Mae cydnabyddiaeth deg o gymwysterau addysg uwch, cyfnodau astudio a dysgu blaenorol, gan gynnwys cydnabyddiaeth o ddysgu anffurfiol ac nad yw'n ffurfiol, yn elfennau hanfodol i sicrhau cynnydd y myfyrwyr yn eu hastudiaethau, gan hybu symudedd ar yr un pryd.

Mae trefnau cydnabod priodol yn dibynnu ar:

- sicrhau bod yr arferion sefydliadol i roi cydnabyddiaeth yn cyfateb ag egwyddorion Confensiwn Lisbon ar Gydabod Cymwysterau
- gydweithredu gyda sefydliadau eraill, asiantaethau sicrhau ansawdd a'r ganolfan ENIC/NARIC genedlaethol gyda'r bwriad o sicrhau cydnabyddiaeth gydlynol ar draws y wlad.

Mae graddio'n cynrychioli diwedd glo cyfnod astudio'r myfyriwr. Mae angen i fyfyrwyr dderbyn dogfennaeth sy'n esbonio'r cymhwyster a enillwyd ganddynt, yn cynnwys y canlyniadau dysgu a gyflawnwyd a chyd-destun, lefel, cynnwys a statws yr astudiaethau a wnaed ac a gwblhawyd yn llwyddiannus.

## 1.5 Staff addysgu

### Y safon:

Dylai sefydliadau eu sicrhau eu hunain o gymhwysedd eu hathrawon. Dylent ddefnyddio prosesau teg ac eglur ar gyfer penodi a datblygu'r staff.

### Y canllawiau:

Mae rôl athrawon yn hanfodol i greu profiad o safon uchel i'r myfyrwyr a'u galluogi i ddysgu gwybodaeth, galluoedd a sgiliau. Wrth i'r boblogaeth fyfyrwyr ddod yn fwy amrywiol a gyda'r ffocws cryfach ar ganlyniadau dysgu, mae angen cael dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr ac felly mae rôl yr athro'n newid (cyfeiriwch at Safon 1.3).

Mae gan sefydliadau addysg uwch y prif gyfrifoldeb am ansawdd eu staff ac am roi amgylchedd cefnogol iddynt sy'n eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae amgylchedd o'r fath yn:

- sefydlu a dilyn prosesau clir, eglur a theg ar gyfer penodi staff ac amodau cyflogaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd addysgu
- cynnig cyfleoedd i gael datblygiad proffesiynol ac yn hybu datblygiad proffesiynol staff addysgu
- annog gweithgareddau ysgolheigaid i gryfhau'r cysylltiad rhwng gwaith addysgu a gwaith ymchwil
- annog arloesi mewn dulliau addysgu a defnyddio technolegau newydd.

## 1.6 Adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr

### Y safon:

Dylai sefydliadau fod â chyllido priodol ar gyfer gweithgareddau dysgu ac addysgu a sicrhau bod adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr yn cael eu darparu sy'n ddigonol ac yn hawdd cael gafael arnynt.

### Y canllawiau:

I roi profiad addysg uwch da, mae sefydliadau'n darparu ystod o adnoddau i helpu'r myfyrwyr i ddysgu. Mae'r rhain yn amrywio o adnoddau ffisegol megis llyfrgelloedd, cyfleusterau astudio a seilwaith TG i gefnogaeth ddynol ar ffurf tiwtoriaid, cwrselwyr a chynghorwyr eraill. Mae rôl y gwasanaethau cymorth o bwysigrwydd arbennig i hwyluso symudedd myfyrwyr o fewn ac ar draws y systemau addysg uwch.

Mae anghenion poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr (megis myfyrwyr hŷn, myfyrwyr rhan amser, myfyrwyr mewn swydd gyflogedig a myfyrwyr rhyngwladol yn ogystal â myfyrwyr gydag anableddau), a'r symudiad tuag at ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a dulliau hyblyg o ddysgu ac addysgu, yn derbyn ystyriaeth wrth ddyrannu, cynllunio a darparu'r adnoddau dysgu a'r cymorth i fyfyrwyr.

Gallai gweithgareddau a chyfleusterau cymorth gael eu trefnu mewn amrywiaeth o ffyrdd yn dibynnu ar y cyd-destun sefydliadol. Fodd bynnag, mae'r system sicrhau ansawdd fewnol yn gwneud yn siŵr bod yr holl adnoddau'n addas i'w pwrpas, yn hygyrch, a bod myfyrwyr yn cael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

Wrth ddarparu gwasanaethau cymorth mae rôl y staff cymorth a'r staff gweinyddol yn hanfodol ac felly mae'n rhaid iddynt fod yn gymwysedig a chael cyfleoedd i ddatblygu eu galluedd.

## 1.7 Rheoli gwybodaeth

### Y safon:

Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth berthnasol er mwyn rheoli eu rhaglenni a gweithgareddau eraill yn effeithiol.

### Y canllawiau:

Mae data dibynadwy'n hanfodol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau deallus ac i wybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen sylw. Mae prosesau effeithiol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am raglenni astudio a gweithgareddau eraill yn bwydo i mewn i'r system sicrhau ansawdd fewnol.

Mae'r wybodaeth a gesglir yn dibynnu, i ryw raddau, ar y math o sefydliad a chenhadaeth y sefydliad. Mae'r canlynol o ddiddordeb:

- Dangosyddion perfformiad allweddol;
- Proffil poblogaeth y myfyrwyr;
- Cyfraddau cynnydd a llwyddiant y myfyrwyr a'r myfyrwyr sy'n ymadael yn fuan;
- Boddhad y myfyrwyr gyda'u rhaglenni;
- Yr adnoddau dysgu a'r cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael;
- Llwybrau gyrfaol y graddedigion.

Mae modd defnyddio dulliau amrywiol o gasglu gwybodaeth. Mae'n bwysig bod y myfyrwyr a'r staff yn cyfranogi yn y gwaith o ddarparu a dadansoddi gwybodaeth a chynllunio camau dilyniant.

## 1.8 Gwybodaeth gyhoeddus

### Y safon:

Dylai sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am eu gweithgareddau, gan gynnwys eu rhaglenni, sy'n glir, cywir, gwrthrychol, wedi'i diweddarau ac sy'n hawdd cael gafael arni.

### Y canllawiau:

Mae gwybodaeth am weithgareddau'r sefydliadau'n ddefnyddiol i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, yn ogystal ag i raddedigion, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd. Felly, mae sefydliadau'n darparu gwybodaeth am eu gweithgareddau, gan gynnwys y rhaglenni y maent yn eu cynnig, y meini prawf dethol a'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y rhaglenni hyn, y cymwysterau y maent yn eu dyfarnu, y trefnau dysgu, addysgu ac asesu y maent yn eu defnyddio, y cyfraddau pasio a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'w myfyrwyr, yn ogystal â gwybodaeth am swyddi'r graddedigion.

## 1.9 Monitro rhaglenni'n barhaus a'u hadolygu'n gyfnodol

### Y safon:

Dylai sefydliadau fonitro eu rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u gosod iddynt ac yn ymateb i anghenion y myfyrwyr a'r gymdeithas. Dylai'r adolygiadau hyn arwain at welliant y rhaglen yn barhaus. Dylid cyfathrebu unrhyw gamau gweithredu a gynllunnir neu a gymerir o ganlyniad i'w cynllunio, i bawb sy'n berthnasol.

### Y canllawiau:

Nod y gwaith o fonitro, adolygu a diwygio rhaglenni astudio'n rheolaidd yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau'n briodol a chreu amgylchedd dysgu cefnogol ac effeithiol i fyfyrwyr.

Maent yn cynnwys gwerthuso:

- Cynnwys y rhaglen yng nghyd-destun y gwaith ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth berthnasol gan felly sicrhau bod y rhaglen ar ei ffurf fwyaf diweddar
- Anghenion newidiol y gymdeithas
- Llwyth gwaith, cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr
- Effeithiolrwydd y gweithdrefnau ar gyfer asesu myfyrwyr
- Disgwyliadau, anghenion a boddhad y myfyrwyr mewn perthynas â'r rhaglen
- Yr amgylchedd dysgu a'r gwasanaethau cymorth a pha mor addas ydynt i bwrpas y rhaglen.

Mae rhaglenni'n cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd gyda chyfranogaeth gan fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei dadansoddi ac mae'r rhaglen yn cael ei haddasu i sicrhau ei bod ar ei ffurf ddiweddaraf. Cyhoeddir manylebau rhaglenni diwygiedig.

## 1.10 Adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol cylchol

### Y safon:

Dylai sefydliadau gael adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn gylchol, yn unol â'r ESG.

### Y canllawiau:

Gall adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn eu amrywiol ffurfiau wirio bod prosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliadau'n effeithiol, gall weithredu fel catalydd ar gyfer gwella a chynnig safbwyntiau newydd i'r sefydliad. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth i roi sicrwydd i'r sefydliad a'r cyhoedd am ansawdd gweithgareddau'r sefydliad.

Mae sefydliadau'n cyfranogi mewn prosesau sicrhau ansawdd allanol cylchol sy'n rhoi ystyriaeth, lle bo'n berthnasol, i ofynion y fframwaith deddfwriaethol y maent yn gweithredu o'i fewn.

Felly, yn dibynnu ar y fframwaith, gallai'r broses allanol hon o sicrhau ansawdd fod mewn gwahanol ffurfiau a bod â ffocws ar wahanol lefelau sefydliadol (megis y rhaglen, y gyfadran neu'r sefydliad).

Mae sicrhau ansawdd yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben gyda'r adroddiad neu'r adborth allanol na'r broses ddilyniant o fewn y sefydliad. Felly, mae sefydliadau'n sicrhau bod y cynnydd a wnaed ers y gweithgaredd sicrhau ansawdd allanol diwethaf yn derbyn ystyriaeth wrth baratoi ar gyfer y nesaf.

## Atodiad 3: Yr Iaith Gymraeg

Mae ASA wedi'i hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth wneud ein gwaith yng Nghymru. Caiff pob dogfen sy'n ymwneud â'r Adolygiad GA, yn ogystal â phob adroddiad adolygu, eu cynhyrchu yn y ddwy iaith.

Ar gyfer adolygiadau o ddarparwyr yng Nghymru, rydym yn ceisio penodi adolygwyr a rheolwyr adolygiad sy'n ddwyieithog. Mae ein proses hysbysebu a phenodi'n cefnogi'r amcan yma'n weithredol.

Mewn unrhyw adolygiad o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod gan bob unigolyn yr hawl i ddewis y Gymraeg fel cyfrwng a bod gan bob adolygwr dwyieithog yr hawl i siarad Cymraeg. Byddwn fel arfer yn ceisio cytundeb i ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu sydd gan y darparwr yn barod, neu os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn darparu ein cyfleusterau cyfieithu ysgrifenedig neu gyfieithu ar y pryd ein hunain.

Yn y cyfarfodydd cynllunio adolygiad cychwynnol rydym yn sicrhau bod y Swyddog ASA yn canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol ar gyfer gweithredu'r adolygiad ynddi, gan benderfynu pa elfennau o'r broses adolygu sydd i gael eu gweithredu yn y Gymraeg, a byddwn yn gwneud trefniadau cyfieithu os nad yw pob un o'r cyfranogwyr yn ddwyieithog.

Gall y darparwyr gyflwyno eu dogfen hunanwerthusiad ac unrhyw ddogfennau eraill yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl eu dewis.

Yn dilyn cytundeb ynglŷn â pha elfennau o'r adolygiad fydd yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog, byddwn yn gwneud trefniadau, ac yn talu costau, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y gweithgareddau adolygu hynny yr ydym wedi cytuno i'w gweithredu'n ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod bod maint y defnydd a wneir fel arfer o'r Gymraeg a'r Saesneg yn amrywio rhwng darparwyr. Rydym yn parhau'r gwahaniaethau hyn ac yn ceisio penodi rheolwyr adolygiad dwyieithog i hwyluso'r broses adolygu ar gyfer darparwyr lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth.

## Atodiad 4: Rôl yr Hwylusydd

Gwahoddir y darparwr i benodi Hwylusydd i gefnogi'r adolygiad. Bwriad rôl yr Hwylusydd yw gwella llif yr wybodaeth rhwng y tîm a'r darparwr. Dylai'r Hwylusydd fod yn aelod o staff y darparwr sydd â'r gallu gorau i wneud y rôl sydd wedi'i disgrifio isod; nid oes raid i'r Hwylusydd fod yn uwch aelod o'r staff.

Dyma rôl yr Hwylusydd:

- gweithredu fel yr un pwynt cyswllt a'r prif gyswllt ar gyfer y Swyddog ASA yn ystod y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad
- gweithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i hwyluso rhannu data rhwng y darparwr a'r corff myfyrwyr fel bod modd i gyflwyniad y myfyrwyr gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth dda
- gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer y tîm adolygu yn ystod yr Ymweliad Adolygu
- rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r tîm ar y Dadansoddiad Hunanwerthuso ac am unrhyw ddogfennaeth gefnogol
- rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r tîm am strwythurau, polisiau, blaenoriaethau a threfnau'r darparwr
- rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r tîm ynglŷn â'r rhesymau os bydd, a sut y bydd, y darparwr, eisiau cyfranogi yn yr adolygiad drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg
- gallu canfod a darparu gwybodaeth yn brydlon pan ofynnir amdani gan y tîm adolygu yn ystod yr Ymweliad Adolygu
- cadw'r rhestr ddiweddaraf o dystiolaeth i'w chyflwyno i'r tîm adolygu drwy gydol yr adolygiad, i'w gadarnhau gan y Swyddog ASA
- sicrhau bod gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'r materion a godwyd gan y tîm adolygu
- cyfarfod y tîm adolygu ar gais y tîm yn ystod yr adolygiad, er mwyn rhoi rhagor o gyfarwyddyd am ffynonellau gwybodaeth ac egluro materion yn ymwneud â strwythurau, polisiau, blaenoriaethau a threfnau'r darparwr
- datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi'i hysbysu am, ac yn deall, sut mae'r adolygiad yn dod yn ei flaen.

Nid yw'r Hwylusydd yn bresennol yng nghyfarfodydd preifat y tîm adolygu ond bydd yn cyfarfod â'r tîm yn rheolaidd ar sail anffurfiol. Bwriad y berthynas waith yma yw gwella'r cyfathrebu rhwng y darparwr a'r tîm, a galluogi darparwyr i gael gwell dealltwriaeth o linellau ymholiad y tîm.

Caniateir i'r Hwylusydd arsyllu unrhyw rai o gyfarfodydd y tîm gyda staff y darparwr ond ni ddylai gymryd rhan mewn trafodaethau heblaw bod y tîm adolygu'n ei wahodd i wneud hynny. Nid oes caniatâd i'r Hwylusydd fynd i gyfarfodydd y tîm gyda myfyrwyr.

Mae'r Hwylusydd yn gweithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r broses adolygu, ei phwrpas a rôl y myfyrwyr oddi mewn iddi. Dylai Hwyluswyr fod ar gael i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac yn hawdd cysylltu â nhw, i ddarparu cymorth pan fo'i angen. Lle bo'n briodol, ac mewn cytundeb â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, gallai'r Hwylusydd hefyd roi arweiniad a chefnogaeth i gynrychiolwyr y myfyrwyr wrth baratoi cyflwyniad y myfyrwyr ac ar gyfer cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu.

## Penodi a briffio

Mae'n rhaid i'r sawl a benodir fel Hwylusydd fod â:

- gwybodaeth weithredol dda o systemau a threfnau'r darparwr, a gwerthfawrogiad o faterion ansawdd a safonau
- gwybodaeth a dealltwriaeth o ddull Adolygiad GA
- y gallu i gyfathrebu'n glir, i ddatblygu cydberthnasau ac i barchu cyfrinachedd
- y gallu i roi cyngor a chyfarwyddyd gwrthrychol i'r tîm adolygu.

## Protocolau

Mae'r rôl yma'n gofyn bod yr Hwylusydd yn arsyllu'n wrthrychol, yn cyfathrebu'n glir gyda'r tîm, ac yn sefydlu perthynas effeithiol gyda'r Swyddog ASA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Ni ddylai'r Hwylusydd weithredu fel eiriolwr ar gyfer y darparwr. Ond, mae caniatâd i'r Hwylusydd:

- ddod â gwybodaeth ychwanegol i sylw'r tîm
- geisio cywiro ffeithiau anghywir
- helpu'r darparwr i ddeall materion a godir gan y tîm.

Y tîm adolygu sydd i benderfynu sut i ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan yr Hwylusydd yn y ffordd orau. Nid yw'r Hwylusydd yn aelod o'r tîm ac ni fydd yn gwneud beirniadaeth am y ddarpariaeth.

Mae gofyn i'r Hwylusydd gadw yr un confensiynau cyfrinachedd ag aelodau'r tîm adolygu. Rhaid parchu'n arbennig gyfrinachedd y defnydd ysgrifenedig a gynhyrchir gan aelodau'r tîm, ac ni cheir defnyddio unrhyw wybodaeth a dderbynnir mewn ffordd sy'n caniatáu i unigolion gael eu hadnabod. Ar yr amod ei f/bod yn parchu cyfrinachedd yn briodol, caiff yr Hwylusydd wneud nodiadau am drafodaethau gyda'r tîm a darparu adroddiad am hyn i aelodau eraill o staff, er mwyn sicrhau bod gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'r materion a godwyd. Gallai hyn helpu i wneud yr adolygiad yn fwy effeithiol ac felly wella ansawdd a safonau.

Ni all yr Hwylusydd ddefnyddio system gyfathrebu electronig ASA ar gyfer timau adolygu.

Mae gan y tîm adolygu'r hawl i ofyn i'r Hwylusydd adael y broses adolygu ar unrhyw bwynt, os bydd yn ystyried bod gwrthdaro buddiannau, neu fod presenoldeb yr Hwylusydd yn amharu ar y trafodaethau.

## Atodiad 5: Cyfranogaeth y myfyrwyr

Mae'r myfyrwyr ymysg y prif rai sy'n elwa o Adolygiad GA, felly maent yn ganolog i'r broses adolygu. Mae llawer o gyfleoedd yn ystod bob adolygiad i fyfyrwyr hysbysu a chyfrannu at weithgareddau'r tîm adolygu, fel a ganlyn.

### Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

Pwrpas rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yw caniatáu i gynrychiolwyr y myfyrwyr chwarae rhan ganolog yn yr adolygiad. Fel arfer, bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn goruchwyllo'r broses o gynhyrchu cyflwyniad y myfyrwyr os ydynt eisiau cyflwyno unrhyw gyflwyniad neu gyfraniad i'r adolygiad. Os yw'n bosibl, hoffai ASA weithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i ddethol y myfyrwyr y bydd y tîm adolygu'n cyfarfod â nhw. Gwyddom nad yw'n bosibl efallai i ddynodi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn gynnar iawn yn y broses.

Lle corff cynrychiolwyr y myfyrwyr yw hi i benderfynu pwy ddylai gymryd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Efallai y bydd y person a ddetholir yn swyddog undeb y myfyrwyr, yn aelod o gorff tebyg sy'n cynrychioli'r myfyrwyr, yn un o'r cynrychiolwyr cwrs, neu'n swyddog addysg neu berson cyfatebol. Os nad oes corff cynrychiolwyr myfyrwyr, dylai'r darparwr chwilio am wirfoddolwr o'r corff myfyrwyr ehangach.

I ganiatáu ar gyfer amgylchiadau gwahanol (er enghraifft, os yw'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn astudio'n rhan amser), rydym yn hyblyg ynglŷn â'r ymrwymiad amser sy'n ofynnol gan y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Gallai'r rôl fod yn ymdrech tîm neu rannu swydd, cyhyd ag y bo'n glir pwy yw'r pwynt cyswllt.

Mae ASA yn disgwyl i'r darparwr roi cymorth gweithredol a logistaidd priodol i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac yn arbennig rannu gwybodaeth neu ddata perthnasol i sicrhau bod cyflwyniad y myfyrwyr yn wybodus ac wedi'i seilio ar dystiolaeth.

Rydym yn cydnabod nad yw hi'n bosibl efallai i gadw'r un Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr am 18 mis y broses adolygu gyfan. Gofynnwn fod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r darparwr yn cydweithio i sicrhau fod unrhyw drosglwyddiad rhwng cynrychiolwyr y myfyrwyr yn digwydd mor fuan yn y broses ag sy'n bosibl a bod ASA yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

Disgwylir y bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fel arfer yn:

- derbyn copïau o ohebiaeth allweddol gan ASA
- trefnu neu oruchwyllo ysgrifennu cyflwyniad y myfyrwyr
- helpu'r tîm adolygu i ddethol myfyrwyr i gwrdd â nhw
- cynghori'r tîm adolygu yn ystod yr Ymweliad Adolygu, os ceisir hynny
- mynd i'r cyfarfod adolygu terfynol
- cysylltu'n fewnol gyda'r Hwylusydd i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr
- dosbarthu gwybodaeth i'r corff myfyrwyr am yr adolygiad
- rhoi sylwadau ar yr adroddiad adolygu drafft ar ran y myfyrwyr
- cydlynu cyfraniad gan y myfyrwyr i'r cynllun gweithredu.

Caniateir i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr arsyllu unrhyw rai o gyfarfodydd y tîm gyda myfyrwyr ond nid yw hyn yn ofyniad. Am y tro cyntaf erioed yn nulliau adolygu ASA, caniateir i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr hefyd, os dewisant, fynd i gyfarfodydd y tîm gyda staff, yn ogystal â'r cyfarfod terfynol ar ddiwrnod olaf neu ddiwrnod olaf ond un yr Ymweliad Adolygu.

## Cyfraniad y myfyrwyr i Adolygiad GA

Mae pedair ffordd y gallai myfyrwyr gyfrannu at gamau paratoadol Adolygiad GA:

- datblygu a chyflwyno cyflwyniad myfyrwyr ar wahân ar sail yr un meysydd a phenawdau eang â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso ac o fewn yr un amserlen
- darparu cyfres o sylwadau neu bortreadau bychain yn rhan o'r Dadansoddiad Hunanwerthuso
- datblygu dull hollol integredig o wneud y Dadansoddiad Hunanwerthuso
- cytuno ar un neu fwy o astudiaethau achos dan arweiniad myfyrwyr sy'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso.

Pwrpas cyfraniad y myfyrwyr yw helpu'r tîm adolygu i ddeall y profiad o fod yn fyfyrwr yn sefydliad y darparwr hwnnw, a sut mae barn y myfyrwyr yn derbyn ystyriaeth ym mhrosesau sicrhau ansawdd a gwneud penderfyniadau'r darparwr.

Dylai cyfraniad y myfyrwyr anelu at gynrychioli barn yr ystod eang ac amrywiol o'r myfyrwyr. Dylai dynnu ar wybodaeth sy'n bodoli'n barod, megis canlyniadau arolygon myfyrwyr a chanlyniadau wedi'u cofnodi o gyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr. Ni ddylai fod yn anghrheidiol cynnal arolygon yn arbennig ar gyfer cyfraniad y myfyrwyr.

Rydym yn annog y myfyrwyr i ddefnyddio cyfresi data cenedlaethol, gan gynnwys Unistats, i sicrhau bod y cyfraniad wedi'i gefnogi gan wybodaeth gadarn a chymaradwy. Mae gwefan Unistats yn cynnwys cyfoeth o ddata, megis canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a gwybodaeth am gyfraddau cwblhau ac am ganlyniadau a chyrchfannau graddedigion; efallai y bydd myfyrwyr eisiau rhoi sylwadau ar y rhain, neu efallai eu bod yn cael yr wybodaeth yn ddefnyddiol i gefnogi pwynt y maent eisiau ei wneud.

Ni ddylai cyfraniad y myfyrwyr enwi, na thrafod gallu, aelodau unigol o staff. Ni ddylai drafod cwynion personol. Dylai hefyd geisio osgoi cynnwys sylwadau gan fyfyrwyr unigol nad ydynt efallai'n gymwys i siarad fel cynrychiolwyr grŵp ehangach.

## Cyflwyniadau'r myfyrwyr

Mae ASA yn annog myfyrwyr i weithio mewn partneriaeth gyda'u sefydliad ac i gytuno sut y bydd sylwadau'r corff myfyrwyr yn cael eu casglu ar gyfer y tîm adolygu. Bydd tystiolaeth gan y myfyrwyr yn hysbysu ymchwiliadau gan y tîm adolygu yn ystod yr Ymweliad Adolygu.

Fel arfer mae unrhyw gyflwyniad y myfyrwyr yn ddogfen ysgrifenedig, ond gall fod ar ffurf arall, megis fideo, cyflwyniad neu bodlediad. Gall y cyflwyniad fod ar ffurf astudiaeth achos neu fod yn gyflwyniad llawn ar wahân. I gael arweiniad cyflawn am gyflwyniadau amgen gan fyfyrwyr, gwelwch yr *Arweiniad am Gyflwyniadau Amgen gan Fyfyrwyr* gan ASA<sup>24</sup>. Dylai'r cyflwyniad fod yn gryno a dylai esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a hysbysodd ei sylwadau a'i gasgliadau.

Mae'n rhaid i'r cyflwyniad ar wahân gan y myfyrwyr gynnwys datganiad i esbonio sut y cafodd ei gasglu, pwy yw ei awdur, ac i ba raddau y mae ei gynnwys wedi'i rannu gydag, a'i ardystio gan, fyfyrwyr eraill. Efallai ei fod wedi'i seilio ar ein templed opsiynol,<sup>25</sup> sy'n rhoi awgrymiadau ac sy'n gofyn cwestiynau i arwain datblygiad y cynnwys. Dylid esbonio'n glir sut mae astudiaethau achos yn cael eu dewis a'u rhannu gyda'r corff myfyrwyr ehangach. Gall yr astudiaethau achos ymwneud ag unrhyw ddulliau lleol penodol y mae'r myfyrwyr yn eu gwerthfawrogi neu am fentrau ehangach oedd wedi cael effaith bositif ar y dysgu neu'r cymorth.

---

<sup>24</sup> Arweiniad am Gyflwyniadau Amgen gan Fyfyrwyr yn Adolygiad ASA, sydd ar gael ar:

[www.gaa.ac.uk/publications/information-and-guidance/publication?PubID=220](http://www.gaa.ac.uk/publications/information-and-guidance/publication?PubID=220).

<sup>25</sup> Templed Opsiynol ar gyfer Cyflwyniad y Myfyrwyr, sydd ar gael ar: [www.gaa.ac.uk/publications/information-and-guidance/publication?PubID=222](http://www.gaa.ac.uk/publications/information-and-guidance/publication?PubID=222).

Er enghraifft, gallai'r myfyrwyr gyflwyno astudiaethau achos ar fentrau penodol mewn Cemeg, Cymdeithaseg a Chyfrifiadureg sy'n helpu i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd. Opsiwn arall fyddai i'r myfyrwyr amlygu sut mae newidiadau a gyflwynwyd ar draws y sefydliad cyfan yn helpu i ddatblygu cyflogadwyedd.

Dylid rhoi unrhyw gyfraniad ar wahân gan y myfyrwyr, megis astudiaethau achos neu gyflwyniad y myfyrwyr, ar wefan electronig ddiogel ASA 12 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu. Bydd y Swyddog ASA yn cadarnhau'r union ddyddiad.

### **Rhannu cyfraniad y myfyrwyr gyda'r darparwr**

O ystyried y ffaith fod cyfraniad y myfyrwyr yn dystiolaeth mor bwysig yn y broses adolygu, er mwyn bod yn eglur ac yn deg disgwylir y bydd yn cael ei rhannu gyda'r darparwr - ar yr hwyraf pan fydd yn cael ei llwytho i'r wefan electronig ddiogel. Yn ddelfrydol, dylai hunanasesiad y darparwr ac unrhyw gyflwyniad y myfyrwyr adlewyrchu sut mae'r darparwr a'i fyfyrwyr yn cydweithio'n rheolaidd.

### **Parhad**

Mae pob Adolygiad GA yn digwydd dros gyfnod o rai misoedd. Bydd y darparwr a'i fyfyrwyr wedi bod yn paratoi ers peth amser cyn cychwyn yr adolygiad, a byddent yn parhau i gymryd rhan yn y broses o gynllunio'r camau gweithredu wedyn. Disgwylir i'r darparwyr sicrhau fod myfyrwyr yn derbyn pob gwybodaeth am y broses ac yn cyfranogi'n llawn ynddi bob amser. Dylai corff cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r darparwr ddatblygu ffordd o gyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd, nid yn unig fel bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu'n rheolaidd, ond hefyd i'w hannog i gymryd rhan.

Disgwylir i gorff cynrychiolwyr y myfyrwyr gyfrannu at gynllun gweithredu'r darparwr yn dilyn yr adolygiad, ac i'w ddiweddariad blynyddol.

## Atodiad 6: Cynnwys y Dadansoddiad Hunanwerthuso

Dylid strwythuro'r Dadansoddiad Hunanwerthuso o amgylch penawdau'r Adroddiad Technegol (gwelwch Atodiad 7). Dylai'r gwaith paratoi gynnwys y staff a'r myfyrwyr. Dylai'r Dadansoddiad Hunanwerthuso ddarparu gwybodaeth am gyd-destun yr adolygiad, sy'n cynnwys: meysydd lle mae'r darparwr yn barnu ei fod yn dangos arferion da, meysydd sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer eu datblygu a/neu eu gwella, a meysydd sy'n parhau i fod yn her.

Dylid crynhoi'r wybodaeth hon yn adran agoriadol y Dadansoddiad Hunanwerthuso, gan ei chroesgyfeirio gydag adrannau diweddarach i ddarparu rhagor o fanylion fel y bo'n briodol. Dylai'r darparwr gyfeirio at y data y mae'n ei ddefnyddio i ganfod ei gryfderau a'i heriau, gan gynnwys amlygu unrhyw fannau lle mae'r darparwr yn teimlo bod ei farn yn gwahaniaethu oddi wrth y farn a awgrymir gan ddata mewn adroddiadau allanol.

Am fod adolygiadau'n cael eu rhoi yn eu cyd-destun, deallir y bydd y themâu sy'n cael eu harchwilio ymhob adolygiad yn adlewyrchu strategaeth, blaenoriaethau, cryfderau a heriau'r darparwr dan sylw. Mae ASA yn disgwyl i ddarparwyr ymdrin â phob un o bum adran ac is-benawdau'r Adroddiad Technegol, ac mae'n cydnabod y bydd maint a ffocws y cynnwys a ddarperir gan bob darparwr yn amrywio. Yng nghyd-destun pob un o benawdau'r Adroddiad Technegol, dylai'r Dadansoddiad Hunanwerthuso nodi:

- beth sy'n wahanol a beth sy'n nodweddiadol am y darparwr
- beth yw'r meysydd allweddol lle mae'r cryfderau a'r heriau
- goblygiadau'r newidiadau, yr heriau a'r amcanion strategol o ran sicrhau safonau academiaidd ac ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- sut mae'r darparwr wedi gwerthuso ei bolisiau a'i arferion, gan gynnwys y ffyrdd y mae'r darparwr yn defnyddio data i hysbysu ei broses o wneud penderfyniadau a phennu blaenoriaethau
- cynlluniau cyfredol a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer datblygiadau
- sut mae'r darparwr yn bwriadu adeiladu ar yr arfer da ac ymdrin â meysydd sydd angen eu datblygu
- a rhoi manylion am unrhyw berthynas gyda chyrrff dyfarnu graddau neu sefydliadau dyfarnu, ac am y pwyntiau cyfeirio allanol (heblaw'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol - gwelwch Adran 2) y mae gofyn i chi eu hystyried.

Anogir sefydliadau'n gryf i fod yn agored ac yn onest yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso. Yn bennaf, dylai fod yn ddogfen werthusol, gyda thystiolaeth gefnogol, a dim ond disgrifiad cyfyngedig o brosesau.

### Data

Mae gan ASA ddiddordeb yn y ffordd y mae'r darparwyr yn defnyddio data ac yn ymateb iddynt yn y trefnau rheoli ansawdd a safonau academiaidd, ac i hysbysu eu gweithgareddau gwella. Mae hyn yn cynnwys data sy'n darparu gwybodaeth am ansawdd y rhaglenni, megis data am foddhad y myfyrwyr, ac ystadegau cynnydd y myfyrwyr, gwybodaeth am eu cyflawniad a'u cyflogaeth, ac am y ffordd y mae'r darparwr yn monitro'r data sy'n ymwneud â'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig, ac yn ymateb iddynt. Dylai'r hunanasesiad ddangos sut mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth a data yn ei brosesau ansawdd, a sut mae'n myfyrio arnynt, gan esbonio'r canlyniadau a'u rhoi yn eu cyd-destun.

Fel arfer, byddai ASA yn disgwyl gweld data o ffynonellau megis yr AMC a data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn cael eu defnyddio mewn prosesau ansawdd, ac wrth ystyried sut i wneud y defnydd gorau o gyfresi data mwy newydd megis y rheiny am y Canlyniadau Addysg Hydredol. Lle bo'n berthnasol, dylai'r Dadansoddiad Hunanwerthuso roi sylwadau ar ddata am fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y darparwr, ac ymateb iddynt, gyda chyfeiriadau cefnogol.

Bydd timau adolygu'n cymryd i ystyriaeth Ddatganiadau o Ganfyddiadau yn unol â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar gyfer y darparwyr hynny sydd wedi dewis mynd i mewn i'r Fframwaith. Gallai'r Datganiadau helpu'r adolygwyr i ganfod meysydd o gryfder neu wendid a'u galluogi i archwilio ymateb y darparwr i'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.

Anogir y darparwyr i restru cyfresi data perthnasol eraill sydd wedi'u meincnodi'n genedlaethol neu'n rhyngwladol, lle bo'r rhain ar gael neu'n berthnasol.

Ymhob achos, bydd y tîm adolygu'n archwilio'r ffordd y mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol i hysbysu ei werthusiad o'i bolisiau a'i arferion, ac wrth lunio cynlluniau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.

## **Tystiolaeth gefnogol**

Mae'r sail tystiolaeth ar gyfer Adolygiad GA yn cyfuno gwybodaeth a gesglir gan ASA gyda gwybodaeth a roddir gan y darparwr, gan gynnwys y Dadansoddiad Hunanwerthuso, y Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw (gwelwch Adran 3), a'r wybodaeth a ddarperir gan y myfyrwr.

## **Gwybodaeth a gesglir gan ASA**

Byddwn yn casglu tystiolaeth i'r timau adolygu am ansawdd a safonau o ffynonellau cyhoeddus sydd ar gael i ni. Bydd yr wybodaeth hon yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr, a gallai gynnwys:

- yr adroddiadau adolygu ASA mwyaf diweddar am y darparwr, ac am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw
- yr adroddiadau mwyaf diweddar gan gyrff sicrhau ansawdd eraill, gan gynnwys sefydliadau rhyngwladol, am y darparwr, ac/neu am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw
- yr adroddiadau arolygu mwyaf diweddar gan ESTYN am y darparwr, ac am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw.

Byddwn yn llunio rhestr o'r wybodaeth hon erbyn amser y Cyfarfod Paratoadol (26 wythnos cyn yr Ymweliad Adolygu) ac yn rhannu'r rhestr yn y cyfarfod hwnnw er mwyn bod yn eglur ac i roi cyfle i chi godi unrhyw bryderon. Cewch y cyfle yn eich dogfen hunanwerthusiad i esbonio, neu roi yn ei chyd-destun, unrhyw ran o'r wybodaeth yr ydym wedi'i rhestru.

## **Sut mae'r tîm adolygu'n defnyddio'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau**

Mae'r tîm adolygu'n defnyddio'r Dadansoddiad Hunanwerthuso drwy gydol y broses adolygu fel man cychwyn i ddeall sut mae'r darparwr yn ystyried ac yn monitro'n systematig pa mor effeithiol y mae'n gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Bydd y tîm yn chwilio am arwyddion bod y gwaith monitro a'r hunan-ystyriaethau'n:

- defnyddio gwybodaeth rheoli
- gwneud cymariaethau â'ch perfformiad yn y gorffennol
- gwneud cymariaethau yn erbyn meincnodau cenedlaethol a rhyngwladol, lle maent ar gael ac yn berthnasol
- defnyddio barn y myfyrwr (a rhanddeiliaid eraill, lle bo hynny'n berthnasol)
- arwain at bennu cryfderau a meysydd i'w gwella, ac yn dilyn hynny at newidiadau yn eich gweithdrefnau neu'ch arferion, ac at gynlluniau i wella profiad y myfyrwr.

Bydd timau adolygu bob amser yn defnyddio'r Dadansoddiad Hunanwerthuso yn ystod yr Ymweliad Adolygu, fel ffynhonnell wybodaeth yn ogystal â ffordd o lywio drwy'r dystiolaeth gefnogol.

Lle mae meysydd sydd angen eu datblygu, bydd y tîm adolygu'n archwilio:

- i ba raddau y gallai'r ansawdd neu'r safonau academaidd fod dan risg
- i ba raddau y mae'r darparwr wedi canfod y broblem neu'r problemau
- y cynlluniau ar gyfer ymdrin â'r broblem neu'r problemau, gan gynnwys unrhyw waith datblygu ehangach sydd wedi'i gynllunio a'r amseriad a ragwelir ar gyfer ei gwblhau
- pa mor debygol yw hi y bydd y broblem neu'r problemau'n digwydd eto yn y dyfodol.

Lle mae meysydd o gryfder, bydd y tîm adolygu'n archwilio:

- i ba raddau y mae holl fyfyrwyr y darparwr yn elwa, neu y gallent elwa, a nifer y myfyrwyr sydd yn elwa
- y trefniadau ar gyfer lledaenu'r arferion da
- y cynlluniau ar gyfer gwerthuso a hybu'r arferion da.

## **Rhannu'r Dadansoddiad Hunanwerthuso gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr**

O ystyried y ffaith fod y Dadansoddiad Hunanwerthuso'n gyfraniad mor bwysig i'r broses adolygu, er mwyn bod yn eglur ac yn deg disgwylir y bydd yn cael ei rhannu gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr - ar yr hwyraf pan fydd yn cael ei llwytho i'r wefan electronig ddiogel. Yn ddelfrydol, dylai hunanasesiad y darparwr ac unrhyw gyflwyniad y myfyrwyr adlewyrchu sut mae'r darparwr a'i fyfyrwyr yn cydweithio'n rheolaidd.

## Atodiad 7: Cynnwys yr Adroddiad Technegol

Bydd Adroddiadau Technegol yn cael eu strwythuro o amgylch y penawdau a ganlyn:

### Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

- Gwybodaeth gryno am y darparwr, sy'n cynnwys fframwaith strategol, strwythur cyfundrefnol
- Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau
- Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol
- Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad
- Crynodeb byr o natur a rhesymeg y meysydd penodol y dylai'r adolygiad a'r hunanwerthusiad ganolbwyntio arnynt
- Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol
- Lle bo'n berthnasol, manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth ag o/ â nhw

### Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

- Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr
- Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr
- Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio
- Profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil
- Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr
- Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg
- Cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg
- Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr

### Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu

- Y dull strategol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, a'r dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso
- Y dull o reoli newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu
- Y dulliau o gefnogi arloesi, a chanfod a rhannu arferion da
- Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw
- Effeithiolrwydd y dulliau o weithredu strategaethau sefydliadol a gwella'r dysgu a'r addysgu

### Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

- Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

- Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd
- Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd
- Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall
- Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso
- Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu
- Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd
- Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

### **Darpariaeth gydweithredol (os yw hyn yn berthnasol)**

- Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)
- Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid
- Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

## Atodiad 8: Penodi, hyfforddi a rheoli adolygwyr

Cyflawnir Adolygiad GA gan dimau o adolygwyr sy'n gymheiriaid. Cymheiriaid yw staff sydd ag arbenigedd lefel uwch mewn darparu a rheoli darpariaeth addysg uwch, neu fyfyrwyr sydd â phrofiad o gynrychioli buddiannau myfyrwyr. Mae ASA yn penodi adolygwyr yn ôl y meini prawf dethol isod. Mae ASA yn croesawu enwebiadau gan ddarparwyr ledled y DU, ac anogir pob darparwr yng Nghymru i wneud o leiaf un enwebiad i bob rôl adolygydd. Yng Nghymru, gall cyrff cynrychioli myfyrwyr neu ddarparwyr addysg uwch enwebu adolygwyr sy'n fyfyrwyr. Dewisir adolygwyr rhyngwladol ar sail enwebiadau gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ac o gysylltiadau ASA gyda darparwyr ac asiantaethau perthnasol mewn gwledydd eraill. Mae ASA yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y gronfa gyfan o adolygwyr Adolygiad GA yn adlewyrchu nodweddion y sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys ystyried sgiliau iaith Gymraeg, a ffrydiau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae hygredd y broses adolygu'n dibynnu i raddau mawr ar y ffaith fod gan dimau adolygu'r profiad a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac felly rydym yn penodi adolygwyr sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd fel staff gan ddarparwyr neu (o ran adolygwyr sy'n fyfyrwyr) sydd wedi'u cofrestru ar raglen astudio, yn y drefn honno. Ond, gan gydnabod bod gan wybodaeth a phrofiad fywyd y tu hwnt i gyfnod o gyflogaeth neu gyfnod astudio, rydym yn hapus i ystyried hunan-enwebiadau gan gyn-staff sy'n gallu dangos ymgysylltiad parhaus ag ansawdd a safonau academaidd, ac rydym yn caniatáu i fyfyrwyr barhau'n adolygwyr am gyfnod cyfyngedig wedi iddynt adael addysg uwch (mae rhagor o fanylion isod).

Mae ASA yn hyfforddi holl adolygwyr Adolygiad GA i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r dull adolygu a chyd-destun y sector addysg uwch yng Nghymru.

Pennir adolygwyr naill ai o enwebiadau a wneir gan ddarparwyr neu drwy hunan-enwebiad, fel a ganlyn.

- Mae'n rhaid i staff sy'n gweithio i ddarparwr gael eu henwebu gan eu cyflogwr, fel arwydd o barodrwydd y cyflogwr i gefnogi eu hymrwymiad i'r broses adolygu. Nid ydym yn derbyn hunan-enwebiadau gan staff a gyflogir gan ddarparwyr.
- Gall cyn-staff eu henwebu eu hunain i dderbyn ystyriaeth. I fod yn gymwys, mae'n rhaid iddynt gwrdd â'r meini prawf dethol a nodir isod ac mae'n rhaid iddynt ddangos ymgysylltiad parhaus ac ystyrlon â gwaith sicrhau safonau academaidd ac ansawdd y tu hwnt i unrhyw gyfranogaeth sydd ganddynt ag ASA. Gallai hyn fod drwy rôl ymgynghori neu swydd wirfoddol, megis aelodaeth o gorff llywodraethu'r darparwr.
- Gallai adolygwyr sy'n fyfyrwyr gael eu henwebu gan ddarparwyr neu gan yr undebau myfyrwyr cydnabyddedig neu gyfatebol, neu gallent eu henwebu eu hunain. Rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru ar raglen addysg uwch neu fod yn swyddog sabothol i un o'r undebau myfyrwyr cydnabyddedig ar amser yr enwebu. Cânt barhau fel adolygwyr am hyd at ddwy flynedd academaidd wedi iddynt gwblhau eu hastudiaethau neu eu tymor fel swyddog sabothol.

### Y nodweddion gofynnol ymhob adolygwr

Mae ASA yn disgwyl i'r holl adolygwyr arddangos:

- y gallu i ddeall gwahanol safbwyntiau
- y gallu i ymdeimlo ag unigolion, gan gynnwys myfyrwyr ac uwch reolwyr
- y gallu i arwain trafodaethau ar dulliau strategol a gweithredol yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau academaidd yn gyffredinol, ac â gwella profiad dysgu'r myfyrwyr yn arbennig

- y gallu i gasglu llawer o wybodaeth wahanol, i'w dadansoddi ac i lunio casgliadau dibynadwy ar sail tystiolaeth
- y gallu i barchu cyfrinachedd unrhyw faterion sensitif
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- y gallu i weithio'n effeithiol gyda systemau cyfathrebu electronig ac/neu ar y we
- y gallu i weithio'n effeithiol yn rhan o dîm
- y gallu i gadw at brotocolau, gweithdrefnau a dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt.

## Y meini prawf dethol

Dyma'r meini prawf hanfodol i adolygwyr sy'n staff:

- Naill ai:
  - profiad eang cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o weinyddu rheolaeth academiaidd ar lefel sefydliadol yn y DU, os yn bosib mewn perthynas â sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr, neu
  - brofiad sylweddol o weithio mewn rôl lefel uwch mewn gwasanaeth cymorth proffesiynol i ddarparwr addysg uwch lle cafodd yr adolygwyr o leiaf bum mlynedd o brofiad o weithio mewn rôl sy'n rhoi dealltwriaeth eang iddynt o'r darparwr cyfan.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cod Ansawdd, yr ESG, a gofynion rheoleiddiol sylfaenol eraill.
- Ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig y system addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol (bydd hyfforddiant yn ceisio pwysleisio hyn ond byddai rhywfaint o ymwybyddiaeth gychwynnol yn hynod fanteisiol).

Dyma'r meini prawf manteisiol ar gyfer adolygwyr sy'n staff:

- y gallu i ddarllen a siarad Cymraeg
- gwybodaeth a phrofiad o addysg uwch mewn addysg bellach
- profiad o gyfranogi fel cadeirydd, aelod o banel, aseswr neu rôl gyfatebol ym mhroses adolygu cyfnodol eu darparwr eu hunain ac/neu ddarparwyr eraill
- profiad o asesu cyflawniadau myfyrwyr ar raglenni addysg uwch eu darparwr eu hunain ac/neu ddarparwyr eraill (er enghraifft, fel arholwr allanol).

Yn ychwanegol at y nodweddion gofynnol ymhob adolygwr, disgwylir i adolygwyr rhyngwladol arddangos nifer o'r nodweddion a ganlyn:

- profiad eang cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o weinyddu rheolaeth academiaidd ar lefel sefydliadol y tu allan i'r DU, os yn bosib yn ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr
- profiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o adolygiadau allanol o sefydliadau addysg uwch y tu allan i'r DU, naill ai drwy fod yn aelod o banel neu drwy gymryd rôl uwch mewn sefydliadau sicrhau neu wella ansawdd arbenigedd a gydnabyddir gan gymheiriaid mewn datblygu arferion da mewn dysgu ac addysgu, a phrofiad ehangach y myfyrwyr (byddai'n hynod fanteisiol cael cydnabyddiaeth o'r fath ar lefel rhyngwladol)
- gwybodaeth a phrofiad o'r arferion mewn o leiaf un wlad yn ogystal â'r DU (byddai'n hynod fanteisiol cael gwybodaeth a phrofiad cymharol a rhyngwladol eang)
- dealltwriaeth o nodweddion arbennig y system addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol, ac o'r dull o sicrhau gwelliant yn arbennig (bydd hyfforddiant yn pwysleisio hyn ond byddai rhywfaint o ymwybyddiaeth gychwynnol yn hynod fanteisiol).

Dyma'r meini prawf dethol hanfodol ar gyfer adolygwyr sy'n fyfyrwyr (neu adolygwyr sy'n fyfyrwyr rhyngwladol):

- profiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o astudio gyda darparwr addysg uwch yn y DU (neu y tu allan i'r DU), sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn o addysg amser llawn
- profiad o gyfranogi, fel cynrychiolwyr buddiannau myfyrwyr, trwy gyfrannu at y gwaith o reoli safonau academaidd ac/neu ansawdd
- ymwybyddiaeth gyffredinol o'r amrywiaeth yn y sector addysg uwch ac o'r trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd.

Dyma'r meini prawf manteisiol ar gyfer adolygwyr sy'n fyfyrwyr:

- y gallu i ddarllen a siarad Cymraeg
- ymwybyddiaeth gyffredinol o'r amrywiaeth yn y sector addysg uwch yng Nghymru y tu hwnt i'w darparwr 'cartref', ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd yng Nghymru (bydd hyfforddiant yn darparu rhagor o wybodaeth am hyn ac mae ASA yn chwilio am ymgeiswyr sydd â'r gallu i adeiladu ar y profiad sydd ganddynt yn barod).

Wrth benodi adolygwyr i'n cronfa adolygwyr, rydym yn ceisio sicrhau bod y gronfa'n cynrychioli ystod eang o ddarparwyr a'i bod yn weddol gytbwys o ran disgyblaethau, lleoliadau daearyddol, rhyw'r bobl a'u cefndiroedd ethnig.

## **Rheoli contractau**

Mae ASA yn penodi adolygwyr ar y sail eu bod yn cytuno i wneud dau adolygiad ymhob blwyddyn academaidd, os gofynnir iddynt wneud hynny. Bydd ASA yn adolygu'r penodiadau ar ôl dwy flynedd, ond gallai eu hymestyn drwy gytundeb ar y cyd ac yn dibynnu ar berfformiad boddhaol.

Ar ddiwedd pob adolygiad, gofynnwn i'r adolygwyr gwblhau ffurflen werthuso sy'n eu gwahodd i roi adborth am eu perfformiad eu hunain ac am berfformiad yr adolygwyr eraill. Mae'r Swyddog ASA sy'n cydlynu'r adolygiad yn rhoi adborth ar bob un o'r adolygwyr hefyd. Rydym yn rhannu adborth yn rheolaidd (a gedwir yn ddiennw) gyda'r adolygwyr perthnasol, i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae ASA yn gwahodd adolygwyr sydd wedi derbyn adborth arbennig o gadarnhaol i gyfranogi yn y rhaglen hyfforddi adolygwyr, rhannu eu harferion a chefnogi adolygwyr eraill. Mae ASA yn cynnig cymorth ychwanegol i adolygwyr sydd wedi derbyn adborth llai cadarnhaol, neu gallai eu tynnu o'r gronfa adolygwyr, yn dibynnu ar natur yr adborth a'i fynychder.

## Atodiad 9: Rhoi ystyriaeth i gefndir y darparwr

Lluniwyd Adolygiad GA i fodloni anghenion darparwyr sefydledig sydd â chefnidir hir gydag ASA a'r darparwyr hynny sy'n datblygu eu cofnod o adolygiadau gydag ASA; mae wedi'i lunio i fod yn hawdd ei addasu er mwyn bod yn addas i brifysgolion mawr a darparwyr addysg bellach sy'n darparu addysg uwch fel elfen fechan yn unig o'u portffolio. Y darparwyr sefydledig ym marn ASA yw'r rheiny sydd wedi cael dau adolygiad ASA llwyddiannus (adolygiadau yn erbyn y disgwyliadau ar gyfer darpariaeth addysg uwch y DU). Mae'r atodiad yma'n rhoi arweiniad i'r rheiny nad ydynt eto'n ddarparwyr sefydledig.

Mae gofyn i ddarparwyr newydd neu'r rheiny sydd wedi cael llai na dau adolygiad ASA llwyddiannus blaenorol, ddarparu hunanasesiad manylach yn erbyn yr ESG a'r gofynion sylfaenol fel y maent wedi'u nodi yn Adran 2. Dylent ddarparu hwn ochr yn ochr â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso sy'n edrych ar welliant (fel sydd wedi'i ddisgrifio yn Adran 3 ac Atodiad 6). Dylai hyn gynnwys dogfen sy'n mapio'r arferion sefydliadol yn llawn yn erbyn yr ESG, wedi'i chefnogi gan gysylltiadau at ddogfennau cefnogol allweddol penodol (er enghraifft, rheoliadau academaidd penodol ac adrannau penodol mewn llawlyfrau ansawdd) yn ogystal ag enghreifftiau dangosol o ganlyniadau'r prosesau ansawdd i ddangos eu heffeithiolrwydd wrth weithredu. Bydd hyn yn galluogi i'r darparwr ddangos sut y byddent yn bodloni, neu sut y maent wedi parhau i fodloni, y gofynion rheoleiddiol sylfaenol a'r ESG.

Yng Nghymru, mae darparwyr newydd a'r rheiny sydd â llai na dau adolygiad ASA blaenorol oll yn ddarparwyr heb bwerau dyfarnu graddau sy'n darparu graddau mewn cydweithrediad â phartneriaid dyfarnu. Bydd y darparwyr hyn yn ei chael hi'n ddefnyddiol cwblhau 'Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau' sy'n amlinellu'r ymraniad cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd rhwng y darparwr a'i bartneriaid dyfarnu. Mae copi o'r templed ar gyfer y Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau ar gael yn Atodiad 9a.

Dylai'r darparwyr gysylltu ag ASA i gael gwybodaeth gyfredol am gyngor a chyfarwyddyd perthnasol i ddarparwyr sydd heb bwerau dyfarnu graddau.

## Atodiad 9a: Rhestr wirio o gyfrifoldebau ar gyfer darparwyr sydd heb bwerau dyfarnu graddau

Dylech gwblhau un copi o'r rhestr wirio hon ar gyfer **pob** partneriaeth gyda chorff dyfarnu neu sefydliad dyfarnu a'i hanfon at ASA yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer y ddogfen hunanwerthusiad.

<b>Y darparwr</b>	
<b>Y corff/sefydliad dyfarnu</b>	

Pennwch y cyfrifoldebau rheoli (neu'r cyfrifoldebau sydd i gael eu gweithredu mewn cytundebau partneriaeth) gan ddefnyddio'r rhestr wirio isod. Pan fo'r darparwr yn gwbl gyfrifol (y gweithredu wedi'i ddirprwyo'n gyfan gwbl) marciwch y golofn **darparwr**; os oes gan y corff/sefydliad dyfarnu gyfrifoldeb llawn, marciwch y golofn **corff/sefydliad dyfarnu**; os yw'r cyfrifoldeb wedi'i rannu neu os yw'r darparwr yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y corff/sefydliad dyfarnu, marciwch y golofn **a rannwyd**.

Pan fo cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r darparwr neu pan fo wedi'i rannu, rhwch **cyfeiriad(au) at ddogfen(nau)** sy'n dangos sut y mae hwn wedi'i reoli neu ei weithredu.

<b>Maes</b>	<b>Y darparwr</b>	<b>Y corff/sefydliad dyfarnu</b>	<b>A rannwyd</b>	<b>Dogfen(nau) i gyfeirio ati/atynt</b>
Datblygu a chymeradwyo rhaglenni				
Addasu rhaglenni				
Gosod asesiadau				
Marcio gwaith y myfyrwyr am y tro cyntaf				
Safoni neu ail farcio gwaith y myfyrwyr				
Rhoi adborth i fyfyrwyr am eu gwaith				
Recriwtio myfyrwyr				
Derbyn myfyrwyr				
Dethol neu gymeradwyo staff addysgu				
Adnoddau dysgu (sy'n cynnwys adnoddau llyfrgell)				
Ymgysylltiad â'r myfyrwyr				

Ymateb i adroddiadau'r arholwyr allanol				
Monitro blynyddol				
Adolygu cyfnodol				
Cwynion myfyrwyr				
Apeliadau myfyrwyr				
Rheoli'r berthynas gyda sefydliadau partner eraill (megis darparwyr lleoliadau gwaith)				
Cynhyrchu gwybodaeth ddiffiniol am raglenni addysg uwch (megis manylebau rhaglenni a gwybodaeth sy'n benodol berthnasol i addysg uwch)				
Gwelliant				

# Atodiad 10: Y broses adolygu rannol

## Cyflwyniad

Efallai y bydd angen i ddarparwyr addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru gael Adolygiad GA rhannol neu gynharach er mwyn bodloni gofynion Cynlluniau Mynediad a Ffioedd CCAUC. Yn unol â dull seiliedig ar risg, bydd CCAUC yn asesu cynlluniau ac adroddiadau blynyddol gan ddarparwyr i ganfod a ddylai unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill i ddarpariaeth y darparwr ofyn am adolygiad llawn neu rannol cynharach. Ymhlith y newidiadau a allai sbarduno adolygiad rhannol mae newidiadau arwyddocaol yn nifer y myfyrwyr, y mathau o ddarpariaeth, darpariaeth gydweithredol, a chwynion am safonau ac ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan CCAUC.

Yn ogystal, gallai darparwyr gomisiynu adolygiadau rhannol yn wirfoddol. Gallai'r ymgysylltiad â chymheiriad allanol y mae adolygiadau'n ei gynnig helpu darparwyr i werthuso'r cynnydd yn erbyn eu hamcanion i wella mewn maes penodol o'u gweithgareddau.

Mae angen i broses adolygu rannol fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau unrhyw adolygiad penodol (er enghraifft y rhesymau dros fod angen adolygiad rhannol). Mae'r ddogfen hon yn bwriadu darparu fframwaith y dylai'r adolygiad rhannol ddigwydd oddi mewn iddo, sy'n galluogi'r holl bartion i gynllunio a chyfranogi'n effeithiol.

Mae'r broses adolygu rhannol yn dilyn y Llawlyfr safonol ar gyfer Adolygiad GA gyda'r eithriadau a ganlyn:

- cwtogir yr amserlen ar gyfer y broses adolygu
- cyhoeddir adroddiad newydd sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth a bennir ar gyfer adolygu ac ar y ffordd y mae'r darparwr yn rheoli'r ddarpariaeth hon
- nid oes Briffiau i Ddarparwr
- gellir cynnal y Cyfarfod Paratoadol drwy fideo neu delegynadleda
- nid oes Ymweliad Cyntaf gan y Tîm er y bydd y tîm yn cyfarfod yn breifat drwy fideo-gynadleda
- pennir hyd yr Ymweliad Adolygu o flaen llaw gan ASA.

Bydd gofyn i ddarparwyr gynhyrchu Adroddiad Newidiadau newydd a gallai myfyrwyr hefyd gynnig cyfraniad myfyrwyr yn wirfoddol. Nid oes raid i'r adroddiad hwn fod mor gynhwysfawr â'r Dadansoddiad Hunanwerthuso ar gyfer adolygiad llawn. Bydd yr Adroddiad Newidiadau'n cynnwys cyflwyniad byr i'r darparwr ac yn rhoi ei gyd-destun, ynghyd ag adroddiad am y meysydd sydd i gael eu hadolygu ac am y ffordd y maent yn cael eu rheoli i fodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol a'r ESG. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â chynhyrchu'r Adroddiad Newidiadau yn Adran 3, ac mae Atodiad 5 yn ymwneud â datblygu cyfraniad y myfyrwyr ar gyfer adolygiadau (rhannol).

Bydd ASA yn pennu'r amserlen ar gyfer adolygiadau rhannol mewn trafodaeth gyda'r darparwr, gan ystyried yr amseriad priodol ar gyfer adolygiadau yn ôl gofynion CCAUC. Mewn rhai achosion gallai fod yn bosibl, drwy gytundeb ar y cyd, i wneud yr adolygiad rhannol yn unol ag amserlenni byrrach na'r rheiny sydd wedi'u nodi yma.

Bydd y ffi ar gyfer yr adolygiad rhannol yn amrywio i adlewyrchu hyd yr adolygiad rhannol a nifer yr adolygwyr sy'n cymryd rhan. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi arwydd o'r ffi debygol. Mae'n rhaid i'r darparwyr dalu'r ffioedd llawn ar gyfer adolygiadau rhannol erbyn 12 wythnos cyn yr ymweliad, er mwyn i'r adolygiad rhannol ddigwydd.

	Ymweliad un diwrnod	Ymweliad dau ddiwrnod	Ymweliad tri diwrnod
Dau adolygwr			
Tri adolygwr			
Pedwar adolygwr			

Canlyniadau'r adolygiad rhannol fydd beirniadaethau sy'n benodol berthnasol i'r ddarpariaeth sydd wedi cael ei hadolygu, ac adroddiad cyhoeddus yr adolygiad rhannol. Bydd yr adroddiad hwn yn fersiwn llawer byrrach o'r Adroddiad Technegol, a bydd yn dilyn yr un penawdau fel y maent yn berthnasol i'r ddarpariaeth benodol sydd dan sylw yn yr adroddiad. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y penawdau perthnasol yn unig. Er enghraifft, os nad oes gan yr adolygiad rhannol y dasg o edrych ar ddarpariaeth ôl-raddedig, yna ni fydd sylwadau o dan y pennawd hwnnw. Ni fydd adroddiadau adolygiadau rhannol yn adolygu strategaethau ac arferion mewn perthynas â gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

Bydd beirniadaethau sydd angen camau dilyniant yn dilyn yr un broses sydd wedi'i disgrifio yn Adran 5 ac wedi'i chrynhof yn Atodiad 12. O ganlyniad, bydd ASA yn rhoi gwybod i CCAUC am ganlyniadau'r adolygiad ac yn cynghori'r darparwr am y camau nesaf.


Ni fydd adolygiad rhannol yn ail-osod hyd y cyfnod o ysbaid cyn adolygiad llawn nesaf y darparwr.

## Amserlen ddangosol ar gyfer adolygiad rhannol yn rhan o Adolygiad Gwella Ansawdd

Bydd yr Ymweliad Adolygu ar gyfer adolygiad rhannol yn para hyd at dri diwrnod, gydag uchafswm o bedwar adolygwr. Bydd ASA yn pennu hyd yr ymweliad a maint y tîm cyn amserlennu'r ymweliad.

Yn dilyn hysbysiad gan y darparwr eu bod angen adolygiad rhannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>ASA yn cadarnhau'r meysydd sydd i gael eu hadolygu ac yn cytuno ar ddyddiadau ar gyfer yr ymweliad</li> <li>ASA yn rhoi gwybod i'r darparwr am y Swyddog ASA a'r tîm</li> <li>Y darparwr yn darllen y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA ac yn dechrau paratoi ei Adroddiad Newidiadau a'r dogfennau cefnogol - gallai'r Swyddog ASA gynnig cyfarwyddyd ar strwythur yr Adroddiad Newidiadau drwy gyfrwng y ffôn, fideo-gynadledda neu e-bost</li> </ul>
-8 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y darparwr yn llwytho'r Adroddiad Newidiadau a'r dystiolaeth gefnogol, a'r tîm yn cychwyn dadansoddi'r dogfennau lle bo'n bosibl, gofynnir i ddarparwyr helpu gyda chynhyrchu cyflwyniad myfyrwyr, a allai gael ei gyflwyno erbyn 2 wythnos cyn yr ymweliad</li> </ul>
-5 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y tîm yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol (os oes ei hangen), ac yn cynnig amserlen ar gyfer yr ymweliad, gan gynnwys pwy i gwrdd â nhw</li> </ul>
-2 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y darparwr yn cyflwyno tystiolaeth ychwanegol (a chyflwyniadau myfyrwyr, os oes rhai)</li> </ul>
Ar y prynhawn/noson cyn yr Ymweliad Adolygu rhannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y tîm yn cynnal cyfarfod cyn-ymweliad</li> </ul>
0 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymweliad Adolygu rhannol â'r darparwr</li> </ul>
+2 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>ASA yn rhoi gwybod i'r darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr am y beirniadaethau a'r canfyddiadau yn yr Adroddiad Canlyniadau dros dro</li> </ul>
+4 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>ASA yn anfon yr Adroddiad Canlyniadau a'r Adroddiad Technegol at y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i dderbyn sylwadau</li> </ul>
+7 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol</li> <li>ASA yn cwblhau'r adroddiad</li> </ul>
+10 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>ASA yn cyfieithu ac yn cyhoeddi'r adroddiad</li> </ul>
+16 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi'r adroddiad ar y we, neu os yw un o'r beirniadaethau'n negyddol, gallai'r darparwr apelio</li> </ul>

## Atodiad 11: Crynodeb o'r camau gweithredu yn dilyn yr adolygiad



Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' mewn unrhyw faes

Ar ôl 12 mis

O fewn 6 wythnos, cytuno ar gynllun gweithredu, rhoi'r cynllun ar y wefan. Cyflwyno adroddiadau cynnydd yn gyfnodol.

Dilyniant gan gymheiriad i weld a ellir uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau

Os yw'n iawn

Os nad

Uwchraddio beirniadaethau'r adolygiad

Proses 'Datganiad o Ymyriad' CCAUC

Ar ôl 3 blynedd

Adolygiad sicrwydd bob tair blynedd CCAUC

Ar ôl 4 blynedd

Yr adolygiad nesaf

Os rhoddir y feirniadaeth 'ddim yn bodloni'r gofynion' mewn unrhyw faes

Ar ôl 12 mis

Ar ôl 2 flynedd

O fewn 6 wythnos, cytuno ar gynllun gweithredu, rhoi'r cynllun ar y wefan. Cyflwyno adroddiadau cynnydd yn gyfnodol.

Dilyniant gan gymheiriaid i weld a ellir uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau

Os yw'n iawn

Os nad

Uwchraddio beirniadaethau'r adolygiad

Proses 'Datganiad o Ymyriad' CCAUC

Yr adolygiad nesaf

## Atodiad 12: Camau dilynol beirniadaethau'r adolygiad

Mae canllawiau CCAUC ar gyfer Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol, Ebrill 2017<sup>26</sup> yn nodi:

"Os bydd [darparwyr yn derbyn] unrhyw ddyfarniadau **'yn bodloni'r gofynion gydag amodau'** neu **'ddim yn bodloni'r gofynion'**, bydd rhaid i [ddarparwyr] roi cynllun gweithredu ar waith i alluogi adolygu'r dyfarniad o fewn 12 mis i gyhoeddi canlyniad yr adolygiad. Bydd rhaid iddynt gysylltu â'u hasiantaeth adolygu benodol i sicrhau dilysiad bod y camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith fel ymateb i ganlyniadau'r adolygiad wedi adfer unrhyw ddiffygion oddi mewn i'r amserlen honno, ac felly galluogi uwchraddio canlyniad y dyfarniad."

"Mae uwchraddio canlyniad y dyfarniad yn hanfodol, oherwydd bydd dyfarniad yr adolygiad allanol yn sail i asesiad CCAUC ynghylch a yw [darparwyr] yn bodloni gofynion ansawdd y Cynllun Mynediad a Ffioedd."

### Paragraffau 25 a 26

Yn unol â pharagraff 135 y ddogfen yma, rhaid i'r cynlluniau gweithredu a ddatblygir mewn ymateb i'r beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'ddim yn bodloni'r gofynion' gael eu cytuno gydag ASA cyn eu cyflwyno. Bydd y Swyddog ASA eisiau sicrhau bod y cynllun gweithredu'n darparu sail ddigonol ar gyfer monitro ymateb y darparwr i'r beirniadaethau a'r argymhellion. Mae templed ar gyfer cynlluniau gweithredu ar gael, os gofynnir amdano, er nad yw'n orfodol ei ddefnyddio oherwydd efallai y bydd y darparwr eisiau defnyddio cynllunio ar ei batrwm ei hun. Dylai'r darparwr lunio'r cynllun gweithredu ar y cyd gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr.

Dylai'r Swyddog ASA annog y darparwr i gymryd digon o amser i ymdrin â'r materion yn llawn yn hytrach na'i frysio i wyrdroi'r feirniadaeth/beirniadaethau. Fel arfer, bydd raid i'r tîm adolygu fod â thystiolaeth i ddangos bod y darparwr wedi cymryd cam gweithredu a bod hwn wedi bod yn effeithiol cyn y gall ystyried newid i'r feirniadaeth.

Unwaith i ASA gytuno ar y cynllun gweithredu, bydd y Swyddog ASA yn gweithio gyda chi i gynllunio cyfres o adroddiadau cynnydd chwarterol sydd i gael eu darparu dros y flwyddyn ddilynol. Gellir edrych eto ar ba mor aml y cynhyrchir yr adroddiadau yma ac addasu hynny ar sail y datblygiad a wnaed. Bydd ffactorau megis pa mor ddifrifol yw'r feirniadaeth/beirniadaethau ac anghenion tebygol y darparwr yn penderfynu a fydd cyfarfodydd cynnydd yn digwydd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Dylai'r cyfarfod cychwynnol gynnwys yr Hwylusydd ac, os yw'n bosibl, y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr hefyd.

Dylai'r darparwr gynhyrchu adroddiadau cynnydd ar y cyd gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr. Mae ASA yn cynghori darparwyr i gychwyn casglu tystiolaeth berthnasol wrth iddynt roi cynlluniau gweithredu ar waith.

Gall y Swyddog ASA drafod y datblygiad gyda'r tîm adolygu unrhyw bryd.

Mae'r tabl isod yn rhoi amserlenni dangosol ar gyfer y broses ddilyniant, y gellir eu cwtdogi gyda chaniatâd y Swyddog ASA ac mewn ymgynghoriad ag ef/â hi. Gallai amserlen fyrrach gynnwys nifer llai o adroddiadau cynnydd.

---

<sup>26</sup> Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol (CCAUC), sydd ar gael ar: [www.hefcw.ac.uk/documents/policy\\_areas/learning\\_and\\_teaching/Adolygiad%20sicrwydd%20ansawdd%20allanol.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/Adolygiad%20sicrwydd%20ansawdd%20allanol.pdf) (PDF, 301KB).

Wythnosau gwaith	Gweithgareddau
0	ASA yn cyhoeddi adroddiad yr adolygiad
+8 wythnos	Y darparwr yn cyhoeddi cynllun gweithredu
+18 wythnos	Y cyfarfod cyntaf am gynnydd - rhwng y Swyddog ASA, yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr
+24 wythnos	Yr ail gyfarfod cynnydd
+25 wythnos	ASA yn cynllunio ymweliad dilyniant yn nhermau nifer yr adolygwyr a hyd yr ymweliad, ac yn anfonebu'r darparwr
+32 wythnos	Y trydydd cyfarfod cynnydd
+36 wythnos	Y darparwr yn cyflwyno'r cynllun gweithredu diweddaraf a thystiolaeth o gynnydd i'r tîm adolygu
+40 wythnos	Y tîm adolygu'n ymweld â'r darparwr i driongli'r cynllun gweithredu a'r dystiolaeth drwy gwrdd â'r myfyrwyr a'r staff. Y tîm yn cynnal cyfarfod preifat ar ddiwedd ei ymweliad i ailystyried y feirniadaeth/beirniadaethau.
+42 wythnos	Y Swyddog ASA yn anfon yr adroddiad drafft ymlaen at y darparwr i dderbyn sylwadau
+44 wythnos	Y darparwr yn cyflwyno sylwadau am yr adroddiad drafft
Erbyn +48 wythnos	ASA yn gweithredu mewn ymateb i unrhyw faterion o anghywirdeb ffeithiol ac yn cyhoeddi'r adroddiad dilyniant

Os derbynir adroddiadau'n brydlon ac maent yn dangos cynnydd o ran ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad, bydd ASA yn trefnu i'r tîm adolygu ystyried a ddylid uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i 'yn bodloni'r gofynion'. Gallai hyn gynnwys ymweliad pellach â'r darparwr gan yr holl dîm adolygu neu ran ohono. Rhaid talu'r holl ffioedd am yr ymgysylltiad dilyniant cyn yr ymweliadau.

Mae'r Swyddog ASA yn penderfynu a oes achos o prima facie ar gyfer ailystyried y feirniadaeth/beirniadaethau gan y tîm adolygu. Nid cyfrifoldeb y Swyddog ASA yw hi i wneud yr ailystyriaeth yma; cyfrifoldeb yr adolygwyr o hyd yw'r beirniadaethau.

Bydd y penderfyniad a ddylai'r tîm adolygu wneud ymweliad pellach â'r darparwr, a faint o adolygwyr sy'n cymryd rhan yn y camau dilyniant, yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad gwreiddiol.

Penderfyniad ASA ynghylch yr angen am ymweliad pellach, a hyd yr ymweliad pellach hwnnw, fydd y penderfyniad terfynol. Mae'r tabl isod yn ddangosol.

Y beirniadaethau	Ymgysylltiad llawn a chynnydd da	Diffyg ymgysylltiad / cynnydd aneffeithiol
'yn bodloni'r gofynion gydag amodau'	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad pen desg</li> <li>• Dau adolygwr</li> <li>• Y gost: £4,920</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymweliad un diwrnod</li> <li>• Dau adolygwr</li> <li>• Y gost: £6,780</li> </ul>
'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymweliad un diwrnod</li> <li>• Dau adolygwr</li> <li>• Y gost: £6,780</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymweliad un neu ddau ddiwrnod</li> <li>• Tri adolygwr</li> <li>• Y gost: £9,620</li> </ul>
'ddim yn bodloni'r gofynion'	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymweliad un neu ddau ddiwrnod</li> <li>• Tri adolygwr</li> <li>• Y gost: £9,620</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymweliad dau ddiwrnod</li> <li>• Pedwar adolygwr</li> <li>• Y gost: £14,170</li> </ul>

Os bydd y tîm yn cytuno bod modd newid y feirniadaeth/beirniadaethau i 'yn bodloni'r gofynion', bydd y feirniadaeth newydd yn cael ei chofnodi yn yr adroddiad cyhoeddus ar wefan ASA ac ystyrir yr adolygiad yn gyflawn.

Os bydd y tîm adolygu'n barnu na chafwyd digon o gynnydd o ran ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad, bydd y darparwr yn atebol i broses 'Datganiad o Ymyriad' CCAUC.<sup>27</sup>

QAA1963 - Hydref 17

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2017  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786  
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)

---

<sup>27</sup> Datganiad o Ymyriad (CCAUC), sydd ar gael ar:  
[www.hefcw.ac.uk/working\\_with\\_he\\_providers/he\\_wales\\_act\\_2015/statement\\_of\\_intervention\\_cy.aspx](http://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/he_wales_act_2015/statement_of_intervention_cy.aspx).